Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 21/2011

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o Ffynnon

# Gwerthusiad o Ffynnon
# Adroddiad Terfynol, Hydref 2011

## GHK Consulting Ltd

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach cysyllwch â :
Ceri Greenall
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0292082 5872
Ebost: ceri.greenall@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011
ISBN 978 0 7504 6715 5
© Hawlfraint y Goron 2011

## Tabl cynnwys

Cydnabyddiaethau ........................................................................................2
Adroddiad Crynodeb Gweithredol y Gwerthusiad ...........................................3
1. Rhagarweiniad ........................................................................................12
2 Proffilio Rhaglen Ffynnon .........................................................................20
3 Rhaglen Ffynnon – safbwyntiau rhanddeiliaid ar ei defnydd ...................34
4 Asesiad gwerthusol o'r rhaglen ..............................................................65
5 Safbwyntiau ar ddyfodol Ffynnon ............................................................80
6 Crynodeb o'r gwerthusiad, opsiynau ac argymhellion at y dyfodol ..........89
ATODIADAU ..................................................................................................96
ATODIAD A - TROSOLWG O GYFRANOGIAD YN Y RHAGLEN ..........**Error! Bookmark not defined.**
ATODIADAU B - CYFEIRIADAU ....................**Error! Bookmark not defined.**
ATODIAD C - CANLLAW I BYNCIAU CYFWELIADAU RHANDDEILIAID ..........................................................................**Error! Bookmark not defined.**
ATODIAD CH – TEMPLED YR E-AROLWG....**Error! Bookmark not defined.**
ATODIAD D – NODYN CANLLAW GRŴP FFOCWS.....**Error! Bookmark not defined.**
ATODIAD DD – MODELAU LOGIC (ar gyfer rhaglen Ffynnon, y system a chymorth ymgynghori) .....................................**Error! Bookmark not defined.**

## Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i'r canlynol:

Ceri Greenall ac Ian Jones yn Llywodraeth Cymru am eu help wrth lywio'r prosiect ac am eu cymorth yn cynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid.

Aelodau grŵp llywio'r astudiaeth am eu mewnbwn.

Diolch hefyd i bob un o'r cynrychiolwyr o blith rhanddeiliaid a sefydliadau partner a roddodd o'u hamser i gymryd rhan, drwy gyfweliadau, trafodaethau grwpiau ffocws a thrwy gwblhau'r arolwg ar-lein.

## Adroddiad Crynodeb Gweithredol y Gwerthusiad

# Rhaglen Ffynnon

### Elfennau'r Rhaglen

Ym mis Ebrill 2011, penododd Llywodraeth Cymru GHK Consulting Ltd i gynnal gwerthusiad o Raglen Ffynnon. Cafodd ei lansio yn 2007, ac mae'r rhaglen yn cynnwys system ar y we sy'n llwyfannu galluoedd rheoli risg, rheoli prosiectau, rhannu data ac adrodd ar berfformiad, ynghyd â darparu cymorth ymgynghori[1]. Mae'r ymgynghori yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r meddalwedd er mwyn i randdeiliaid unigol a grwpiau wneud defnydd mwy effeithiol o'r system, ac o amgylch materion ehangach rheoli perfformiad, rheoli gwybodaeth a newid busnes.

### Defnydd o'r rhaglen

Cafodd y rhaglen ei datblygu gan Lywodraeth Cymru fel adnodd am ddim iddi hi ei hun a gwasanaethau cyhoeddus lleol ei defnyddio'n hyblyg ar sail anorfodol ac mewn ffordd a oedd yn caniatáu i'r system gael ei theilwra i ateb anghenion y sefydliadau hyn. Yn y dechrau, roedd 30 o sefydliadau rhanddeiliaid[2] ond ers hynny, mae'r ffigur wedi cynyddu i 41[3].

### Trefniadau contractio a phrosiectau/gweithgareddau ychwanegol

Dyfarnwyd y contract am bum mlynedd am ddarparu a gweithgareddau cynnal parhaus[4] ar gyfer system Ffynnon i CoActiva Aspiren Ltd (Sunguard cynt) yn 2007. Roedd system Ffynnon yn seiliedig ar feddalwedd rheoli

---

[1] Dechreuodd y ddarpariaeth ymgynghori tua 18 mis ar ôl lansio'r system.

[2] Roedd y "rhanddeiliaid gwreiddiol" yn cynnwys y 22 Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru, Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog ac Eryri, Uned Ddata Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

[3] Ymhlith y rhanddeiliaid pellach roedd Set Ddata Graidd Cymru Gyfan (cronfa ddata genedlaethol y disgyblion gynt); Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Cymdeithas Tai Clwyd; Estyn; Grŵp Tai Pennaf; Heddlu De Cymru; Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Cyngor Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

[4] Mae hyn yn cynnwys Desg Gymorth Coactiva, hyfforddiant ar y system a dulliau integreiddio'r system

perfformiad Aspireview[5] CoActiva Aspiren.  Mae'r strwythur rheoli wedi esblygu drwy oes y contract, ac mae wedi'i symleiddio erbyn hyn i ffurfio Grŵp Strategol y Rhaglen sy'n cynnwys Coactiva, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), SOLACE, a Llywodraeth Cymru. Mae rhai rhanddeiliaid wedi ymuno fel defnyddwyr ac maent yn talu ar wahân tra bod rhai prosiectau ychwanegol sy'n defnyddio Ffynnon wedi cael eu comisiynu. Mae'r rhain yn cynnwys Set Ddata Graidd Cymru Gyfan[6] - sef y system a'r ymgynghoriaeth sy'n cefnogi'r Adran Addysg a Sgiliau.

## Cefndir i'r gwerthusiad

### Cwmpas yr astudiaeth

Comisiynwyd y gwerthusiad gyda'r bwriad nid yn unig o ddarparu tystiolaeth ynghylch a yw'r rhaglen wedi ateb ei gofynion cytundebol, ond hefyd i gasglu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ynghylch posibiliadau cyllido'r system a'r ddarpariaeth ymgynghori yn y dyfodol cyn i'r contract ddod i ben yn 2012. Roedd cwmpas y gwerthusiad yn cynnwys contract Ffynnon ynghyd â phrosiectau ac ymgysylltiadau ychwanegol sydd wedi datblygu y tu hwnt i'r contract ynghlwm wrth system Ffynnon y talwyd am y rheiny ar wahân.

### Nodau ac amcanion y gwerthusiad

Mae nodau'r prosiect yn disgyn i dri maes eang gydag amcanion cysylltiedig: Gweithredu a rheoli: gwerthuso gweithrediad Ffynnon, i ba raddau caiff ei defnyddio, p'un a gaiff ei rheoli'n llwyddiannus ac a yw'r elfen ymgynghori'n llwyddiannus, a yw wedi cyflawni'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, i ba raddau mae wedi cyrraedd ei photensial ac os nad ydyw, beth yw'r rhwystrau; Perfformiad Ffynnon fel teclyn i goladu, cymharu a rheoli gwybodaeth: canfod pa mor ddefnyddiol mae wedi bod yn y gwahanol gyd-destunau y caiff ei defnyddio ynddynt (casglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth, darparu adroddiadau, cynhyrchu allbwn i ddinasyddion);  ynghyd â pha mor ddefnyddiol mae wedi bod i randdeiliaid ac a yw wedi darparu gwerth

[5] Fframwaith Aspireview ar gyfer Rheoli Perfformiad, gwaith mewn Awdurdodau Lleol a Chydweithio: http://www.coactiva.com/aspiren/products/aspireview
[6] Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion gynt

ychwanegol i unrhyw systemau blaenorol; hefyd i bennu effaith a photensial Ffynnon o ran galluogi agenda gwella gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru;

O ran costau a deilliannau: pennu a yw Ffynnon wedi darparu gwerth am arian; canfod a yw gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad; adnabod meysydd i'w gwella a sut gellid cyflawni hyn; ac amlygu goblygiadau ar gyfer y contract presennol a chaffael yn y dyfodol.

**Methodoleg yr astudiaeth**

Cynlluniwyd methodoleg yr astudiaeth i ymateb i'r cwestiynau a nodir uchod. Rhannwyd yr ymagwedd gyflwyno ar gyfer yr astudiaeth yn dri cham, i gynnwys:

Y cam cwmpasu: i ganfod y cefndir a'r cyd-destun ar gyfer y rhaglen; yr wybodaeth a oedd ar gael a'r wybodaeth yr oedd angen i'w chasglu. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol i ganfod y cyd-destun strategol, polisi a chyflwyno; ynghyd â chyfweliadau cwmpasu gyda phartneriaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o Coactiva (rheolwr y contract); Llywodraeth Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; ynghyd ag arddangosiad ar-lein o system Ffynnon.

Ymchwil ymysg rhanddeiliaid: Cyfweliadau (rhai wyneb yn wyneb a rhai dros y ffôn) gydag o leiaf un cyswllt allweddol mewn 39 o'r 41 sefydliad rhanddeiliaid a nodwyd; cyfweliadau trylwyr ag ystod ehangach o ddefnyddwyr o fewn sawl un o'r rhanddeiliaid; e-arolwg o aelodau Rhwydwaith Gwella Cymru (RhGC) y derbyniwyd ymatebion gan 19 o'r 22 awdurdod lleol; mynychu Grŵp Defnyddwyr De Cymru a hwyluso trafodaeth grŵp ffocws; a mynychu cyfarfod RhGC a hwyluso trafodaeth grŵp.

Yna cynhaliwyd cyfweliadau atodol gyda phob un o dri ymgynghorydd Ffynnon Coactiva, a chysylltiadau mewn Adrannau unigol neu dimau o fewn Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â digwyddiadau y tu allan i gontract Ffynnon (roedd y rhain yn cynnwys yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Cynllunio ac AGGCC). Yn olaf, cwblhawyd methodoleg yr astudiaeth gyda gweithgarwch dadansoddi ac adrodd.

Llesteiriwyd yr astudiaeth oherwydd nad oedd unrhyw ddata caled am ddefnydd o'r gwasanaeth ymgynghori, defnyddwyr y system na chyflawniad rhaglenni gwaith blynyddol. Prin iawn oedd y defnyddwyr a oedd yn gallu rhoi amcangyfrifon o'r arbedion o ran costau'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn sgîl defnyddio'r system neu'r gwasanaeth ymgynghori nac ychwaith yn gallu mynd y tu hwnt i roi adroddiadau disgrifiadol o unrhyw ddeilliannau neu arbedion y gellid eu priodoli i'r rhaglen.

## Canfyddiadau allweddol yr ymchwil

### Lefelau a mathau o ddefnydd ymysg Rhanddeiliaid

Mae natur anorfodol system a gwasanaeth ymgynghori Ffynnon yn golygu bod cryn dipyn o ystod a dyfnder yn y defnydd ohoni. Gall hyn amrywio o ddefnydd helaeth, lle mae sefydliad wedi gwreiddio Ffynnon ar draws pob adran/tîm ac mae'n sail i reoli perfformiad ar bob lefel, i ddefnydd cymedrol megis gan adrannau mewn awdurdod lleol, i ddefnydd cyfyngedig, megis ar gyfer ystod gymharol gul o swyddogaethau (er enghraifft rhannu dogfennau), i achosion lle na chaiff ei defnyddio ar gyfer unrhyw swyddogaethau. I randdeiliaid a oedd wedi dewis peidio ag ymgysylltu â'r system, yn arbennig ym maes rheoli perfformiad, roedd hyn oherwydd bod ganddynt systemau eisoes yn eu lle (naill ai wedi'u prynu i mewn neu wedi'u datblygu'n fewnol) neu oherwydd eu bod o'r farn nad oedd y system a'r cymorth yn bodloni eu gofynion.

Ar adeg yr ymchwil, roedd graddfeydd defnydd ymysg rhanddeiliaid yn gymharol uchel ac yn tyfu, gyda 22 (58 y cant) yn defnyddio system Ffynnon yn helaeth neu i lefel gymedrol, gyda'r un gyfran, 22 (58 y cant), yn defnyddio'r cymorth ymgynghori i raddau helaeth neu gymedrol. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol (32 y cant) naill ai nad ydynt yn defnyddio'r system neu'n gwneud defnydd cyfyngedig ohoni heb unrhyw fwriad i gynyddu eu defnydd. Mae'r 10 y cant sy'n weddill yn gwneud defnydd cyfyngedig o'r system ond yn bwriadu cynyddu eu cyfranogiad.

**Ffyrdd y caiff Ffynnon ei defnyddio**

Caiff system Ffynnon ei defnyddio mewn ffyrdd sydd wedi'u teilwra i fonitro perfformiad a chefnogi rheoli rhaglenni; meincnodi, cymharu a rhannu data; a throsglwyddo data a dogfennau. Caiff ei defnyddio at ddibenion rhannu cymaint ag ar gyfer swyddogaethau rheoli perfformiad. Y tu hwnt i'r defnyddiau hyn, canfu'r ymgynghoriad fod Ffynnon yn cael ei defnyddio fel teclyn i gynorthwyo gweithio ar y cyd ar lefelau lleol, rhanbarthol a lleol-genedlaethol.

Mae'r cymorth ymgynghori a'r hyfforddiant wedi'u cyrchu'n helaeth – roedd bron naw o bob deg o'r rhanddeiliaid wedi cael rhywfaint o brofiad o gymorth ymgynghori Ffynnon gan Coactiva[7]. Roedd dros hanner y sefydliadau (54 y cant) wedi cael cymorth mewn perthynas ag agwedd benodol ar reoli perfformiad, a hynny'n hyfforddiant Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (ASC) yn bennaf.

**Amgyffrediadau o'r rhaglen**

Gan fyfyrio ar lefelau'r defnydd ymysg rhanddeiliaid lleol yn gyffredinol, roedd amgyffrediadau o raglen Ffynnon yn gymysg, gan amrywio o un disgrifiad o "*declyn hynod o werthfawr sy'n caniatáu i ni gasglu mwy o wybodaeth nag o'r blaen, sy'n helpu i sicrhau bod y data a gesglir yn gywir ac sydd ag iddi ran awtomatig sy'n arbed amser i staff*" i "*nid yw Ffynnon yn cynnig unrhyw beth y tu hwnt i'r hyn sydd gennym yn barod… mae ein systemau'n gwneud yr hyn rydym am iddynt ei wneud*". Yn gyffredinol, nododd rhanddeiliaid cenedlaethol (fel Cyngor Celfyddydau Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)) ei bod yn cael ei defnyddio'n helaethach a'i bod yn parhau i ateb anghenion polisi er mwyn sicrhau gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus a chynyddu effeithlonrwydd.

Casglwyd barn am agweddau arbennig ar y rhaglen:

_Rheoli'r rhaglen_

[7] Roedd rhai rhanddeiliaid nad ydynt yn defnyddio'r system ar hyn o bryd wedi derbyn hyfforddant fel rhagarweiniad

Roedd mwy na hanner y rhanddeiliaid o'r farn yr hoffent weld lefel uwch o gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru, fel y corff comisiynu.

*Mecanweithiau rhoi adborth a Chyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr*

Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn fodlon ar y mecanweithiau rhoi adborth ar gyfer y rhaglen gan gynnwys Llinell Gymorth Coactiva, ymgynghorwyr Coactiva, a'r cyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr. Roedd mwyafrif helaeth y mynychwyr o'r farn bod y cyfarfodydd yn gynorthwyol o ran cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r system, clywed am brofiadau defnyddwyr eraill ac yn fwy cyffredinol, cael y cyfle i sefydlu cysylltiadau â phobl gyswllt mewn sefydliadau eraill.

*Dyfodol y rhaglen*

Yn sgîl yr ymgynghoriad, canfuwyd, yn absenoldeb Ffynnon, na fyddai tua thraean o'r rhanddeiliaid wedi newid eu systemau rheoli perfformiad tra byddai traean arall wedi cyflwyno system arall. Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn dymuno i Lywodraeth Cymru barhau i dalu am Ffynnon; pan holwyd am eu parodrwydd i dalu, tri yn unig a oedd o'r farn y byddai ei phrynu yn bosibilrwydd go iawn.

Ynghyd â rôl gyllido, roedd rhanddeiliaid am weld mwy o gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru mewn darparu arweinyddiaeth strategol i raglen Ffynnon. Awgrymodd y rhanddeiliaid hefyd rai gwelliannau allweddol i system Ffynnon. Roedd y rhain yn amrywio o ddatrys 'manion' technegol, i faterion mwy sylweddol fel gwella'r galluedd adrodd.

Mae rhanddeiliaid cenedlaethol yn cydnabod bod rhesymau ac anghenion strategol dros raglen Ffynnon sydd â'r potensial i ddenu arbedion drwy ddefnyddio'r system ar y cyd rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol ar raddfa helaethach nag a gyflawnir ar hyn o bryd.

## Crynodeb ac argymhellion

### Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Mae'r gwerthusiad yn dangos bod awydd, yn ddiau, ar draws y sector cyhoeddus i system feddalwedd barhau i gefnogi gweithgareddau rheoli

perfformiad, hwyluso casglu data, cynorthwyo dadansoddi a monitro a galluogi adrodd.

*Cryfderau'r rhaglen bresennol*

Ymysg cryfderau allweddol y rhaglen bresennol, a nodwyd gan yr astudiaeth, mae'r canlynol:

- Hyblygrwydd y system, gan alluogi defnyddwyr i'w theilwra at eu hanghenion eu hunain;
- Y gallu i gofnodi data unwaith a'i ddefnyddio llawer iawn o weithiau i symleiddio prosesau adrodd – gwerthfawrogir hyn yn fawr;
- Ansawdd y cymorth a ddarperir gan ymgynghorwyr Coactiva sydd wedi galluogi gweithredu systemau rheoli perfformiad a rhannu data gan roi manteision i ddefnyddwyr;
- Mae'n cefnogi casglu data a rhannu/trosglwyddo data mewn ffordd safonol, fel rhannu data at ddibenion archwilio rhwng rhanddeiliaid a Swyddfa Archwilio Cymru;
- Mae'n atgyfnerthu'r ffocws ar reoli perfformiad, gan sbarduno rhai defnyddwyr i adolygu a gwella'u hymagweddau presennol;
- Mae'n sbarduno ac yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;
- Ochr yn ochr â'r cydweithio mwy ffurfiol, mae wedi hwyluso datblygu cysylltiadau anffurfiol rhwng rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus sy'n gweithio ar berfformiad a chydweithio;
- Mae ganddi'r potensial nid yn unig i gael ei defnyddio'n helaethach gan randdeiliaid ond gallai fod iddi ddefnyddiau newydd, yn arbennig i rannu a throsglwyddo data.

*Heriau'r rhaglen bresennol*

Ymysg yr heriau neu'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn sgîl yr astudiaeth mae'r canlynol:

- Y nifer o fân faterion technegol y mae defnyddwyr wedi'u codi a dweud y mae angen mynd i'r afael â nhw fel mater o flaenoriaeth;

- Mae diffyg arweinyddiaeth strategol yn y berthynas rhwng Coactiva a’r sefydliadau rhanddeiliaid; mae rhanddeiliaid o’r farn bod angen i’r sefydliad cyllido/rheoli’r contract chwarae rôl fwy gweithgar;
- Ni chaiff ei defnyddio ar draws y bwrdd; er ei bod yn bwysig peidio ag ystyried bod y rhaglen yn cael ei gwthio ar randdeiliaid yn y sector cyhoeddus, mae hyn wedi golygu bod lefelau defnydd a’r ffordd y caiff ei defnyddio (os o gwbl) yn amrywio’n helaeth. Mae hyn yn cyfyngu ei photensial fel ateb Cymru gyfan i alluogi sector cyhoeddus mwy cydgysylltiedig ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad a rhannu/trosglwyddo data;
- Mae gwybodaeth reoli neu ddata allbwn cyfyngedig ar gyfer y rhaglen, sy’n cyflwyno her wrth asesu effaith gweithgarwch Ffynnon. Dylid casglu data rhaglenni mewn dull strwythuredig wedi’i ffurfioli;
- Pe bai gofyn iddynt dalu am y rhaglen, byddai rhanddeiliaid lleol ond yn ystyried y buddiannau costau uniongyrchol iddynt hwy, ac nid y buddiannau costau a fyddai’n cronni i randdeiliaid eraill.

**Argymhellion yr astudiaeth**

Dyma’r argymhellion a ddatblygwyd mewn perthynas â’r contract presennol:

- Am weddill y contract, dylai’r contractwr ganolbwyntio ar gynyddu dyfnder y defnydd ymysg defnyddwyr allweddol a gwelliannau galluedd;
- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd rôl reoli fwy gweithredol yn y contract o ran monitro a darparu arweiniad strategol a ddylai gynnwys blaenoriaethu datblygiadau a chymorth ymgynghori, casglu gwybodaeth reoli ar ddefnydd y cymorth ymgynghori a chyflawniad y rhaglen ac adborth ffurfiol gan ddefnyddwyr mewn arolwg blynyddol;
- Dylid hyrwyddo arfer da yn fwy gweithredol ynghylch gweithrediad a manteision defnyddio’r system.

Mewn perthynas â chontractio yn y dyfodol:

- O ystyried y buddiannau sy’n cronni i randdeiliaid cenedlaethol a’r buddiannau i randdeiliaid unigol yn sgîl gweithio ar y cyd/rhannu gwaith drwy system Ffynnon, dylai fod parhad i arweinyddiaeth a chyllid gan

Llywodraeth Cymru tuag at system o'r fath ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru;

- Dylid chwilio am fanteision tebyg i'r system bresennol o gymharu â systemau cyffelyb mewn unrhyw gontract yn y dyfodol, fel y rheiny mewn perthynas â defnyddwyr newydd a diweddariadau;

Y system yw'r flaenoriaeth; mae'n bwysicach i ddefnyddwyr na'r cymorth ymgynghori.

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Cefndir yr astudiaeth

Ym mis Ebrill 2011, penododd Llywodraeth Cymru GHK Consulting Ltd i gynnal gwerthusiad o Raglen Ffynnon. Cafodd y rhaglen ei lansio yn 2007, ac mae'n darparu system ar y we sy'n llwyfannu galluoedd rheoli risg, rheoli prosiectau, rhannu data ac adrodd, a darparu cymorth ymgynghori gan gyflenwr y system a ddechreuodd tua 18 mis ar ôl lansio Ffynnon. Mae'r cymorth ymgynghori yn darparu hyfforddiant yn nefnydd y meddalwedd ac o amgylch materion ehangach rheoli perfformiad, rheoli gwybodaeth a newid busnes. Roedd cwmpas y gwerthusiad yn cynnwys contract Ffynnon ynghyd â phrosiectau ac ymgysylltiadau ychwanegol sydd wedi datblygu y tu hwnt i'r contract ar gyfer system Ffynnon y talwyd amdanynt ar wahân[8].

1.2 Nodau ac amcanion y gwerthusiad

Comisiynwyd y gwerthusiad gyda'r bwriad nid yn unig o ddarparu tystiolaeth ynghylch a yw'r rhaglen wedi ateb ei hamcanion yn ystod oes y contract, ond hefyd i gasglu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ynghylch cyllido'r system a'r cymorth ymgynghori yn y dyfodol cyn i'r contract ddod i ben yn 2012.

Gellir rhannu prif nodau'r prosiect yn dri maes bras:

1. <u>Gweithredu a rheoli:</u>
    - Gwerthuso gweithrediad Ffynnon, p'un a gaiff ei rheoli'n llwyddiannus ac a yw'r elfen o gymorth ymgynghori yn effeithiol - a yw wedi ateb y galw gwreiddiol, wedi cyrraedd ei photensial ac os nad ydyw, beth oedd y rhwystrau i hyn;
    - Pennu graddau defnyddio a chwmpas y rhaglen;
    - Canfod at ba ddibenion y defnyddir y data, a pham na chaiff ei ddefnyddio;
    - Canfod sut caiff Ffynnon ei defnyddio o fewn rhanddeiliaid a rhyngddynt;

[8] Roedd yn anodd datgysylltu'r rhain oherwydd bod rhai rhanddeiliaid yn talu am y system a'r cymorth ymgynghori ar wahân ac mae rhai o randdeiliaid Llywodraeth Cymru wedi comisiynu datblygiadau ychwanegol y tu allan i'r contract.

- Gwerthuso methodoleg gaffael unigol y sector cyhoeddus fel model, ac a oedd yn effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr i fabwysiadu’r cynnyrch.

2. Perfformiad Ffynnon fel teclyn ar gyfer coladu, cymharu a rheoli gwybodaeth:

- Canfod pa mor ddefnyddiol y bu yn yr amrywiol gyd-destunau y caiff ei defnyddio (casglu gwybodaeth, rhannu gwybodaeth, darparu adroddiadau, cynhyrchu allbwn i ddinasyddion);
- Canfod pa mor ddefnyddiol y bu Ffynnon ar gyfer y rhanddeiliaid ac a yw wedi darparu unrhyw werth ychwanegol o’i chymharu ag unrhyw systemau blaenorol; a
- Phennu effaith a photensial Ffynnon o ran galluogi agenda Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau cyhoeddus.

3. O ran costau a deilliannau:

- Pennu a yw Ffynnon wedi darparu gwerth am arian;
- Canfod a yw gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i Ffynnon;
- Nodi meysydd i’w gwella a sut gellid cyflawni hyn.

Yn sail i’r nodau hyn roedd yr amcanion manwl canlynol ar gyfer yr astudiaeth y mae disgwyl iddi:

- Gasglu gwybodaeth fanwl ynghylch ble a sut y caiff Ffynnon ei gweithredu a’i defnyddio, gan ganolbwyntio ar feysydd i’w gwella;
- Casglu barn rheolwyr perfformiad rhanddeiliaid;
- Nodi a yw Ffynnon wedi symleiddio prosesau, lleihau dyblygu monitro ac adrodd, a symleiddio rhannu data neu gyflwyno gwelliannau eraill i ffyrdd o weithio a chanlyniadau, yn arbennig o ran rhannu gwybodaeth gydag arolygiaethau a rheoleiddwyr, ac ym mha feysydd y mae hyn wedi digwydd;
- Nodi ble y caiff Ffynnon ei defnyddio ar gyfer meincnodi a chymharu perfformiad, ac i ba raddau mae hyn wedi cael effaith ar berfformiad;
- Dadansoddi tueddiadau yn y dangosyddion perfformiad y mae Ffynnon yn eu monitro cyn ac ers ei gweithredu er mwyn canfod a

yw mabwysiadu Ffynnon yn cyflwyno newid systemataidd o ran casglu data/mesur perfformiad. Canfod y canlynol:
a) a fu unrhyw newidiadau sylweddol ers ei dechrau;
b) p'un a ellir priodoli unrhyw newidiadau i'r cynllun;

- Llunio amcangyfrif o gost gweinyddu/gweithredu'r Cynllun i Lywodraeth Cymru a phwyso a mesur y gost/buddiannau (ariannol ac eraill) yn erbyn modelau amgen.

1.3 Ymagwedd a methodoleg yr astudiaeth

Datblygwyd y fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth er mwyn ymateb cyhyd â phosibl i'r nodau a'r amcanion a amlinellir uchod. Gan adlewyrchu cylch gorchwyl yr astudiaeth, ffocws yr ymchwil oedd:

- Graddau a natur defnydd o'r rhaglen a phrofiad o ddefnyddio'r system ymysg y 41 rhanddeiliad;
- I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae Ffynnon wedi cael effaith ar randdeiliaid, yn unigol ac ar draws y 41 sefydliad;
- Barn ac ymateb rhanddeiliaid i'r rhaglen – sut mae'n cymharu â threfniadau eraill ar gyfer rheoli data perfformiad, rheoli data a rhannu gwybodaeth;
- Trefniadau caffael, gweinyddol a rheoli Llywodraeth Cymru – effeithiolrwydd a chost;
- Defnydd, effaith ac amgyffrediadau o Ffynnon ymysg partneriaid strategol;
- Nodi a gosod opsiynau at y dyfodol.

Roedd tri cham i'r astudiaeth. Y cam cyntaf oedd pennu'r cwmpas er mwyn canfod cefndir a chyd-destun y rhaglen, yr wybodaeth a oedd ar gael a'r wybodaeth i'w chasglu. Roedd hyn yn cynnwys:

- Adolygu dogfennau allweddol i ganfod y cyd-destun strategol, polisi a chyflwyno, gan gynnwys: dogfennau tendr gwreiddiol, Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Aspiren[9] a Llywodraeth Cymru,

[9] Aspiren oedd enw blaenorol Coactiva

Adroddiadau Cynnydd ac Adroddiadau Blynyddol a Chynllun Cenedlaethol Coactiva;

- Cyfweliadau cwmpasu gyda phartneriaid strategol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Coactiva (rheolwr y contract); Llywodraeth Cymru, WLGA, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC, fel aelod o grŵp llywio gwerthuso Ffynnon);
- Arddangosiad Webex ar-lein o system Ffynnon.

Roedd yr ail gam yn cynnwys ymchwil ymysg rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cyfweliadau (rhai wyneb yn wyneb a rhai dros y ffôn) gydag o leiaf un person cyswllt mewn 39 o'r 41 sefydliad rhanddeiliaid a nodwyd;
- Cyfweliadau manwl gydag ystod ehangach o ddefnyddwyr mewn sawl un o gyrff y rhanddeiliaid i ddarparu darlun mwy cyflawn o'r defnydd;
- E-arolwg o aelodau Rhwydwaith Gwella Cymru (RhGC) y cafwyd ymateb iddo gan 19 o'r 22 awdurdod lleol;
- Mynychu Grŵp Defnyddwyr De Cymru a hwyluso trafodaeth grŵp ffocws;
- Mynychu cyfarfod RhGC a hwyluso trafodaeth grŵp.

Yna cynhaliwyd cyfweliadau ategol gyda:

- Phob un o dri ymgynghorydd Ffynnon Coactiva;
- Pobl gyswllt mewn Adrannau neu dimau unigol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ymgysylltiadau y tu allan i gontract Ffynnon (roedd y rhain yn cynnwys AdAS, Cynllunio ac AGGCC).

## 1.4 Heriau allweddol ar gyfer yr astudiaeth

Roedd sawl her ynghlwm wrth ateb nodau ac amcanion yr ymchwil.

- *Casglu manylion ehangder ac amrywiaeth y defnydd*. Roedd natur hyblyg y rhaglen a chyfranogiad gwirfoddol, lle gallai sefydliadau rhanddeiliaid unigol ddefnyddio'r system i ateb eu hangen cymaint

neu gyn lleied ag y mynnant, yn golygu mewn gwirionedd y gallai fod 41 ffordd wahanol o ddefnyddio'r rhaglen. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r dull fod yn ddigon eang i gipio pob gwahanol fath o ddefnydd, ond eto darparu fframwaith i nodi 'categorïau' o ddefnydd ar draws y boblogaeth rhanddeiliaid o ran graddau a natur eu defnydd o'r system a'r cymorth ymgynghori. Roedd angen datgelu hyn yn sgîl cyfweliadau yn bennaf gyda thystiolaeth ategol yn yr adroddiadau cynnydd, oherwydd nad oedd y darparwr mewn rhai achosion yn gallu darparu proffil pendant o'i ddefnydd naill ai o'r system na'r cymorth ymgynghori. Gallai hyn fod oherwydd 'pocedi' o ddefnydd o'r system neu'r cymorth ymgynghori mewn rhai meysydd gwasanaeth o fewn sefydliad rhanddeiliaid;

- *Adnabod y 'cyfwelai cywir'*: cydnabuwyd y tebygolrwydd y byddai'n anodd sicrhau'r gallu i ganfod graddau'r defnydd a'r effaith ym mhob rhanddeiliad. Roedd hyn oherwydd bod ymwybyddiaeth o raglen Ffynnon a sut mae'r sefydliad yn cymryd rhan ynddi, yn gallu bod yn dameidiog mewn rhai sefydliadau rhanddeiliaid. Er enghraifft, gallai'r person cyswllt penodol ar gyfer Ffynnon fod yn rhan o swyddogaeth gorfforaethol ganolog, gan oruchwylio casglu a choladu data i gefnogi rheoli perfformiad. Byddai ei gylch gorchwyl mewn perthynas â Ffynnon yn disgyn yn bendant gyda defnydd o'r system a'r hyfforddiant ategol ar system Coactiva i gefnogi'r swyddogaeth hon. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai'r unigolyn hwn yn ymwybodol o'r cymorth ymgynghori a ddarparwyd gan Coactiva sydd wedi'i gyrchu gan ran arall o'u sefydliad. Os yw ymgynghorwyr Coactiva wedi darparu gweithdai Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (ASC) i uwch reolwyr, ni fyddai staff gweithredol yn gwybod hyn o reidrwydd. Felly roedd angen i ymagwedd yr astudiaeth 'gwmpasu pob posibilrwydd, er mwyn sicrhau cipio'r darlun cyflawn. Gostyngwyd y risg drwy adnabod cysylltiadau allweddol drwy Coactiva a phartneriaid allweddol eraill fel WLGA, gan ddefnyddio data Coactiva i draws-wirio pwy sydd wedi cyrchu

beth, ac ymgynghori â defnyddwyr lluosog drwy sianeli gwahanol (cyfweliadau a thrwy'r E-arolwg a'r grwpiau ffocws);

- *Asesu effaith a gwerth am arian:* tasg anodd oedd casglu data i nodi a mesur effaith a gwerth am arian. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffactorau canlynol:
  - Mae meintioli effaith ynddo'i hun yn her i randdeiliaid. Mae ategu gwerth i newidiadau mewn proses sefydliadol, neu newid mewn diwylliant yn ymarfer hynod o oddrychol. Er bod rhai sefydliadau'n gallu dweud bod system Ffynnon wedi symleiddio'u prosesau casglu data, neu hyrwyddo mwy o ffocws ar reoli perfformiad ar draws eu sefydliad, nid oedd yn bosibl meintioli hyn;
  - Amrywiaeth yn y data: nod y cyfweliadau oedd casglu gwybodaeth gan randdeiliaid mewn perthynas ag arbedion effeithlonrwydd yn sgîl gwell rheoli perfformiad neu arbed costau gweinyddu drwy ddefnyddio Ffynnon ond yn gyffredinol yn aml y meintiolwyd hyn gan rai rhanddeiliaid. Er enghraifft, mewn rhai awdurdodau lleol, roeddent yn gallu rhoi amcangyfrif o nifer y dyddiau a arbedwyd gan unigolion nad oedd angen mwyach iddynt gasglu data gan swyddogion penodedig, am fod y cydweithwyr hyn yn gyfrifol erbyn hyn am fewnbynnu'r data'n uniongyrchol. Un awdurdod lleol yn unig oedd yn gallu rhoi ffigur ar swm yr arian a arbedwyd gan un Adran yn dilyn cymorth ymgynghori ynghylch mapio prosesau a gweithgareddau gwella a oedd wedi symleiddio'u prosesau.

Gan amlaf mae'r asesiad effaith wedi gorfod dibynnu ar wybodaeth ansoddol.

## 1.5 Y fframwaith gwerthuso

Yn sail i'r astudiaeth mae fframwaith gwerthuso, sydd wedi'i lunio i ddarparu strwythur eglur i'r ymagwedd. Roedd yr ymagwedd o werthuso damcaniaeth y rhaglen a ddarparodd y fframwaith cysyniadol ar gyfer yr

astudiaeth yn cynnwys model rhesymeg gyffredinol ar lefel y rhaglen a dau fodel rhesymeg unigol: system Ffynnon; a chymorth ymgynghori Ffynnon. Gellir dod o hyd i'r modelau rhesymeg yn Atodiad Dd.

Mae'r modelau'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Y rhesymeg – y broblem, yr angen neu'r cyfle y mae angen mynd i'r afael ag ef drwy'r rhaglen (h.y. yr angen i hyrwyddo gwelliant a rheoli perfformiad â pherchnogaeth leol ac osgoi ffocws ar gydymffurfiaeth);
- Mewnbwn – yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu a chyflwyno'r rhaglen;
- Gweithgareddau – y gweithgareddau a gyflwynwyd o fewn cymorth system a chymorth ymgynghori Ffynnon;
- Allbwn – y 'cynnyrch' uniongyrchol a ddylai ymddangos o ganlyniad i'r rhaglen, fel adroddiadau dangosfwrdd, sefydlu cronfeydd data, a gweithdai);
- Deilliannau – y newidiadau penodol a fydd yn digwydd ymysg defnyddwyr, naill ai yn y tymor byr neu'r tymor canolig, fel trefniadau cydweithio effeithiol a threfniadau partneriaeth a'r ffyrdd mae'r rhaglen yn cyfrannu at gynllunio a rheoli polisi; ac,
- Effeithiau – y newidiadau hirdymor y bydd y rhaglen yn eu cyflwyno a allai gynnwys enghreifftiau o'r 'byd go iawn' o newidiadau i bolisi a rhaglenni sydd wedi cael effaith ar gymunedau lleol a/neu unigolion.

Mae'r modelau rhesymeg yn adlewyrchu'r ffaith mai ffocws y gwerthusiad yw mesur allbwn, deilliannau ac effeithiau, o ran: y newidiadau tymor byr i ymddygiad rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan drwy'r rhaglen, h.y. gwella trefniadau rheoli perfformiad presennol; a deilliannau yn y tymor canolig i hir h.y. drwy newidiadau mewn cydweithio ac, yn y pen draw, gwelliannau wrth ddarparu gwasanaethau.

## 1.6 Strwythur yr adroddiad

Caiff gweddill yr adroddiad ei gyflwyno fel a ganlyn:

- Adran 2: mae’n darparu trosolwg o raglen Ffynnon, gan ddisgrifio’r rhesymeg a’r cyd-destun gwreiddiol, a chan nodi newidiadau yn y cyd-destun strategol a gweithredol. Mae’n mynd yn ei blaen i broffilio’r trefniadau contractio a’r strwythur llywodraethu a rheoli.
- Adran 3: mae’n tynnu ar yr wybodaeth a dynnwyd gan randdeiliaid, i gyflwyno darlun o’r rhaglen o safbwynt y defnyddiwr. Mae’n rhoi trosolwg o’r ffordd y caiff elfennau o Ffynnon eu defnyddio, a hefyd yn disgrifio profiad y rhanddeiliad o ymdrin â system Ffynnon a’i hintegreiddio. Mae tair astudiaeth achos wedi’u cynnwys fel enghreifftiau o’i defnydd. Yn olaf, nodir safbwyntiau rhanddeiliaid am ddull llywodraethu a rheoli’r rhaglen.
- Adran 4: mae’n cynnwys yr asesiad gwerthusol o raglen Ffynnon. Mae hyn yn disgrifio deilliannau ac effeithiau rhaglen Ffynnon o’u cymharu â’r rhai a ddisgwyliwyd. Mae hefyd yn mynd yn ei blaen i ystyried cost-effeithiolrwydd Ffynnon, ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael.
- Adran 5: Mae’r adran hon yn ystyried yr opsiynau ar gyfer rhaglen Ffynnon yn y dyfodol. Gan dynnu ar farn rhanddeiliaid, nodir eu safbwyntiau am ddyfodol y system a’r cymorth ymgynghori, ynghyd â goblygiadau ar gyfer partneriaid strategol yn y dyfodol.
- Adran 6: Mae adran 6 yn cyflwyno crynodeb gwerthuso, ac yn nodi opsiynau at y dyfodol gyda goblygiadau cysylltiedig. Hefyd, nodir argymhellion allweddol.

## 2 Proffilio Rhaglen Ffynnon

Yn yr adran hon rydym yn nodi'r cyd-destun polisi ar gyfer rhaglen Ffynnon, yna awn ymlaen i ddisgrifio elfennau'r rhaglen sef y system a'r cymorth ymgynghori. Yna cyflwynir y prosiectau unigol sy'n mynd yn eu blaen y tu hwnt i'r rhaglen. I gwblhau'r proffil, cyflwynwn drosolwg o'r model contractio, nodwn gostau'r rhaglen i Lywodraeth Cymru a disgrifiwn y strwythurau llywodraethu a rheoli sydd yn eu lle ar gyfer y rhaglen.

2.1 Cyd-destun polisi a tharddiad y rhaglen

Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar y pryd) adolygiad o ddulliau cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus lleol ym mis Gorffennaf 2005, sef Adolygiad Beecham, *Ar Draws Ffiniau*. Adlewyrchodd Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adolygiad, *Creu'r Cysylltiadau - Cyflawni Ar Draws Ffiniau* angen i fynd i'r afael â newidiadau sylfaenol yn y berthynas rhwng gwasanaethau a'r cyhoedd (sy'n dal i gael eu hadlewyrchu heddiw yn y pwyslais a roddir ar wneud penderfyniadau ar y cyd a chynhyrchu gwasanaethau ar y cyd) a gofyniad am well effeithlonrwydd wrth ddefnyddio adnoddau er mwyn gwella deilliannau a lleihau costau.[10] Mae'r rhain yn faterion y mae eu pwysigrwydd ond wedi cynyddu ers hynny.

Mae *Cyflawni Ar Draws Ffiniau* yn hyrwyddo 'model dinasyddion' o gyflwyno gwasanaethau, sy'n torri ar draws arferion gwaith a seilos sefydliadol traddodiadol, gan bwysleisio gwasanaethau effeithlon sydd wedi'u personoli ac osgoi llwybrau cymhleth ar draws ffiniau sefydliadol. Canfu'r adroddiad yr angen am ddull cyflwyno sy'n rhoi'r dinesydd yn y canol ac sy'n galw am 'weddnewid diwylliant, gallu ymarferol a phrosesau'r llywodraeth'.[11]

[10] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd: Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru
[11] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), tud.7

Yn Natganiad Polisi Llywodraeth Leol "Rhannu Cyfrifoldeb" a lansiwyd yn 2007, nodwyd y ffordd ymlaen ar gyfer llywodraeth leol wrth gyflawni'r ymrwymiadau yn *Creu'r Cysylltiadau.* Yn y Datganiad, eglurwyd y berthynas rhwng y Cynulliad ac awdurdodau lleol, yn bennaf drwy:

- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio ar anghenion a phrofiadau dinasyddion;
- Annog cyflawni arbenigo ac arbedion maint drwy gydweithio ar draws ffiniau; ac
- Annog integreiddio ac ymatebolrwydd i anghenion amrywiol dinasyddion drwy gydweithio ar draws sectorau.

Gwnaeth y Datganiad gyswllt pendant rhwng cyflwyno gwasanaethau gwell, sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedau a dinasyddion, a'r gofyniad am well gwybodaeth am berfformiad ac atebolrwydd. Pwysleisiodd y Datganiad bwysigrwydd 'gwybodaeth sylfaenol', tynnu ynghyd data perfformiad a oedd ar gael yn hawdd ond nad oedd wedi'i gydlynu. Nododd y Datganiad angen i'r rhaglen bolisi gael ei chefnogi gan well gwybodaeth am berfformiad. Yn y cyhoeddiad *Rhannu Cyfrifoldeb:* ymysg ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol roedd:

- Sefydlu set o safonau gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau allweddol, i ddileu amrywiadau annerbyniol ym mherfformiad gwasanaethau tra'n cydnabod disgresiwn lleol;
- Datblygu adroddiad blynyddol ar berfformiad llywodraeth leol ar draws Cymru gyfan, i ddarparu darlun mwy cyflawn am berfformiad;
- Gweithio gydag arolygiaethau i ddatblygu model cefnogol o arolygu ac adolygu, a fydd yn hoelio sylw ar leihau biwrocratiaeth a lleihau dyblygu ar draws yr arolygiaethau;
- Cytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth cenedlaethol;
- Datblygu methodoleg a phrotocol wedi'u codeiddio ar gyfer cymorth ac ymyrraeth mewn rheoli corfforaethol;
- Sefydlu arfarniad treigl ar bolisi llywodraeth leol yng Nghymru; a
- Chyflwyno pecyn meddalwedd safonol at ddibenion rheoli perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru.

Yr ymrwymiad terfynol hwn a roddodd y sbardun i raglen Ffynnon, system y disgwyliwyd iddi alluogi rhannu a chymharu gwybodaeth perfformiad ar draws awdurdodau a sefydliadau yng Nghymru.

Nodwyd yr angen am system rheoli perfformiad Cymru gyfan yn wreiddiol gan yr awdurdodau lleol eu hunain mewn cyfres o ddigwyddiadau a hwyluswyd gan Uned Ddata Cymru (UDdC). Roedd y gwaith dros y ddwy flynedd blaenorol ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer llywodraeth leol wedi esgor ar drafodaeth am y manteision posibl o sefydlu system feddalwedd rheoli perfformiad Cymru gyfan. Tybiwyd y byddai'r system yn ategu'r fframwaith perfformiad newydd ac yn darparu cyfleuster canolog ar gyfer coladu, dadansoddi a lledaenu data perfformiad, cefnogi cydweithio a chaniatáu i gyfleusterau tebyg fod ar gael i lywodraeth leol.

Yn fwy diweddar, mae'r cyd-destun ehangach wedi'i lunio gan ddatblygiadau polisi allweddol. Caiff y cyd-destun presennol ei nodweddu gan ymgyrch ganolog am welliant. Nodwyd y dôn ar gyfer cyflawni gwerth gorau mewn gwasanaethau, drwy ymagwedd ar sail risg at wella yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (RhCG)[12] (sef canllawiau'r Llywodraeth i awdurdodau lleol yng Nghymru ar weithredu Deddf Llywodraeth Leol 1999). Nododd y rhaglen agenda i gynghorau *"archwilio iechyd y sefydliad corfforaethol a pherfformiad a dyfodol ystod y gwasanaethau maent yn eu darparu"*, a dilyn hynny gyda chynlluniau gweithredu gwella a fabwysiadwyd yn lleol. Roedd RhCG yn hyrwyddo ymreolaeth leol wrth reoli newid. Cymerwyd camau yn ddiweddar i atgyfnerthu ymhellach sefyllfa awdurdodau lleol o ran eu cyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain, a lefelau cynyddol o atebolrwydd.
Nod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009[13] yw *"gwneud newidiadau y bwriedir iddynt atgyfnerthu strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru a gwella'r modd y mae'n gweithio, a hynny ar bob lefel. Bwriedir i'r*

[12] http://www.wlga.gov.uk/english/wales-programme-for-improvement/
[13] Pasiwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Mawrth 2011 a chafodd ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi mewn Cyngor ar 10 Mai 2011

*newidiadau fod yn fodd hefyd i sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn ymgysylltu â hwy"*.

Yn sail i hyn mae ffocws ar hunanasesu ac adolygu. Yn 2010, pasiodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb am fwyafrif gweithgareddau mesur perfformiad llywodraeth leol i WLGA. Yn dilyn adolygiad o Drefniadau Cyflenwi Gwasanaethau Awdurdodau Lleol (Adolygiad Simpson); a gynhaliwyd gan y Ganolfan Arweinyddiaeth Llywodraeth Leol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, cyflwynwyd Fframwaith Gwella Perfformiad newydd o fis Ebrill 2011. Mae'r fframwaith newydd yn canolbwyntio ar ddau faes penodol: darparu mesurau atebolrwydd cyhoeddus; a datblygu setiau data ystyrlon i wasanaethau a'u rheoleiddwyr eu defnyddio i gefnogi gwaith gwella gwasanaethau.

2.2 Elfennau rhaglen Ffynnon

Mae dwy elfen allweddol i raglen Ffynnon: y system feddalwedd a'r cymorth ymgynghori. Disgrifir y naill a'r llall isod.

*System Ffynnon*

Aeth system Ffynnon yn fyw yn 2007, ac fe'i lluniwyd i gefnogi gweithgareddau rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a'u partneriaid drwy ddatblygu a chyflawni datrysiad meddalwedd cyffredin. Y nod oedd y byddai Ffynnon yn darparu cyfle i greu 'cymuned a diwylliant' o reoli perfformiad ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus ac oddi mewn iddynt. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy system feddalwedd gwbl integredig ar gyfer rheoli risg, perfformiad a phrosiectau a oedd yn caniatáu rhannu gwybodaeth o fewn ffiniau sefydliadol ac ar eu traws. Mae'n cynnwys: fframweithiau perfformiad sy'n cael eu cyflwyno mewn strwythur hierarchaidd safonol; adrodd canlyniadau ar ddangosfwrdd; fforymau trafod ar-lein; cyfleuster ar-lein i storio a rhannu dogfennau, delweddau a dolenni; a theclyn i feincnodi perfformiad. Dyfarnwyd y contract pum mlynedd i gyflawni system Ffynnon a gweithgareddau

cymorth parhaus[14] i CoActiva Aspiren Ltd (Sunguard gynt). Roedd system Ffynnon wedi'i seilio ar feddalwedd rheoli perfformiad Aspireview CoActiva Aspiren [15].

Nodweddion diffiniol y system yw:

- Nid yw'n orfodol ei defnyddio – fel y gall awdurdodau unigol a sefydliadau rhanddeiliaid eraill benderfynu sut ac i ba raddau maent am ddefnyddio'r system o fewn eu prosesau rheoli perfformiad a data eu hunain;
- Mae'r system yn hyblyg ei natur – mae rhanddeiliaid yn rhydd i ddefnyddio rhannau o'r system fel y mynnant, er mwyn ateb eu hanghenion eu hunain. O fewn fframwaith Ffynnon, caiff sefydliadau unigol eu cynorthwyo gan Coactiva i 'adeiladu' elfennau'r system i ateb eu hanghenion, fel creu dangosfyrddau wedi'u teilwra;
- Nid oes cyfyngiad ar nifer y defnyddwyr – er bod systemau meddalwedd tebyg yn gweithredu yn unol â nifer penodedig o ddefnyddwyr neu drwyddedau, nid oes cyfyngiad i system Ffynnon na'r defnydd ohoni o fewn sefydliadau rhanddeiliaid;
- Mae'n system ar y we, felly nid yw'n cael ei llwytho i beiriannau defnyddwyr unigol. Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â gosod mynediad i ddefnyddiwr newydd. Mae'r llwyfan ar y we hefyd yn galluogi mynediad o bell a'r gallu i lwytho gwybodaeth, er enghraifft, gyda llechi;
- Darperir datblygiadau a gwelliannau i'r system i bob rhanddeiliad – mewn achosion lle mae rhanddeiliaid unigol wedi contractio'n unigol â Coactiva i gynhyrchu datblygiadau i'r system megis cyfleuster mapio GIS, mae'r gwelliannau hyn ar gael i'r 41 rhanddeiliad eu defnyddio ynghyd â'r hyfforddiant a'r cymorth cysylltiedig a ddarperir.

[14] Mae hyn yn cynnwys Desg Gymorth Coactiva, a hyfforddiant ar y system a chymorth i integreiddio'r system
[15] Aspireview framework for Performance Management, Local Authority and Collaborative working: http://www.coactiva.com/aspiren/products/aspireview

Mae system Ffynnon wedi newid yn sylweddol ers ei lansio. Drwy'r diweddariadau lu i'r system ac yn sgîl datblygu a lansio fersiynau dilynol, mae newidiadau allweddol wedi cynnwys gwelliannau yn ei hymddangosiad a'i galluedd.

Mae adolygiad o'r datrysiad meddalwedd a benodwyd yn y Gwahoddiad i Dendro a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ar y pryd) yn ein galluogi i weld yr hyn a brynwyd yn y lle cyntaf[16]. Nododd y contract gwreiddiol ofynion allweddol Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid, "i gyflenwi datrysiad Meddalwedd Rheoli Perfformiad i randdeiliaid ar draws Cymru". Roedd y Tendr i gyflenwi, gosod, cynnal a chadw'r meddalwedd a'r hyfforddiant roedd ei angen i weithredu'r System Feddalwedd Rheoli Perfformiad. Mae'r Tendr hefyd yn nodi y dylai "Tendrwyr nodi y gallai fod angen gweithredu galluedd ychwanegol mewn blynyddoedd i ddod fel y bydd y gyllideb yn caniatáu. Dylid nodi costau unrhyw fodiwlau meddalwedd priodol ychwanegol sydd ar gael – ond caiff hyn ei ystyried ar wahân i'r fframwaith tendr hwn". Mae'r fanyleb wreiddiol yn dangos bod disgwyl, hyd yn oed mor gynnar â hyn, y byddai'r system yn esblygu drwy gydol cyfnod pum mlynedd y contract.

*Cymorth ymgynghori Coactiva*

Yn ychwanegol i'r system feddalwedd a'r galluedd cysylltiedig, nodwyd yr angen am gymorth gweithredu, hyfforddiant i ddefnyddwyr, ac arbenigedd rheoli newid. Datblygodd y cynnig am gymorth ymgynghori i ategu system Ffynnon, ac ymddangosodd mewn ymateb i'w defnydd a oedd yn ymestyn ar draws gwahanol sefydliadau rhanddeiliaid. Dechreuodd y cymorth ymgynghori tua 18 mis ar ôl i system Ffynnon gael ei lansio.

[16] Gwahoddiad i Dendro Datrysiad Rheoli Perfformiad Cymru Gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2006

Mae tîm penodedig o dri o ymgynghorwyr Coactiva a rheolwr y contract[17] o bryd i'w gilydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi gweithrediad system Ffynnon ynghyd â darparu ymgynghoriaeth strategol mewn meysydd fel rheoli newid neu wella perfformiad. Mae'r cymorth wedi datblygu ochr yn ochr â system Ffynnon.

Mae'r cymorth ymgynghori'n cynnwys gweithgareddau penodedig, ond mae modd i'r ymgynghorwyr bennu ar y cyd â rhanddeiliaid y blaenoriaethau a'r gweithgareddau i ateb anghenion penodol sefydliadau. Mae'r cymorth ymgynghori sydd ar gael yn cynnwys[18]:

**<u>Cymorth System</u>**

- Hyfforddiant a chymorth cymhwyso
- Datblygu a mireinio cynlluniau gweithredu

**<u>Rheoli Perfformiad Strategol</u>**

- Egwyddorion rheoli perfformiad
- Adolygu trefniadau rheoli perfformiad presennol
- Cymorth ac arweiniad ar gyfer gweithgareddau rheoli perfformiad parhaus

**<u>Datblygu Fframwaith Perfformiad</u>**

- Datblygu fframweithiau ac adroddiadau perfformiad lleol neu ar y cyd i alluogi awdurdodau i reoli perfformiad yn effeithiol, cael cipolwg ar ddulliau cyflwyno gwasanaethau a llywio gwaith gwneud penderfyniadau i alluogi cylch o wella'n barhaus

**<u>Gwella Prosesau</u>**

- Gweithdai SPRINT (mae methodoleg gweithdai SPRINT yn canolbwyntio ar weddnewid cyfleoedd i wella prosesau'n fuddiannau busnes go iawn yn sydyn)
- Hyfforddiant Gweithdai SPRINT – Adeiladu gallu aelodau allweddol o staff i'w galluogi i gyflwyno gweithdai SPRINT ar draws y sefydliad neu'r maes gwasanaeth

[17] Mae gwybodaeth gan yr unigolyn yn awgrymu bod hyn yn cyfrif am oddeutu 75 y cant o'i amser.
[18] Ffynhonnell: Cynllun Cenedlaethol Rhaglen Ffynnon 2010/11

- Cefnogi prosiectau a mentrau unigol i wella prosesau gan ddefnyddio egwyddorion darbodus (LEAN)

**Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (ASC)**

- Egwyddorion ASC
- Cymorth ac arweiniad ar gyfer gweithgareddau ASC parhaus
- Sefydlu system ar gyfer casglu a chyflwyno data ASC drwy Ffynnon

**Cymorth rheoli prosiectau a newid**

- Cefnogi gweithgareddau rheoli prosiectau a newid, gan ddarparu arbenigedd yn cwmpasu elfennau o rôl noddwyr a rheolwyr, a sut i sbarduno a strwythuro rhaglenni i reoli newid i wireddu manteision llwyddiannus.

**Cydweithio a rheoli partneriaethau**

Galluogi trefniadau cydweithio a phartneriaethau i gael eu sefydlu a'u gwreiddio, gan gynnwys;

- Egluro amcanion strategol ar gyfer y bartneriaeth
- Datblygu trefniadau monitro ac adrodd perfformiad effeithiol
- Mapio gwybodaeth partneriaethau i system feddalwedd Ffynnon.

Mae'r cymorth ymgynghori yn cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i nodi ac ateb anghenion datblygu a gwybodaeth rhanddeiliaid, tra'n cefnogi newid sefydliadol a'r daith tuag at wella rheoli perfformiad a'r defnydd o adnoddau.

*Prosiectau a gefnogir gan y cymorth ymgynghori*

Yn ogystal â dwy brif elfen rhaglen Ffynnon a'r cymorth ymgynghori, mae o leiaf bedwar prosiect a gweithgaredd ychwanegol yn cael eu cynnal o fewn cwmpas y contract.

Mae AGGCC wedi cael cymorth i ddefnyddio Ffynnon fel ei system rheoli gwybodaeth. Mae'r broses yn parhau, ond yn y lle cyntaf, mae gwaith a wnaed eisoes wedi cynorthwyo AGGCC yn ei phroses adrodd flynyddol, gan alluogi adroddiadau unigol ar lefel Awdurdodau Lleol i gael eu coladu'n ganolog drwy'r system. Caiff y parth cydweithredol o

fewn system Ffynnon ei defnyddio hefyd gan AGGCC, sy’n cynnwys gwybodaeth dangosyddion perfformiad chwarterol ar gyfer 6 Awdurdod Lleol drwy’r gwaith ‘Cau’r Bwlch'.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a Gwasanaethau Budd-dal Tai awdurdodau lleol wedi bod yn defnyddio system Ffynnon i gynhyrchu fframwaith perfformiad cyson ar gyfer Budd-dal Tai. Mae 17 o awdurdodau lleol ynghlwm â’r prosiect, ac mae system Ffynnon yn tynnu data’n awtomatig o’u ffeiliau tynnu budd-dal tai ac yn poblogi dangosfyrddau yn system Ffynnon, wedi’u teilwra i gefnogi blaenoriaethau’r fframwaith perfformiad Budd-dal Tai.

Mae Coactiva hefyd yn gweithio gyda thimau Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn chwe awdurdod lleol, sy’n defnyddio system swyddfa gefn SWIFT. Caiff defnydd o’r system ei gefnogi gan gonsortiwm data SWIFT, ac ar hyn o bryd mae gwaith ar y gweill i ddatblygu ymagwedd at integreiddio ac awtomeiddio’r gwaith o drosglwyddo data crynodol. Bydd gweithgarwch y system ddata hefyd yn cael ei gefnogi gan gydweithio drwy: lyfrgell a rennir a pharth trafod; fframwaith cydweithio a rennir a dangosfyrddau wedi’u cysylltu; codi siartiau a thablau dangosfyrddau cydweithio i safle mewnrwyd SWIFT; ac awtomeiddio trosglwyddo data o ffurflenni PM1 a PM2 i system Ffynnon.

Mae Integreiddio Priffyrdd Conwy/Sir Ddinbych (gweler hefyd broffil yr astudiaeth achos yn adran 3) yn brosiect sy’n cefnogi integreiddio dau wasanaeth Priffyrdd gan ddatblygu templed cynllunio busnes unigol newydd ar gyfer Priffyrdd wedi’i seilio ar ymagwedd ar sail deilliannau. Mae gweithdai SPRINT wedi’u hwyluso gan gwmpasu ystod o feysydd gwasanaeth.

## 2.3 Prosiectau a gweithgareddau unigol

Y tu hwnt i'r prosiectau dan arweiniad y cymorth ymgynghori sydd o fewn cwmpas contract gwreiddiol Ffynnon, mae rhai prosiectau eraill y talwyd amdanynt ar wahân. Mae'r rhain yn cynnwys:

Set Ddata Graidd Cymru Gyfan[19] - mae hyn yn cynrychioli cam sylweddol wrth gefnogi AdAS, drwy gynhyrchu pecynnau data ar gyfer pob un o'r 1833 o ysgolion yng Nghymru. Gan ddisodli'r system flaenorol o ddefnyddio ffeiliau PDF, mae system Ffynnon wedi'i chreu a'i rhag-boblogi gyda'r data perfformiad ar gyfer yr holl ysgolion. Mae'r system yn galluogi pob ysgol i adolygu ei data perfformiad ei hun, a chymharu perfformiad ag ysgolion yn eu grŵp teuluol, ynghyd ag ar gyfer ardal eu Hawdurdod Lleol ac yn erbyn ffigurau Cymru gyfan. Bwriedir datblygu'r system ymhellach, ac mae deilliannau'r prosiectau wedi bod yn sylweddol, gyda phob ysgol yng Nghymru yn defnyddio'r system erbyn hyn. Caiff y Set Data ei defnyddio hefyd gan Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, fel eu prif ffynhonnell ar gyfer data perfformiad ysgolion.
Gan adeiladu ar lwyddiant y prosiect setiau Data Ysgolion, mae Coactiva ac AdAS bellach yn symud tuag at lansio system debyg i gynnwys data ar gyfer y 100+ o ddarparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.

Cynllun peilot Heddlu De Cymru (HDC) – prosiect a oedd yn archwilio potensial Ffynnon i gefnogi gwaith yr heddlu'n genedlaethol. Roedd gweithgarwch y peilot yn cynnwys sefydlu cyflenwad data diogel rhwng cronfa ddata SAS HDC a system Ffynnon i alluogi llwytho data troseddau'n awtomatig bob nos. Mae cynnwys graffigol dangosfwrdd Ffynnon hefyd yn cael ei godi'n fyw i safle mewnrwyd 'Connect' HDC, gan alluogi i swyddogion ar draws yr heddlu weld perfformiad heb orfod mewngofnodi'n uniongyrchol i system.

[19] Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion gynt

Mapiau Ffynnon (Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)) – datblygu modiwl GIS, gan ddarparu galluedd mapio i alluogi defnyddwyr i gyflwyno data drwy fapiau yn unol â ffiniau daearyddol wedi'u diffinio.

E-ffurflenni – mae modiwl e-ffurflenni Ffynnon yn galluogi adrodd Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a dangosyddion perfformiad Dangosyddion Setiau Craidd (DSC) i Lywodraeth Cymru ac UDdC.

2.4 Ymagwedd gaffael contract Ffynnon

Roedd yr achos busnes cadarn a fynegwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer Ffynnon yn rhan hanfodol wrth ddarbwyllo'r Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd i ariannu ymarfer cwmpasu, a gynhaliwyd gan Uned Ddata Cymru (UDdC) ar ran awdurdodau lleol. Nododd yr ymarfer cwmpasu hwn angen ymysg awdurdodau lleol am system rheoli perfformiad ar gyfer Cymru gyfan, y galluedd y byddai angen i'r meddalwedd ei ddarparu a gofynion y system ar gyfer darpar ddefnyddwyr.

Yna cynhaliwyd ymarfer tendro gan UDdC ar ran Llywodraeth Cymru i ddarparu'r meddalwedd rheoli perfformiad i 22 o awdurdodau lleol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Goruchwyliwyd y broses dendro yn ei chyfanrwydd gan Fwrdd Prosiect Meddalwedd RhP Cymru gyfan a thasg y Bwrdd oedd:

- Cytuno cwmpas, ffiniau a rhyngwynebau'r prosiect;
- Cytuno cynllun prosiect;
- Monitro'r prosiect yn erbyn cerrig milltir allweddol;
- Cytuno'r egwyddorion a ddiffiniai'r prosiect; a
- Gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y prosiect a chreu cysylltiadau ag asiantaethau allweddol.

Ar y bwrdd prosiect roedd cynrychiolwyr o WLGA; UDdC; Swyddfa Archwilio Cymru; awdurdodau lleol Cymru (cynrychiolwyd Casnewydd,

Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro a Sir y Fflint) a Llywodraeth Cymru, a darparant lywodraethu i'r broses dendro yn ei chyfanrwydd.

Nod yr ymagwedd gaffael oedd "gwneud y mwyaf o rym prynu a'r effeithlonrwydd a oedd i'w gael yn sgîl caffael ar y cyd", wedi'i ategu gan awydd i ddatblygu datrysiad Cymru gyfan ar gyfer y sector cyhoeddus i gefnogi rheoli perfformiad a galluogi meincnodi a rhannu data ar draws ffiniau sefydliadol.

2.5 Costau rhaglen Ffynnon

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu data ynghylch y costau'n gysylltiedig â rhaglen Ffynnon a gyllidir ganddi[20]. Mae'r rhain wedi'u nodi isod ar gyfer rhaglen Ffynnon a'r datblygiadau unigol ar ddefnydd y system:

| | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Rhaglen Ffynnon*** | | | | | | |
| **System Feddalwedd** | 500,000 | 667,000 | 666,000 | 666,000 | | 2,499,000 |
| **Cymorth ymgynghori** | 110,000 | 360,000 | 360,000 | 360,000 | 300,000 | 1,490,000 |
| **Treuliau'r cymorth ymgynghori** | 0 | 34,529 | 32,271 | 40,000 | | 106,800 |
| **Cyfanswm costau'r rhaglen** | 610,000 | 1,061,529 | 1,058,271 | 1,066,000 | 300,000 | 4,095,800 |
| ***Ymgysylltiadau unigol*** | | | | | | |
| **Cynllun peilot Heddlu De Cymru** | | | | | | 50,973 |
| **E-ffurflenni** | | | | | | 146,903 |
| **System Gwybodaeth Ddaearyddol** | | | | | | 72,000 |
| **AdAS*** | | | | | | 62,992 |
| **CYFANSWM** | | | | | | **4,428,869** |

*APADGOS gynt

Mae gan rai rhanddeiliaid, fel Cyngor Gofal Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, eu contractau unigol eu hunain gyda Coactiva ar gyfer rhaglen Ffynnon. Er enghraifft, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn talu £8,400 y flwyddyn a £2,775 am dri diwrnod o gymorth ymgynghori y mae'n eu defnyddio, a chaiff fudd hefyd yn sgîl datblygiadau'r system fel y system gwybodaeth ddaearyddol y mae'n bwriadu ei defnyddio.

[20] Nid yw'n eglur a yw'r ffigurau ynteu ar gyfer blynyddoedd cynt yn rhai gwirioneddol neu gyllidebau

2.6 Llywodraethu a rheoli rhaglen Ffynnon

Wedi'i gomisiynu'n wreiddiol gan UDdC, mae cyfrifoldeb am reoli contract Ffynnon yn nwylo Llywodraeth Cymru. Tan yn ddiweddar, roedd Bwrdd Rhaglen yn goruchwylio rhaglen Ffynnon, fodd bynnag yn dilyn adolygiad mewnol, symleiddiwyd y strwythur rheoli, ac mae'n cynnwys Grŵp Strategol y Rhaglen, sy'n cynnwys cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru (fel y cyllidwr a rheolwr y contract), WLGA (fel partner strategol, mewn rôl ymgynghorol a chynrychioliadol), SOLACE (Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol) a Coactiva (fel y contractwr). Y bwriad pennaf wrth benderfynu symleiddio'r strwythurau rheoli oedd lleihau'r amser staff a dreuliwyd a'r adnoddau a wariwyd ar reoli.

O ran mewnbwn defnyddwyr, y prif sianeli ar gyfer trosglwyddo adborth defnyddwyr yw drwy'r Grwpiau Defnyddwyr (Gogledd Cymru a De Cymru), a chyfarfodydd Rhwydwaith Gwella Cymru (RhGC).

Caiff diweddariadau ac adroddiadau am gynnydd rhaglen Ffynnon eu darparu ar ffurf Adroddiadau Cynnydd Blynyddol, Adroddiadau Diwedd Blwyddyn, Cynlluniau Rhaglen, a diweddariadau ar gyfer yr ymgynghorwyr unigol yn y grwpiau defnyddwyr ynghyd â thrwy newyddion ar wefan Coactiva.

2.7 Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer Ffynnon yn parhau i gael ei nodweddu gan ffocws canolog ar wella, i'w gyflawni drwy gynyddu atebolrwydd uniongyrchol, hunanasesu ac adolygu fel y dangosir gan y Fframwaith Gwella Perfformiad newydd;
- Mae cwmpas y rhaglen yn eang yn ddiau: ymgorffori'r system, cymorth ymgynghori, prosiectau cysylltiedig dan arweiniad ymgynghorwyr a hefyd prosiectau ychwanegol y talwyd amdanynt y tu allan i'r contract;
- Adlewyrchodd yr ymagwedd gaffael ar gyfer y system yr angen am ddatrysiad ar draws Cymru gyfan, a gwerth am arian o ran mwyafu 'pŵer prynu' model caffael ar y cyd a nodweddion system gaffael sy'n cadw costau i lawr i ddefnyddwyr yn ystod cyfnod y contract;

- Er bod ehangder a lefelau cyfranogiad yn y rhaglen wedi cynyddu, mae’r strwythurau llywodraethu a rheoli wedi’u symleiddio.

# 3 Rhaglen Ffynnon – safbwyntiau rhanddeiliaid ar ei defnydd

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dystiolaeth mewn perthynas â graddau a natur y system a'r cymorth ymgynghori, yn disgrifio materion yn ymwneud ag ymgysylltiad a gwreiddio'r rhaglen, ac yn cyflwyno safbwyntiau ar Ffynnon mewn perthynas â systemau eraill a ddefnyddir i gefnogi rheoli perfformiad. Mae'r adran yn cloi gyda safbwyntiau rhanddeiliaid ar reolaeth a llywodraethu Ffynnon. Caiff y dystiolaeth ei thynnu o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr, grwpiau ffocws, a'r e-arolwg o aelodau Rhwydwaith Gwella Cymru ynghyd ag adroddiadau blynyddol/cynnydd Coactiva.

## 3.1 Lefelau cyfranogiad presennol mewn Ffynnon

Oherwydd nad yw Ffynnon yn orfodol a bwriad Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid oedd y dylai rhanddeiliaid gymryd 'perchnogaeth' o'r rhaglen, a phennu eu lefelau cyfranogiad eu hunain, mae lefelau a math o'r defnydd a wneir o Ffynnon yn amrywio'n helaeth. Cyflwynir trosolwg o'r cyfranogiad, a graddau'r defnydd o'r system a'r cymorth ymgynghori isod[21]. Diffinnir categorïau defnyddio'r system fel:

- Helaeth: wedi'i gwreiddio'n eang ar draws y sefydliad gan ddefnyddio gwahanol alluedd, defnyddwyr lluosog ar draws adrannau/timau
- Cymedrol: defnydd mewn mannau, er enghraifft yn yr adran rheoli corfforaethol a rhai adrannau/timau, nid defnydd helaeth ar draws y sefydliad ehangach
- Cyfyngedig: defnydd ar gyfer ystod gymharol gul o dasgau'n unig, fel rhannu dogfennau a llwytho ambell set ddata
- Dim defnydd: nid yw'r system wedi disodli unrhyw systemau eraill

[21] Mae'r tabl yn darparu crynodeb o'r defnydd o ddwy elfen o Ffynnon. Am ddarlun manylach o natur a graddau'r defnydd ymysg sefydliadau unigol, dylid cyfeirio at Atodiad A.

## Trosolwg o gyfranogiad rhanddeiliaid mewn Ffynnon

| *Graddau'r defnydd* | System Ffynnon<br>*Nifer a chanran* | Cymorth ymgynghori<br>*Nifer a chanran* |
|---|---|---|
| Helaeth | 9 (24%) | 10 (26%) |
| Cymedrol | 13 (34%)<br>(y mae 5 ar gynnydd) | 12 (32%) |
| Cyfyngedig | 10 (26%)<br>(y mae 4 ar gynnydd) | 8 (21%) |
| Ddim yn ei defnyddio | 6 (16%) | 8 (21%) |
| Cyfanswm[22] | 38 | 38 |

Dylid nodi'r canlynol:

- Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru ei hun yn ddefnyddiwr helaeth o Ffynnon gan dynnu i lawr y cymorth ymgynghori a hefyd datblygu systemau i ateb ei hanghenion e.e. AdAS, Cynllunio, Tai;
- Dylid cydnabod bod yr ymgysylltiad cyntaf gyda'r rhaglen, gweithredu'r system, a defnydd parhaus o gymorth ymgynghori yn 'daith', a disgrifiwyd felly gan nifer o randdeiliaid. Rydym felly wedi adnabod naw sefydliad sy'n cymryd rhan ond sy'n bwriadu cynyddu eu defnydd o'r system. Er enghraifft, Ceredigion, y disgrifir ei ddefnydd fel cymedrol/ar gynnydd oherwydd bod y "system wedi'i gweithredu tua 12 mis yn ôl ac mae defnydd ohoni'n tyfu ar draws y Cyngor";
- Mae'r defnydd o gymorth ymgynghori'n dibynnu yn aml ar y camau a gymerwyd, gyda defnydd helaeth yn cael ei wneud cyn ac yn ystod gweithredu yn tyfu'r defnydd. Dyma'r achos i Geredigion, Sir Benfro, Pennaf ac Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru, er enghraifft.

Ymhlith y pwyntiau allweddol i'w nodi o'r trosolwg a'r tabl cyfranogiad manwl yn Atodiad A mae'r canlynol:

[22] Ni chyfwelwyd â dau randdeiliad oherwydd nad oedd ymdrechion i ymgysylltu â nhw yn llwyddiannus (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu De Cymru). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys fel rhanddeiliad oherwydd bod ei defnydd yn sylfaenol wahanol i'r rhanddeiliaid lleol a'r rhanddeiliaid cenedlaethol eraill.

- Mae lefelau defnydd ymysg rhanddeiliaid yn gymharol uchel, gyda 22 (58 y cant) yn defnyddio system Ffynnon yn helaeth neu ar lefel gymedrol, a’r un gyfran, 22 (58 y cant), yn defnyddio’r cymorth ymgynghori yn helaeth neu’n gymedrol;
- Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol (32 y cant) naill ai nad ydynt yn defnyddio’r system neu gwnânt ddefnydd cyfyngedig ohoni heb fwriad i gynyddu eu defnydd;
- Mae’r 10 y cant sy’n weddill yn gwneud defnydd cyfyngedig o’r system ar hyn o bryd ond yn bwriadu cynyddu eu cyfranogiad;
- Ni chaiff defnydd o’r system a defnydd o’r cymorth ymgynghori eu cyrchu ar yr un pryd bob amser. Er enghraifft, er nad yw’n ddefnyddiwr helaeth o’r system, mae un rhanddeiliad wedi manteisio i raddau sylweddol ar y cymorth ymgynghori.

### 3.2 Sut caiff Ffynnon ei defnyddio gan randdeiliaid?

Fel y dangosir yn Adran 2, mae rhaglen Ffynnon wedi datblygu ac esblygu’n sylweddol o ran ei chwmpas a’i gorchwyl ers lansio’r system yn wreiddiol yn 2007. Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau hyn, mae uchelgeisiau’r rhaglen wedi aros yn ddigyfnewid, gan gynnig “teclyn a fyddai’n caniatáu i awdurdodau lleol a defnyddwyr eraill i goladu a rhannu gwybodaeth am risgiau, prosiectau, arfer gorau a dangosyddion perfformiad. Byddai hyn yn galluogi cydweithio ac yn hwyluso’r ymgyrch i wella’n barhaus”.[23]

Mae rôl rhaglen Ffynnon wrth gefnogi gweithgareddau **rheoli perfformiad** rhanddeiliaid yn cwmpasu sbectrwm o ddefnydd mewn perthynas ag i ba raddau mae rhanddeiliaid wedi integreiddio’r system a’r cymorth, gan rychwantu:

- Ffynnon yn sail i’r ymagwedd gorfforaethol at reoli a gwella yn ei chyfanrwydd: mewn rhai achosion, mae Ffynnon yn cefnogi’r cysyniad o ‘edau euraidd’ o rannu blaenoriaethau strategol a defnydd cyffredin o ddangosyddion sy’n rhedeg drwy’r holl weithgarwch corfforaethol a

[23] Gwerthusiad o Fanyleb Prosiect Ymchwil Ffynnon, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011

busnes. Mae un awdurdod lleol (Bro Morgannwg) wedi defnyddio Ffynnon fel ffordd o goladu'r holl ddata o fewn ei fframwaith rheoli perfformiad. Mae'r Cynllun Cymunedol a chynlluniau cyflwyno gwasanaethau unigol, ynghyd â'r cynllunio strategol tymor hwy a'r cynlluniau gwella sefydliadol a'r dangosyddion perfformiad oll wedi'u gwreiddio o fewn Ffynnon i alluogi monitro ac adrodd;

- Rhanddeiliaid yn defnyddio Ffynnon mewn ffordd fwy detholgar, i gefnogi agweddau arbennig ar eu gwaith rheoli perfformiad. Er enghraifft, ym Mhowys, lle defnyddir y system i gasglu data a darparu gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor craffu a'r bwrdd a chyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, nid yw rhai defnyddwyr o'r farn bod "galluedd cyfan y system fel teclyn ar gyfer dadansoddi'n cael ei ddefnyddio gan y gwahanol dimau";
- Rhai rhanddeiliaid yn gwneud defnydd minimol o Ffynnon i gefnogi eu gwaith rheoli perfformiad. Mae'r rhain yn cynnwys rhanddeiliaid sy'n defnyddio Ffynnon ochr yn ochr â systemau eraill (naill ai wedi'u prynu neu wedi'u datblygu'n fewnol) i gefnogi gwaith rheoli perfformiad. Un enghraifft o hyn yw Sir Gaerfyrddin a oedd yn defnyddio Corvu'n flaenorol, cyn cael ei system fewnol ei hun wedi'i datblygu. Maent bellach yn defnyddio Ffynnon ochr yn ochr â'u system eu hunain; mae cyswllt o'u System Gwybodaeth Rheoli Prosiectau (PMIS) yn llwytho data i Ffynnon.

Dylid cofio bod nodweddion allweddol fel maint sefydliad yn gallu effeithio ar raddau defnyddio'r system mewn sefydliadau cenedlaethol. Dyma pam fod pocedi o ddefnydd o Ffynnon o fewn gwahanol Adrannau yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r ffyrdd y mae rhanddeiliaid yn defnyddio system Ffynnon, gan ddethol galluedd a theilwra system i ateb eu hanghenion, yn disgyn yn gyffredinol i'r categorïau canlynol:

- Monitro perfformiad a chefnogi rheoli rhaglenni;
- Meincnodi, cymharu a rhannu data;

- Trosglwyddo data;
- Trosglwyddo dogfennau.

Y tu hwnt i'r defnyddiau hyn, yn ystod yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid archwiliwyd i ba raddau mae Ffynnon yn cael ei defnyddio fel teclyn i gefnogi cydweithio. Disgrifir y defnyddiau hyn isod.

### 3.2.1 Ffynnon yn cefnogi rheoli perfformiad a rheoli rhaglenni

Ar gyfer y rhanddeiliaid hynny sy'n gwneud defnydd cymedrol neu helaeth o'r system, mae Ffynnon wedi newid dulliau casglu a choladu data i gefnogi eu gwaith monitro perfformiad. Mae Parc Cenedlaethol Eryri'n defnyddio Ffynnon i "fonitro perfformiad yn erbyn targedau'r Llywodraeth", mae Merthyr Tudful yn defnyddio'r system i gefnogi adrodd; "caiff data ei lwytho drwy daenlenni a defnyddir dangosfyrddau fel adroddiadau gweledol". Mae Blaenau Gwent wedi ymgorffori ei Gynllun Gwella i Ffynnon, ac mae'r system yn cefnogi monitro perfformiad, yn arbennig, "mae sylwebaeth a data tueddiadau wedi gwella'n dull o asesu perfformiad".

Mae Bro Morgannwg wedi cynnwys codi cynnydd adrodd data drwy bortholion sy'n hygyrch i gynghorwyr ac aelodau'r Byrddau Partneriaeth Lleol. Mae defnydd o'r e-ffurflenni hefyd yn cefnogi adolygu cynnydd, er enghraifft yn Sir Benfro ac Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae Ceredigion yn defnyddio'r system i asesu cynnydd yn erbyn dangosyddion a chynlluniau lefel genedlaethol i gyflwyno dadansoddiadau lefel leol ochr yn ochr â hyn. Yn achos Abertawe, mae'r ymagwedd yn llai strwythuredig ei natur, am fod rhai adrannau'n defnyddio Ffynnon fel teclyn dadansoddiadol i fonitro cynnydd, ond ni wneir hyn ar lefel gorfforaethol.

Rhan allweddol o reoli perfformiad i lawer o randdeiliaid yw cynhyrchu adroddiadau cynnydd blynyddol, chwarterol ac mewn rhai achosion misol. Mae llawer o enghreifftiau ymysg rhanddeiliaid o'r ffordd y caiff system Ffynnon ei defnyddio i ateb galwadau monitro perfformiad rheolaidd. Er enghraifft, yng Nghaerffili, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Wrecsam, mae'r system wrth wraidd eu prosesau data. Mae Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) yn defnyddio dangosfyrddau ar gyfer

adolygu cynnydd a nodi meysydd problematig. Adroddodd SWTRA hefyd fod data tueddiadau a’r asesiad RAG (Coch, Oren, Gwyrdd) ar gyfer dangosyddion perfformiad yn cyfrannu at weithgarwch monitro misol ac adrodd chwarterol.

O ran rheoli rhaglenni, caiff system Ffynnon ei defnyddio gan sawl rhanddeiliad a rhai adrannau mewn cynghorau. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ei defnyddio i reoli ei raglen ‘Cyrraedd y Nod’ a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sy’n cynnwys 42 o brosiectau. Mae Ynys Môn wedi’i defnyddio i fonitro rhaglen gwella safon tai’r cyngor a’r cymdeithasau tai. Mae Ffynnon yn darparu’r fframwaith monitro ar gyfer prosiectau, gan ganiatáu i ddata gael ei dynnu at ddibenion adrodd mewnol.

Ochr yn ochr â’r enghreifftiau hyn lle mae’r system yn cefnogi rhanddeiliaid i fonitro perfformiad, dylid nodi bod gan fwy na hanner y rhanddeiliaid farn negyddol am y swyddogaeth adrodd[24] gan gynnwys sylwadau nad oedd yn berffaith neu’n annigonol gyda rhai’n tynnu data o’r system i daenlen Excel er mwyn cyflawni gwaith adrodd. Yn gyffredinol, y farn oedd nad yw Ffynnon yn cynnig lefel adrodd ddigonol, ac y byddai rhanddeiliaid yn hoffi gweld “allbwn adrodd mwy soffistigedig” ar gyfer y system. Mae’r mater hefyd wedi’i godi drwy rwydwaith RhGC a Grwpiau Defnyddwyr.

3.2.2 System Ffynnon yn cefnogi meincnodi, cymharu a rhannu data

Ceisiai system Ffynnon hwyluso rhannu gwybodaeth o fewn ffiniau sefydliadol ac ar eu traws. Dywedodd pedwar sefydliad ar ddeg eu bod yn defnyddio gallu’r system i rannu data.

Yn yr achosion lle defnyddiwyd y system i hwyluso rhannu data, roedd hyn i raddau helaeth i alluogi gweithio mewn partneriaeth ac i rannu gwybodaeth â sefydliadau tebyg neu gyda phartneriaid allanol ac aelodau etholedig. Er enghraifft, mae tri Awdurdod y Parciau Cenedlaethol yn rhannu data gyda’i gilydd, ar gyllid, Adnoddau Dynol, allyriadau carbon

[24] Mae Coactiva yn ymwybodol o’r materion adrodd, ac mae’n adolygu ac yn diweddaru’r rhan hon o’r system ar hyn o bryd.

deuocsid a chynllunio, a hynny'n bennaf at ddibenion meincnodi. Mae enghreifftiau pellach yn cynnwys Tor-faen sy'n defnyddio'r galluedd meincnodi yn eu hadroddiadau i aelodau; Caerdydd sy'n defnyddio'r system i rannu gwybodaeth partneriaethau ar gyfer y Strategaeth Beth sy'n Bwysig sy'n cynnwys y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynllun Gweithredu Diogelwch Cymunedol; a Sir Benfro sy'n rhannu data i gefnogi cydweithio gyda darparwyr gwasanaethau lleol eraill (fel Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Gwirfoddol a Chymunedol), ac sy'n caniatáu iddynt weld eu data a hefyd mewngofnodi data ar y mesurau perfformiad maent yn gyfrifol amdanynt.

Ar lefel genedlaethol, mae'r set data ysgolion, sy'n cynnwys data ar gyfer pob un o'r 1,833 o ysgolion yng Nghymru, yn galluogi gweithgarwch meincnodi ar draws ardaloedd awdurdodau lleol ac yn erbyn data Cymru gyfan. Mae'r system sy'n cynnwys y data ysgolion a'r system sy'n cael ei datblygu i lwyfannu setiau data darparwyr addysg ôl-16, yn caniatáu i gymaryddion cenedlaethol gael eu defnyddio ac i feincnodi cynhwysfawr o'r boblogaeth rhanddeiliaid gael ei gynnal. Mae hyn yn rhan annatod o brosesau data AdAS, gan ganiatáu tynnu cymariaethau ar lefelau ysgol ac awdurdodau lleol yn arbennig.
Hefyd, mae'r prosiect Budd-dal Tai rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Gwasanaethau Budd-dal Tai Awdurdodau Lleol yn defnyddio Ffynnon i ddarparu fframwaith perfformiad Budd-dal Tai cyson ar gyfer y 17 awdurdod lleol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r system yn tynnu data'n awtomatig o'u ffeiliau tynnu budd-dal Tai ac yn poblogi'r gyfres o ddangosfyrddau yn system Ffynnon. Mae AGGCC wedi gwneud rhywbeth tebyg i wella meincnodi gofal cymdeithasol a gwybodaeth perfformiad gan weithio gyda chwe awdurdod lleol.

Nododd un awdurdod lleol er ei fod yn rhoi mynediad i sefydliadau eraill i'w ddata yn Ffynnon, roedd hyn yn bennaf i alluogi awdurdodau lleol eraill a Swyddfa Archwilio Cymru i weld y ffordd câi data ei gipio a'i gyflwyno yn hytrach nag ar gyfer meincnodi perfformiad.

### 3.2.3 Ffynnon yn cefnogi trosglwyddo data

Mewn rhai awdurdodau lleol, fel Bro Morgannwg, roedd system Ffynnon yn cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) yn uniongyrchol, drwy alluogi trosglwyddo data, a chaniatáu i'r dull casglu data gael ei deilwra i'r fframwaith a ddatblygwyd ar gyfer pob un o'r pum partneriaeth allweddol o fewn y BGLl. Mae'r prosiect Budd-daliadau Tai y sonnir amdano uchod hefyd yn enghraifft dda o drosglwyddo data gyda chefnogaeth Ffynnon: am fod y system yn tynnu data allweddol yn awtomatig ac yn ei lwytho i fframwaith perfformiad cyffredin wedi'i deilwra. Mae tynnu data awtomataidd hefyd yn nodwedd o ddefnydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o'r system, sy'n cael ei diweddaru'n awtomatig bob nos. Mae'r wybodaeth, er enghraifft ar weithgarwch hyfforddi a wneir ym mhob gorsaf neu weithgaredd diogelwch cymunedol a gwblheir, wedyn yn cael ei llwytho. Dyma'r achos hefyd gyda Heddlu De Cymru: sefydlwyd cyflenwad data diogel rhwng cronfa ddata SAS Heddlu De Cymru a system Ffynnon, sy'n galluogi i ddata troseddau dyddiol gael ei lwytho'n awtomatig bob nos. Mae cyfres o ddangosfyrddau graffigol wedi'i chreu sy'n cael ei phoblogi'n awtomatig gyda'r data troseddau dyddiol.

Mae rhai sefydliadau'n defnyddio Ffynnon at ddibenion archwilio; rhannu data gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) drwy ddarparu mynediad i archwilwyr i'w systemau data neu gyflwyno data drwy e-ffurflenni. Yn yr achosion hyn, mae'r awdurdodau a SAC wedi nodi bod hyn yn gwneud y broses archwilio lawer yn gyflymach a haws. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir i bawb. Dywedodd un rhanddeiliad er ei bod wedi'i hyrwyddo fel ffordd o adrodd data i SAC ac AGGCC, roedd y sefydliadau hyn wedi gofyn i ddata gael ei adrodd drwy e-bost.

### 3.2.4 Ffynnon yn cefnogi trosglwyddo dogfennau

Ynghyd â throsglwyddo data, mae system Ffynnon hefyd yn cael ei defnyddio i alluogi i ddefnyddwyr lluosog gyrchu dogfennau. I nifer bach o ddefnyddwyr dyma oedd un o'r prif ffyrdd roeddent yn defnyddio'r system.

Er enghraifft, Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n defnyddio Ffynnon i rannu papurau i gefnogi ystod o weithgareddau gan gynnwys papurau i gefnogi cyfarfodydd Bwrdd (wyth gwaith y flwyddyn), ynghyd â chyfarfodydd archwilio (pum gwaith y flwyddyn) a chymwysiadau Cymru Greadigol (sawl rownd y flwyddyn gyda chamau rhestr fer) gan ymgynghorwyr sydd wedi'u lleoli ar draws Cymru.

Er nad yw AGGCC yn defnyddio Ffynnon fel system i goladu data, mae yn defnyddio'r system "fel llyfrgell a ffordd o chwilio drwy ddangosfyrddau". Caiff y system ei hystyried yn "rhywle strwythuredig i storio gwybodaeth". Mae SWTRA hefyd yn defnyddio'r llyfrgell ddogfennau, ac wedi datblygu system reoli integredig oddi mewn iddi i ddal tystiolaeth am weithgarwch ac adroddiadau ISO9000. Eto, i gefnogi gweithgarwch archwilio, mae rhai enghreifftiau o randdeiliaid sy'n rhannu dogfennau gyda SAC drwy'r system, gan alluogi darparu dogfennau strategol a chynllunio allweddol cyn archwilio.

### 3.2.5 Ffynnon yn cefnogi cydweithio

Mae llawer o randdeiliaid lleol a chenedlaethol wedi defnyddio Ffynnon i gyfranogi mewn cydweithio er mai wyth awdurdod lleol yn unig a nododd eu hymgysylltiad mewn prosiectau o'r fath. Roedd peth ansicrwydd ynghylch a oeddent yn rhan o weithgarwch prosiectau, o bosibl oherwydd bod prosiectau'n ymgysylltu ag aelodau eraill o staff yn eu sefydliadau. Fodd bynnag, lle nododd rhanddeiliaid gydweithio, roedd y prosiectau'n amrywio o waith ar y cyd ar briffyrdd rhwng Sir Ddinbych a Chonwy; llawer o awdurdodau lleol yn rhan o brosiect Budd-daliadau Tai; ac amrywiol brosiectau'n ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Chynllunio gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Roedd manylion am y prosiectau'n gymharol dameidiog am nad oedd y defnydd o Ffynnon o reidrwydd yn cael ei rannu'n helaeth rhwng meysydd gwasanaeth a'r ganolfan gorfforaethol lle nad oedd y defnydd o reidrwydd yn cael ei gydlynu neu ei hyrwyddo y tu hwnt i weithgarwch rheoli perfformiad.

Er bod enghreifftiau bod Ffynnon yn cefnogi cydweithio, mae'r defnydd o Ffynnon at ddibenion cydweithio rhwng partneriaeth yn waith ar y gweill i

raddau helaeth. Fodd bynnag, nododd rhai sefydliadau, eu bod yn disgwyl y bydd Ffynnon yn cael ei defnyddio i ddarparu amgylchedd o gydweithio yn y dyfodol i fonitro gweithgarwch partneriaethau. Dyma sy'n wir yn achos y gwasanaethau a rennir rhwng Conwy a Sir Ddinbych (Cynllunio, Trwyddedu a Phriffyrdd (er bod y system yn cael ei thargedu'n fwy ar hyn o bryd at rannu dangosyddion perfformiad na rhannu'r camau gweithredu a'r risgiau sy'n ofynnol gan y gwahanol feysydd gwasanaeth.

Er gwaethaf y gweithgareddau cydweithio sy'n digwydd, roedd mwy na thraean o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd y potensial ar gyfer cydweithio wedi'i wireddu. Codwyd y pwynt hwn hefyd yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws, gyda chyfranogwyr yn mynegi barn bod yr agwedd ar y rhaglen sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth yn "gyfle coll".

### 3.2.6 Cymorth ymgynghori a hyfforddiant Coactiva

*Lefel defnydd y cymorth ymgynghori*

Roedd bron i naw allan o ddeg o'r rhanddeiliaid wedi cael profiad o ryw fath o gymorth ymgynghori ar Ffynnon gan Coactiva[25]. Yn fwy penodol, roedd tri chwarter o'r rhanddeiliaid (74 y cant) wedi cael hyfforddiant cychwynnol ar system Ffynnon ac roedd 59 y cant wedi derbyn hyfforddiant mwy penodol, wedi'i deilwra. Roedd dros hanner y sefydliadau (54 y cant) wedi derbyn cefnogaeth mewn perthynas ag agwedd arbennig ar reoli perfformiad, a hyfforddiant Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (ASC) oedd hyn yn bennaf.

I ddwy ran o dair o'r ymatebwyr a oedd wedi cyrchu cymorth ymgynghori, roedd y mwyafrif wedi derbyn hyfforddiant ar y system i staff gefnogi ei gweithredu (85 y cant). Roedd tua thri o bob pump wedi derbyn cefnogaeth rheoli perfformiad benodol fel cymorth ymgynghori ASC (62 y cant) a gweithdai mapio prosesau SPRINT (46 y cant).

I'r sefydliadau hynny nad oeddent wedi ymgysylltu â'r cymorth ymgynghori, y prif reswm dros hyn oedd bod eu hanghenion cefnogaeth yn cael eu diwallu gan adnoddau eraill. Er enghraifft, roedd un sefydliad

[25] Roedd rhai rhanddeiliaid nad ydynt yn defnyddio'r system ar hyn o bryd wedi cael hyfforddiant cychwynnol fel rhagarweiniad

wedi derbyn hyfforddiant ASC drwy SAC, tra bod un arall yn defnyddio prosesau a rhwydweithiau ar y we. Yn yr un modd, roedd un rhanddeiliad wedi cyrchu hyfforddiant ASC drwy Weithredu dros Blant, tra bod un arall wedi cael hyfforddiant rheoli perfformiad drwy'r Uned Ddata. Roedd Uned Cefnogi Partneriaethau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ffynhonnell cefnogaeth arall ar ymagweddau wedi'u seilio ar ddeilliannau. Mewn rhai achosion, roedd y gefnogaeth hon wedi'i chyrchu ar y cyd â chymorth ymgynghori Coactiva, ond i eraill, roedd hynny yn hytrach na chymorth ymgynghori Coactiva.

Roedd un sefydliad wedi ceisio cael cymorth ymgynghori ond teimlid ei fod wedi'i dargedu tuag at weithredu meddalwedd Ffynnon yn hytrach nag ymgynghori ehangach ym maes rheoli perfformiad. Credwyd yn yr awdurdod hwn mai cyfyng fyddai gwerth y system heb ddealltwriaeth sylfaenol o reoli perfformiad ar ystyr ehangach. Nid oedd un sefydliad yn ymwybodol ei bod yn bosibl cyrchu cymorth ymgynghori heb fod yn gysylltiedig â system Ffynnon.

*Ffurf y gefnogaeth*

Mae'r galw am gymorth ymgynghori yn digwydd i raddau helaeth ar ddechrau ymgysylltiad â rhaglen Ffynnon ar gyfer hyfforddiant cychwynnol o amgylch integreiddio'r system. Wedi hynny, daw ceisiadau i Coactiva ddatblygu agweddau pellach ar systemau rheoli perfformiad y sefydliad;  naill ai'n gysylltiedig â phrosesau rheoli perfformiad mewnol neu ddatblygu system Ffynnon ei hun i gydweddu i'r sefydliad.

Mae'r dull o gyflwyno hyfforddiant cychwynnol yn dibynnu ar y sefydliad; cafodd y rhan fwyaf o sefydliadau hyfforddiant cychwynnol ar y system gan gynnwys sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr gan alluogi lledaenu gwybodaeth a sgiliau ar draws sefydliadau fel oedd yn briodol. Galluogodd hyn i un sefydliad redeg hyfforddiant i 300 o aelodau o staff gyda chwech i ddeg aelod o staff yn mynychu pob sesiwn.

Ar y cyfan roedd y sefydliadau'n fodlon ar yr hyfforddiant cychwynnol a dderbyniwyd; fodd bynnag, soniodd un fod yr hyfforddiant yn cynnwys ystod eang o aelodau tîm; o'r sawl fyddai'n mewngofnodi data i'r

arweinwyr strategol ar gyfer meysydd gwasanaeth. Felly, roedd uwch aelodau'r tîm yn dysgu am dechnegau na fyddai llawer neu ddim galw iddynt eu defnyddio a dywedwyd bod hyn yn ddefnydd gwael o amser y sefydliad. I wella addasrwydd yr hyfforddiant i'r mynychwyr awgrymwyd y gellid rhannu sesiynau hyfforddi rhwng defnyddwyr strategol Ffynnon a'r rheiny a oedd yn ymwneud â gofynion mwy gweithredol neu alluedd y system.

Yn yr achosion lle roedd cymorth wedi'i deilwra'n fwy wedi'i dderbyn, drwy hyfforddiant ASC neu weithdai SPRINT ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol oedd hyn, gan gynnwys Cynllunio, Digartrefedd neu Wasanaethau Corfforaethol. Nododd un awdurdod eu bod wedi penderfynu defnyddio amser y cymorth ymgynghori i helpu symleiddio prosesau yn eu hadrannau Cynllunio a Thai; roedd Coactiva wedi helpu i fapio'r prosesau a oedd yn mynd rhagddynt i weld meysydd lle gellid dod o hyd i arbedion. Teimlwyd bod mapio prosesau mewn sefydliadau eraill hefyd yn ddefnydd gwerthfawr o amser y cymorth ymgynghori. Roedd pymtheg o'r sefydliadau y cyfwelwyd â nhw wedi derbyn cefnogaeth ASC gan Coactiva. Roedd hyn i raddau helaeth drwy gwrs hyfforddi dau ddiwrnod a gafodd ei gyflwyno a'i deilwra mewn modd a oedd yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad gyda rhai sefydliadau'n derbyn cyrsiau Hyfforddi'r Hyfforddwr ASC.

*Barn am y gefnogaeth a dderbyniwyd*

Ar y cyfan roedd y sefydliadau'n gadarnhaol am y gefnogaeth roeddent wedi'i derbyn gan Coactiva. Nodwyd bod y cyfle i dderbyn cefnogaeth sy'n "cwmpasu'r ystod gyfan" yn arbennig o fanteisiol am ei bod yn darparu ymagwedd strategol at weithredu drwy gael hyfforddiant ar y cychwyn a chefnogaeth ar y diwedd, gan alluogi dealltwriaeth o'r ymagwedd gyfan at reoli perfformiad. Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod y cymorth ymgynghori wedi'i dargedu at weithredu'r system ond ei fod yn llai defnyddiol o ran darparu arbenigedd ar reoli perfformiad yn fwy cyffredinol.

Nododd sefydliadau mai cefnogaeth a hyfforddiant hyblyg wedi'u teilwra oedd un o'r prif fanteision o ymgysylltu â'r cymorth ymgynghori. Cafodd sesiynau hyfforddi eu targedu at y sefydliad neu'r maes gwasanaeth, yn ôl yr angen. Atgyfnerthwyd yr wybodaeth hon o strwythur y sefydliad gan wybodaeth fwy cyffredinol, ddaearyddol ymgynghorwyr Coactiva o ardaloedd awdurdodau lleol a Chymru'n fwy cyffredinol, gan roi mwy o sylwedd i'r cymorth a roddwyd. Un rhanddeiliad yn unig a nododd y gellid gwella drwy egluro'n well yr hyn roedd yr hyfforddiant yn ei gynnwys, er mwyn sicrhau bod y sawl oedd yn mynychu yn y swydd gywir i gael y fantais fwyaf.

Roedd tua thraean o'r sefydliadau o'r farn bod yr hyfforddiant a gawsant yn dda, ond nid oeddent wedi bod mewn sefyllfa eto i'w roi ar waith. Yn yr un modd, nodwyd bod un sesiwn hyfforddi a fynychwyd wedi defnyddio fersiwn o Ffynnon nad oedd wedi'i lansio eto. Pan ddaeth y sefydliad i weithredu'r hyfforddiant ar y system newydd, roeddent wedi anghofio'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddysgwyd.

## 3.3 Ymgysylltiad cychwynnol â Ffynnon

*Ymwybyddiaeth gychwynnol o'r rhaglen*

O ran ymgysylltiad cychwynnol, cyflwynwyd mwyafrif y rhanddeiliaid lleol i Ffynnon yn ystod y cam caffael a chwmpasu cychwynnol. Ar yr adeg hon, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid naill ai wedi derbyn cysylltiad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, wedi mynychu cyfarfod RhGC neu wedi mynychu cyflwyniad gan UDdC.

Dros amser, ymunwyd â'r grŵp gwreiddiol o 30 rhanddeiliad[26], gan 11 rhanddeiliad pellach[27]. Roedd sefydliadau'r ail gam wedi'u hysbysu am y rhaglen yn bennaf drwy gysylltiadau mewn awdurdodau lleol yn argymell

[26] Ymhlith y "rhanddeiliaid gwreiddiol" roedd y 22 Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a Gogledd Cymru, Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro, Bannau Brycheiniog ac Eryri, Uned Ddata Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

[27] Ymysg y rhanddeiliaid pellach roedd Set Ddata Graidd Cymru Gyfan (cronfa ddata genedlaethol y disgyblion gynt); Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Cymdeithas Tai Clwyd; Estyn; Grŵp Tai Pennaf; Heddlu De Cymru; Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Cyngor Gofal Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

y rhaglen neu drwy ymuno â sefydliad lleol i rannu gweithgaredd er bod o leiaf un sefydliad wedi derbyn cysylltiad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn gweithgarwch peilot. Am mai dyma oedd y cam rhanddeiliaid cyntaf, cynhaliwyd yr ymgysylltiad â Ffynnon yn uniongyrchol drwy Coactiva. I Adrannau unigol o Lywodraeth Cymru, daeth dau yn ymwybodol o Ffynnon drwy siarad â'u cydweithwyr, gydag un arall yn cymryd camau i ddilyn i fyny ar argymhelliad a welwyd mewn adroddiad allanol[28].

*Rhesymau dros gyfranogi yn Rhaglen Ffynnon*

Gofynnwyd i randdeiliaid ystyried beth oedd wedi'u sbarduno i gyfranogi yn y rhaglen. Roedd y mwyafrif wedi'u denu i raglen Ffynnon oherwydd ei fod yn adnodd am ddim (80 y cant o'r rhanddeiliaid) ac oherwydd ei fod yn system ar draws Cymru a allai gefnogi rhannu data a chydweithio (71 y cant). Gwelwyd bod y gallu i rannu data ar draws Cymru yn ffordd o symleiddio prosesau adrodd gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhannu a chymharu gwybodaeth ar draws ffiniau. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid wedi disgwyl y byddai'n arwain at ddull unffurf o goladu data ar draws awdurdodau lleol, nad oedd wedi digwydd o reidrwydd.

Gwelwyd bod y cymorth ymgynghori yn sbardun llai pwysig i gyfranogi, fodd bynnag, nododd 40 y cant o'r rhanddeiliaid o hyd ei fod yn ffactor a gyfrannodd at eu penderfyniad i ymgysylltu â'r rhaglen. Dewisodd sefydliadau ymgysylltu â Ffynnon hefyd oherwydd hyblygrwydd y system; y gallu i deilwra'r system at angen y sefydliad; y system yn cael ei hargymell gan sefydliadau eraill; a'r ffaith bod y system ar y we ac felly y gellid cael mynediad iddi o unrhyw leoliad.

Roedd y farn am y rhaglen yn gymysg i ddechrau ond roedd consensws cyffredinol eu bod yn disgwyl cael cynnyrch a oedd wedi'i ddatblygu'n fwy na'r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol. Roedd rhai sefydliadau o'r farn bod y system yn cael ei hyrwyddo fel teclyn rheoli perfformiad parod a'r "*ateb i'n gweddi"* ond mewn gwirionedd roedd yn waith ar y gweill gyda nifer o fygiau a phroblemau cynnar nad oeddent wedi'u goresgyn. Disgrifiodd un

[28] Yr adolygiad allanol o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion oedd hyn

sefydliad fod golwg “*wan a thrafferthus”* ar y system. Roedd cyflymder y system hefyd yn anhawster i ddefnyddwyr. At hynny, roedd cam datblygu’r system ar adeg ei lansio yn golygu nad oedd yn gallu diwallu disgwyliadau rhanddeiliaid. Goresgynnwyd y problemau cychwynnol hyn gyda’r system drwy ddatblygiadau a gwelliannau iddi dros amser, ond roedd llawer o’r farn y dylai hyn oll fod wedi digwydd cyn cyflwyno’r system yn y lle cyntaf.

I rai sefydliadau, roedd argraffiadau negyddol cychwynnol o Ffynnon yn ddigon i’w hatal rhag ymgysylltu â’r system o gwbl, fodd bynnag i eraill, arweiniodd y diweddariadau a’r gwelliannau a wnaed, gan gynnwys cyflwyno Data Ysgolion, at ail-werthuso’r system a phenderfynu cyfranogi.

Er bod y rhan fwyaf o’r rhanddeiliaid yn ymwybodol o’r rhaglen ers ei dechrau, ac wedi bod yn gysylltiedig i ryw raddau, fel trwy fynychu cyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr, mae nifer y rhanddeiliaid sydd wedi bod yn gwbl ymgysylltiedig o’r cychwyn yn fach. Mae awdurdodau lleol fel Bro Morgannwg a Sir Benfro wedi gwneud defnydd llawn o’r cymorth ymgynghori, ac wedi gwreiddio’r system ar draws eu sefydliadau. Yn y ddau achos, gwnaed penderfyniad amlwg i ymafael yn Ffynnon, a daeth y rhaglen yn elfen annatod o gefnogi rheoli perfformiad ar lefel gorfforaethol.

Fodd bynnag, i fwyafrif y rhanddeiliaid, mae eu cyfranogiad yn Ffynnon wedi digwydd yn fwy graddol. Roedd rhai sefydliadau’n fodlon ‘cadw llygad’ ar y rhaglen i weld sut byddai’n datblygu, gan ohirio ymgysylltu hyd nes eu bod mewn sefyllfa well i ddefnyddio’r system a’r cymorth neu hyd nes bod y system mewn sefyllfa well i ateb eu gofynion rheoli perfformiad. Yn sgîl yr ymagwedd hon, galluogwyd nhw i ‘ddysgu o gamgymeriadau’ y garfan defnyddwyr gyntaf, a manteisio ar eu profiadau.

Mae eithaf tipyn o randdeiliaid wedi dewis ymgysylltu â Ffynnon yn y 12 i 18 mis diwethaf. Mae’r rhesymau dros hyn yn amrywio, gan gynnwys yr angen i aros i drefniadau contractau gyda darparwyr systemau rheoli perfformiad eraill ddod i ben, newidiadau yn eu strwythur rheoli mewnol neu bersonél sydd wedi darparu cyfle a gallu, a chred bod y system wedi

datblygu'n gynnyrch sy'n ateb eu gofynion yn well. Er enghraifft, er bod Sir Fynwy ac Ynys Môn yn rhan o'r cam cwmpasu ac wedi gweld cyflwyniad o'r systemau arddangos yn 2006, dim ond 12 mis yn ôl y gwelwyd y system yn dechrau cael ei defnyddio gan yr awdurdodau ar gyfer eu gwaith rheoli perfformiad a'u Cytundebau Deilliannau. Mewn achosion eraill, fel Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gwnaed y penderfyniad i barhau â'u system bresennol, hyd nes i gyfnod y contract ar gyfer eu cymorth meddalwedd presennol (Corvu yn yr achos hwn) ddod i ben, a'u bod yn teimlo bod system Ffynnon wedi datblygu i'r pwynt fel y byddai'n ateb eu gofynion sefydliadol ac yn cynnig y galluedd roedd ei angen arnynt.

*Penderfynu peidio â chyfranogi yn y rhaglen*

Mae rhai rhanddeiliaid wedi penderfynu peidio ag ymgysylltu â'r system, yn arbennig ar gyfer rheoli perfformiad, oherwydd bod ganddynt systemau yn eu lle eisoes (naill ai wedi'u prynu i mewn, neu wedi'u datblygu'n fewnol) neu oherwydd eu bod o'r farn nad oedd y system a'r cymorth yn cyflawni eu gofynion. *"Nid yw Ffynnon yn cynnig dim y tu hwnt i'r hyn sydd gennym yn barod"*. *"Mae ein systemau'n gwneud yr hyn rydym am iddynt ei wneud"*. Dylid nodi hefyd bod llawer o amser ac ymdrech eisoes wedi'u buddsoddi yn eu trefniadau presennol i lawer i'r rhanddeiliaid hyn, ac felly deellir bod rhywfaint o amharodrwydd i symud. I chwe rhanddeiliad lleol, maent yn fodlon ar eu trefniadau presennol ac nid ydynt am gyfranogi'n llawnach yn rhaglen Ffynnon.

Roedd ychydig dros hanner y rhanddeiliaid wedi cael profiad blaenorol o systemau rheoli perfformiad cyn dod i gysylltiad â Ffynnon. Mae ychydig o dan draean yn dal i ddefnyddio system ochr yn ochr â Ffynnon. Ymhlith y systemau a ddefnyddir mewn sefydliadau roedd: Corvu; Performance Accelerator; systemau mewnol ar sail Excel; Microsoft Sharepoint; PBViews; Covalent; System Wybodaeth Caerdydd; SWIFT; ac Aggressor.

I raddau helaeth, mae'r rheiny sy'n defnyddio systemau rheoli perfformiad ochr yn ochr â Ffynnon yn gwneud hynny ar sail maes gwasanaeth, er enghraifft defnyddio systemau SWIFT yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Cadarnhaodd rhai hefyd eu bod yn dal i ddefnyddio systemau a ddatblygwyd yn fewnol ar sail Excel neu system Gwybodaeth Rheoli Prosiectau ochr yn ochr â Ffynnon.

Pan ofynnwyd iddynt gymharu Ffynnon â systemau rheoli perfformiad blaenorol neu bresennol, roedd sefydliadau'n gadarnhaol ar y cyfan am Ffynnon. I rai, roedd symud i system Ffynnon wedi arwain eu sefydliad i sylweddoli bod eu system rheoli perfformiad flaenorol yn wael. Ystyriwyd bod gan Ffynnon well galluedd a gallu oherwydd ei bod yn cynnwys rheoli perfformiad, rheoli prosiectau, camau gweithredu a risgiau mewn un system, gan ddarparu "*mwy o fanylion a dyfnder". "Mae Ffynnon wedi rhoi mwy o hyder i ni yn y data"*.

Ystyriwyd y ffaith bod gwahanol elfennau o reoli perfformiad yn cael eu cysylltu yn arbennig o ddefnyddiol a oedd yn declyn defnyddiol yn weledol hefyd, ar ôl eu troi'n ddangosfyrddau, yn arbennig i randdeiliaid lleol. Hefyd, roedd y cyfleuster a oedd yn cefnogi rhannu data, a chydweithio'n fwy cyffredinol, yn fantais sylweddol i Ffynnon o'i chymharu â systemau eraill.

Mae rhai sefydliadau'n codi pwyntiau allweddol sy'n sail i'w cred bod eu systemau presennol yn well na Ffynnon. Ymysg y rhain roedd:

- Galluedd adrodd: i un ymatebydd, tybiwyd bod *"anallu Ffynnon i gynhyrchu adroddiadau defnyddiol yn wendid sylfaenol"* sy'n atal y system rhag cael ei defnyddio i'w gallu llawn;
- Teimlwyd bod systemau presennol yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr a bod "*golwg a naws Ffynnon yn ei gadael i lawr";*
- Roedd y systemau wedi'u datblygu i ateb eu hanghenion yn benodol. Mewn achosion lle roedd system wedi'i datblygu'n fewnol, gwelwyd bod hyn yn fwy addas na Ffynnon, yr oedd amgyffrediad ei bod wedi'i datblygu i ateb anghenion grŵp eang o randdeiliaid.

Dylid nodi nad yw'r penderfyniad i beidio â chyfranogi yn y rhaglen yn gyfystyr â diffyg ymgysylltiad llwyr ar ran rhanddeiliaid. Yn wir, mae sefydliadau nad ydynt yn defnyddio'r systemau, neu y maent yn gwneud

defnydd cyfyngedig ohonynt, yn aml yn mynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Defnyddwyr ac mae pocedi o ddefnydd yn eu plith. Mae diddordeb o hyd ar ran y sawl nad ydynt yn ei defnyddio yn system Ffynnon a'r trafodaethau cysylltiedig o amgylch materion rheoli perfformiad yn ehangach. Fel y dywedodd un ymatebydd nad oedd yn ei defnyddio, *"ni hoffem feddwl mai Ffynnon yw'r unig gêm sydd ar gael, ond rydym yn dal am fod yn y parti"*.

3.4 Ffactorau sy'n effeithio ar allu rhanddeiliaid i wreiddio system Ffynnon

Cred pymtheg rhanddeiliad fod Ffynnon wedi'i gwreiddio yn eu sefydliad. I'r sefydliadau hynny lle roedd Ffynnon wedi'i gwreiddio'n gadarn, roedd y model gweithredu'n canolbwyntio'n fwyaf cyffredin ar ei defnydd o fewn y tîm corfforaethol gyda dirprwyo i feysydd gwasanaeth. Mewn perthynas â lefel y gwreiddio mewn sefydliadau rhanddeiliaid, gellir nodi nifer o ffactorau, a'r rheiny'n sbardunau ac yn rhwystrau fel ei gilydd.

Mae sbardunau allweddol sy'n cefnogi gwreiddio ar draws y sefydliadau rhanddeiliaid yn ymwneud â chyfle, capasiti a gallu:

- Mae ymrwymiad gan uwch reolwyr i fabwysiadu a defnyddio Ffynnon o fewn sefydliad yn hanfodol. Pan fydd uwch reolwyr ac aelodau etholedig i raddau llai yn ei chefnogi, gellir ei defnyddio ar gyfer adroddiadau corfforaethol a'i defnyddio mewn meysydd gwasanaeth;
- Yn gyffredinol, mae angen dyrannu adnoddau i gyflwyno'r system a sicrhau bod ganddi'r gallu i gyflwyno data mewn modd amserol a chywir, a symleiddio systemau presennol. *"Ni fyddai hyn wedi digwydd oni bai i staff gael eu neilltuo a'i bod yn flaenoriaeth"*;
- Ffynnon yn rhan o ffocws ac ymgyrch ehangach ar reoli perfformiad: I rai rhanddeiliaid, fel Cyngor Gofal Cymru a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, roedd Ffynnon yn declyn a fyddai'n ateb angen a nodwyd ar adeg pan roedd y sefydliad yn chwilio am ddatrysiad meddalwedd penodedig i gefnogi gwella perfformiad. Am y 18 mis blaenorol, roedd Cyngor Gofal Cymru wedi bod yn mynd drwy adolygiad ar draws y sefydliad o berfformiad a datblygu fframweithiau priodol. Pan wnaed y penderfyniad bod angen teclyn meddalwedd i

gefnogi'r diwygiadau, nodwyd (drwy broses gaffael ffurfiol ac adolygiad achos busnes) mai Ffynnon oedd yr opsiwn gorau yn hyn o beth. Yn y modd hwn, nid oedd rhaglen Ffynnon ei hun yn sbardun ar gyfer newid, ond yn rhan o ffocws ehangach ar wella ar lefel sefydliadol. Fodd bynnag, adroddodd rhai ymatebwyr fod Ffynnon wedi'u sbarduno i adolygu ac asesu'n fewnol eu hymagweddau eu hunain a'u prosesau ategol ar gyfer gwella perfformiad;

- Yn ddiau, roedd cefnogaeth ymgynghorwyr Coactiva, a helpodd randdeiliaid i integreiddio Ffynnon yn eu strwythur ac alinio gyda'u fframweithiau perfformiad presennol, yn ffactor sylweddol i rai. Er y nodwyd bod gwreiddio'r system yn mynnu adnodd sylweddol o ran staff yn fewnol yn y sefydliad rhanddeiliaid, roedd gwerthfawrogiad mawr i'r gefnogaeth a gafwyd gan ymgynghorwyr Coactiva. Roedd hyn nid yn unig yn cynnwys hyfforddiant ar y system, ond adolygu a chynllunio ar lefel strategol i alluogi integreiddio effeithiol, ynghyd â grymuso staff i gyflwyno hyfforddiant eu hunain, drwy gynnig sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr, a darparu deunyddiau ategol yn hael iddynt eu defnyddio.

I rai o'r sefydliadau eraill, gellir priodoli'r defnydd llai helaeth o Ffynnon yn rhannol i system Ffynnon ei hun ac yn rhannol i faterion sefydliadol mewnol.

- Systemau presennol ac amgen: Mewn tua thraean o'r rhanddeiliaid hyn, nid yw Ffynnon wedi'i defnyddio'n helaeth os o gwbl oherwydd bod system arall. Nid oedd hyn o reidrwydd yn rhwystr, ond roedd Ffynnon ond yn cynnig rhywbeth yn ychwanegol i'r systemau presennol ac nid oedd gofyn iddi gael ei gwreiddio ar draws y sefydliad. Defnyddiwyd Ffynnon ochr yn ochr â systemau mewnol a oedd yn defnyddio Excel, System Gwybodaeth Rheoli Prosiectau, neu ddefnyddiau Adran-benodol fel SWIFT (gwasanaethau cymdeithasol) neu Aggressor (cyllid). Mae hyn yn dangos y gellir defnyddio system Ffynnon naill ai fel datrysiad integredig, canolog sy'n rhychwantu sefydliad, neu gall weithredu fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad ehangach;

- Amseroldeb: mewn rhai achosion, nid yw trefniadau mewnol ac adnoddau wedi darparu unrhyw symbyliad i fabwysiadu Ffynnon. Er enghraifft, ymgysylltodd un awdurdod lleol â rhaglen Ffynnon yn y dechrau ond yn sgîl ailstrwythuro mewnol, dirprwywyd rheoli perfformiad i feysydd gwasanaeth unigol heb unrhyw rôl gorfforaethol. Mewn sawl un arall mae cynnydd wedi dibynnu ar bencampwyr ac mewn llawer o gyrff rhanddeiliaid nid yw'r rhain wedi bodoli;
- Galluedd: amlygwyd diffyg synergedd rhwng Ffynnon a'r fframwaith perfformiad corfforaethol gan rai defnyddwyr sydd naill ai wedi'u diffodd ar ôl cynnal asesiad neu wedi lleihau eu defnydd. Er enghraifft, roedd un awdurdod lleol yn defnyddio Ffynnon yn fwy helaeth yn y dechrau, ond lleihawyd ei defnydd ar ôl sylweddoli nad oedd y system yn gallu perfformio'r swyddogaethau gofynnol ar gyfer mesurau perfformiad; o ganlyniad maent wedi datblygu system fewnol wedi'i theilwra'n fwy at eu hanghenion.

3.5 Llywodraethu a rheoli rhaglenni

Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cyfranogi naill ai yng nghyfarfodydd y Grwpiau Defnyddwyr Rhanbarthol, neu yng nghyfarfodydd Rhwydwaith Gwella Cymru, ac mewn llawer o achosion, yn y ddau. Yn aml, lle bydd sefydliadau'n cyfranogi drwy'r ddwy sianel, bydd eu presenoldeb yn ôl eu rôl, gyda'r staff mwy gweithredol yn mynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Defnyddwyr (am fod y ffocws yn fwy ar y system) ac uwch reolwyr, sy'n cymryd rôl rheoli perfformiad fwy strategol, yn mynychu cyfarfodydd RhGC. Yn y ffordd hon mae gan raglen Ffynnon ystod gynhwysfawr o sianeli i ddefnyddwyr fwydo nôl a derbyn diweddariadau, ar lefelau strategol a gweithredol fel ei gilydd.

Mae rhanddeiliaid sy'n gwneud ychydig iawn o ddefnydd o'r system yn tueddu i beidio â chymryd rhan drwy'r sianeli hyn, fodd bynnag mae rhai o'r rhain wedi'u cynrychioli yng nghyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr er mwyn clywed am y datblygiadau diweddaraf gyda system Ffynnon.

*Cyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr – Ymatebion Cyfweliadau Rhanddeiliaid*

Yn gyffredinol mae rhanddeiliaid sy'n mynychu cyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr o'r farn eu bod yn ddefnyddiol. Ar y cyfan, roedd defnyddwyr yn gadarnhaol am y cyfarfodydd mewn perthynas â'r canlynol:

- Maent yn ffordd dda o gael eu hysbysu am ddatblygiadau i system Ffynnon, drwy'r diweddariadau a'r arddangosiadau a gyflwynir gan Coactiva;
- Mae mynychwyr o'r farn bod cyflwyniadau gan ddefnyddwyr a thrafodaethau cysylltiedig yn arbennig o ddefnyddiol. Gall canfod sut mae sefydliadau eraill wedi mynd i'r afael â materion arbennig, neu sut maent yn defnyddio ac yn datblygu agweddau ar y system ddarparu gwersi cynorthwyol;
- Yn fwy cyffredinol, ystyriwyd bod cyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr yn hollbwysig wrth gefnogi datblygu cysylltiadau anffurfiol rhwng sefydliadau rhanddeiliaid. I fynychwyr sy'n gweithio ar lefel fwy gweithredol yn eu sefydliadau, nid yw'r unigolion hyn yn cael eu tynnu ynghyd yn aml i drafod materion sy'n ganolog i'w rolau. Felly mewn rhai achosion mae cyfarfodydd y Grŵp Defnyddwyr wedi bod o gymorth wrth sefydlu perthnasau rhwng sefydliadau na fyddent fel arall wedi cael eu datblygu.

Ystyriwyd bod ffurf y Grwpiau Defnyddwyr yn effeithiol, ac roedd yr ymatebwyr yn hoffi natur ryngweithiol y cyfarfodydd.

I wella'r cyfarfodydd, ymhlith yr awgrymiadau cyffredin roedd y canlynol:

- Ynghyd â'r ddau Gyfarfod rhanbarthol rheolaidd o'r Grwpiau Defnyddwyr, dylid cynnal cyfarfod grŵp cenedlaethol (bob blwyddyn o bosibl). Roedd y bobl hynny a oedd wedi bod yn gysylltiedig â Ffynnon dros y cyfnod hwy o'r farn bod y trefniant blaenorol o gynnal cyfarfodydd ar lefel genedlaethol o gymorth. Nodwyd ei fod yn gyfle da i weld safbwynt mwy unedig, nodi unrhyw wahaniaethau, nodweddion tebyg neu feysydd posibl ar gyfer cydweithio, ar lefel genedlaethol yn hytrach na thrwy raniad Gogledd/De;

- Cael mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a/neu WLGA yn y cyfarfodydd fel eu bod yn fwy ymwybodol o faterion sy'n codi ymysg y rhanddeiliaid;
- Bod llai o ffocws ar awdurdodau lleol a'u defnydd nhw o Ffynnon o ystyried natur amrywiol y sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cael eu cynrychioli yn y cyfarfodydd ar hyn o bryd;
- Awgrymodd un ymatebydd y gallai trafodaethau'r Grŵp Defnyddwyr gynnwys rhestr o faterion technegol neu 'fygiau' y mae pobl wedi dod ar eu traws, er mwyn sicrhau bod Coactiva yn ymwybodol o'r rhain ac yn gweithredu arnynt.

*Mecanweithiau eraill i Ddefnyddwyr roi Adborth*

Yn ogystal â chyfarfodydd y Grwpiau Defnyddwyr a RhGC, gofynnwyd hefyd i'r rhanddeiliaid am eu defnydd o sianeli cyfathrebu eraill â Coactiva. Y ddau a nodwyd oedd Llinell Gymorth Coactiva a chyfathrebu uniongyrchol ag ymgynghorwyr Coactiva.

Mewn perthynas â Llinell Gymorth Coactiva, roedd ymhell dros dri chwarter yn defnyddio'r Llinell Gymorth. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn wedi bod mewn perthynas â mân "faglau" neu faterion technegol bach a oedd yn codi yn sgîl defnyddio'r system. Roedd defnyddwyr yn eithriadol o fodlon ar yr ymateb a gawsant drwy'r Llinell Gymorth, o ran y staff y siaradwyd â nhw a'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Ym mwyafrif yr achosion, aed i'r afael â'u mater, er bod y problemau mewn nifer bach o achosion yn rhan o fater yn ymwneud â'r system ehangach ac aliniad system TG y sefydliad rhanddeiliaid â Ffynnon. Ni chafodd y rhain eu datrys bob amser yn gyflym nac i safon foddhaol.

Roedd yr ymgynghorwyr Coactiva eu hunain yn ffordd arall i ddefnyddwyr amlygu problemau, rhoi adborth am eu profiad, neu drafod agweddau penodol ar y rhaglen. Ran amlaf o lawer, roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod yr ymgynghorwyr yn adnodd gwerthfawr iawn, a chanmolwyd eu "brwdfrydedd", gydag un ymatebydd yn dweud bod yr ymgynghorydd wedi ymdrechu "ymhell y tu hwnt i'r disgwyl" i'w gefnogi. I lawer o randdeiliaid, roedd eu hymgynghorydd penodedig yn adnodd hynod o werthfawr, o ran

darparu cefnogaeth mewn perthynas â system Ffynnon, a hefyd (ar gyfer y rheiny sy'n cyrchu'r cymorth ymgynghori ychwanegol) wrth helpu i ddatblygu ymhellach fframwaith rheoli perfformiad ehangach o fewn eu sefydliadau.

*Rheoli contract rhaglen Ffynnon*

Mae'r strwythur rheoli wedi esblygu yn ystod oes y contract, ac erbyn hyn mae wedi'i symleiddio i gynnwys Grŵp Rhaglen Strategol o Coactiva, WLGA, a Llywodraeth Cymru. O ran rheoli rhaglen Ffynnon, roedd rhanddeiliaid wedi gweld hyn yn bennaf drwy eu presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Grŵp Defnyddwyr a RhGC.

O'r rhanddeiliaid hynny a fynegodd farn am y trefniadau rheoli a llywodraethu, roedd mwy na'u hanner o'r farn yr hoffent weld lefel uwch o gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru, fel y corff comisiynu. Teimlwyd bod "bwlch yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am Ffynnon", y dylai fod "cyfranogiad mwy rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru o ran rhoi cyfeiriad i'r rhaglen" a chadw ar y blaen o ran gwella galluedd y system yn arbennig.

Roedd mynychwyr y grŵp defnyddwyr o'r farn y byddai'r trefniant dwyrannol rhwng Coactiva a'r defnyddwyr/rhanddeiliaid yn cael ei wella petai Llywodraeth Cymru'n gysylltiedig ac yn cyfranogi'n weithgar. Yn y modd hwn, awgrymwyd y byddai gan Lywodraeth Cymru drosolwg mwy cynhwysfawr o'r rhaglen, gan gynnwys y datblygiadau, y materion yn codi a'r trafodaethau parhaus rhwng Coactiva a rhanddeiliaid. Yna byddent mewn sefyllfa well i sicrhau yr aed i'r afael yn fwy effeithiol â'r materion technegol ar y system a godwyd gan randdeiliaid ac i atgoffa rhanddeiliaid o gyfyngiadau'r contract.

Roedd aelodau rhwydwaith RhGC yn ategu'r pwyntiau hyn i raddau helaeth. Roedd tua hanner ymatebwyr yr e-arolwg yn fodlon gyda dull rheoli rhaglen Ffynnon fodd bynnag roedd tua thraean o'r farn y byddent yn cyflwyno newidiadau i'r strwythurau rheoli. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r rhain y gellid gwella'r dull rheoli drwy gael ymgysylltiad ehangach gan Lywodraeth Cymru am ei bod yn ymddangos bod diffyg ymwybyddiaeth o

unrhyw farn negyddol ymysg rhanddeiliaid am y rhaglen. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y byddai o fantais petaent yn cael mwy o gyfle i lywio'r rhaglen yn hytrach na'i bod yn cael ei gyrru'n bennaf gan Coactiva. *"Ni ddylai rheolwyr y rhaglen fod wedi caniatáu i ystyriaethau masnachol gael blaenoriaeth dros ofynion galluedd llywodraeth leol"*.

Soniodd eithaf tipyn o'r bobl y cyfwelwyd â nhw nad oedd y dulliau cyfathrebu i annog a galluogi gwell defnydd o'r system yn ddigonol. Gallai hyn esbonio pam nad oes gan gynifer ddealltwriaeth gywir o'r contract. Yn arbennig cafwyd ceisiadau am wybodaeth y gellir ei defnyddio gan swyddogion arwain gweithgar mewn cyrff rhanddeiliaid i annog staff eraill ac am ddigwyddiadau/deunyddiau i rannu arfer da am gyflwyno a defnyddio Ffynnon, gan dynnu ar brofiad y rheiny sydd wedi gwneud y defnydd mwyaf a defnydd dyfeisgar o'r system.

3.6 Proffiliau Astudiaethau Achos

Drwy drosolwg o dair astudiaeth achos o ddefnydd rhanddeiliaid, darparwn broffil manylach i enghreifftio gwahanol drefniadau defnydd o raglen Ffynnon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bro Morgannwg – enghraifft o awdurdod sydd wedi gwreiddio'r system ar draws y sefydliad cyfan;
- Cyngor Celfyddydau Cymru – sefydliad lefel genedlaethol sy'n defnyddio'r system i gefnogi rhannu dogfennau rhwng y swyddfa genedlaethol a chynrychiolwyr lleol. Mae CCC hefyd yn defnyddio Ffynnon fel teclyn rheoli rhaglenni.
- Priffyrdd Conwy a Sir Ddinbych – mae'r ddau faes gwasanaeth erbyn hyn yn rhannu swydd Pennaeth Gwasanaeth, ac mae'r broses o integreiddio systemau'r ddau faes gwasanaeth yn cael ei chefnogi gan raglen Ffynnon.

## **Astudiaeth Achos Ffynnon: Bro Morgannwg**

*Cefndir*

Mae Bro Morgannwg, fel rhanddeiliad Ffynnon, yn ymwneud â'r rhaglen ers ei lansio yn 2007. Roedd Rheolwr Perfformiad yr awdurdod yn rhan o'r grŵp gwerthuso cychwynnol, a gydlynwyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol.

Cyn gweithredu Ffynnon yn y Cyngor, nid oedd system rheoli perfformiad electronig yn ei lle, a gwnaed gwaith casglu data drwy system bapur. Mae'r cyngor wedi gwreiddio'r system ar lefel gorfforaethol, ac mae'n gwneud rhywfaint o ddefnydd o'r cymorth ymgynghori.

*Defnydd o'r system*

Caiff system Ffynnon ei defnyddio ar draws y sefydliad, ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer gweithredu'r gweithgarwch gwella perfformiad. Mae Ffynnon yn llwyfannu'r holl gynlluniau strategol a chynllunio ar gyfer y sefydliad, ac yn cefnogi'r 'edau euraidd' sy'n treiddio drwy strategaethau a chynlluniau'r cyngor. O'r Strategaeth Gymunedol, i'r cynlluniau cyflwyno gwasanaeth unigol, mae system Ffynnon yn casglu data ac yn adrodd ar ryw 350 o ddangosyddion perfformiad, a 700 o gamau gweithredu cynlluniau gwasanaeth ar draws y 22 maes gwasanaeth yn y cyngor.

Yn ogystal â'r fframwaith perfformiad corfforaethol, mae fframweithiau wedi'u teilwra wedi'u datblygu i gefnogi gweithgareddau penodol, gan alluogi i setiau data penodedig gael eu casglu. Mae'r rhain yn cynnwys Fframweithiau'r Cytundeb Deilliannau a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl). O fewn cyd-destun gwaith BGLl, caiff data ei gasglu ac adroddiadau eu cynhyrchu ar gyfer y pum partneriaeth sy'n rhan o'r BGLl. Caiff y data a gesglir drwy system Ffynnon ei ddefnyddio i ateb gofynion pwyllgorau craffu chwarterol, ynghyd ag ateb gofynion gwybodaeth archwilio allanol yn flynyddol. Mae modiwl yr e-ffurflenni'n galluogi i ddata dangosyddion perfformiad Cenedlaethol/Craidd ar ddiwedd y flwyddyn gael ei lwytho'n uniongyrchol i'r Uned Ddata. Hefyd, gellir rhannu deunydd ychwanegol fel papurau tystiolaeth a dogfennau allweddol ynghyd â sylwebaeth perfformiad, fel sy'n briodol.

Mae'r cyngor hefyd wedi gwneud defnydd o alluedd codi'r system, gan alluogi i adroddiadau data ar ddangosyddion perfformiad dynodedig gael eu harddangos a'u diweddaru'n awtomatig ar y wefan.

*Defnydd o'r cymorth ymgynghori*

Mae Bro Morgannwg wedi cyrchu cymorth ymgynghori Coactiva er mwyn cefnogi eu defnydd o'r system, drwy sesiynau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr', yn ogystal â defnyddio swyddogaeth y Dangosfyrddau. Mae gan yr awdurdod hefyd arbenigedd yn fewnol sydd wedi'i sefydlu'n dda i ateb anghenion y cyngor o ran cefnogi newid sefydliadol, felly nid ydynt wedi tynnu ar gymorth ymgynghori y tu hwnt i gymorth yn gysylltiedig â'r system.

*Effaith gyffredinol cyfranogi*

Mae'r awdurdod wedi gwreiddio system Ffynnon ar lefel gorfforaethol, ac mewn perthynas â'u prosesau rheoli perfformiad, canfuwyd ei bod yn *"declyn hynod o werthfawr sy'n caniatáu i ni gasglu mwy o wybodaeth nag o'r blaen, yn ein helpu i sicrhau bod y data a gesglir yn gywir ac mae iddo elfen o awtomeiddio sy'n arbed amser staff"*.

O ran cydweithio, mae Ffynnon yn cefnogi'r gweithgarwch BGLl, ac mae staff o'r farn bod cryn dipyn o botensial i'r rhaglen sbarduno a chefnogi gweithio mewn partneriaeth yn ehangach, gyda chynghorau a phartneriaid a rhannau eraill o'r llywodraeth.

Yn ôl y staff, mae Ffynnon hefyd wedi helpu i gynyddu lefel y ffocws ar berfformiad yn fewnol, a dywedodd cynrychiolwyr y Cyngor fod y system *"yn gwneud y gwaith o gasglu data'n fwy cadarn, tryloyw ac mae'n rhoi perchnogaeth o'r data sydd yn wir wedi gwneud gwasanaethau'n fwy ymwybodol o'u llwyddiannau a'u diffygion"*.

Ar y cyfan, disgrifir bod yr effaith ar yr awdurdod yn gadarnhaol iawn, gyda'r cryfder allweddol o *"wneud data perfformiad yn fwy hygyrch i'r staff a'r cyhoedd fel ei gilydd"*.

**<u>Astudiaeth Achos Ffynnon: Cyngor Celfyddydau Cymru</u>**

*Cefndir:*

Nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), sefydliad hyd braich ac elusen (a dosbarthwr arian loteri), yn rhan o gontract gwreiddiol Llywodraeth Cymru, ac mae'n contractio'n uniongyrchol gyda Coactiva. Mae CCC serch hynny'n rhanddeiliad a gynhwysir yn llawn, gan fynychu cyfarfodydd o'r Grŵp Defnyddwyr, rhwydwaith RhGC a chael budd datblygiadau a gwelliannau'r system a gyflwynir i holl aelodau'r grŵp rhanddeiliaid. Ymunodd CCC â rhaglen Ffynnon yn 2008.

*Defnydd o'r system*

Mae tua 70 o'r 100 o staff yn CCC wedi'u cysylltu â system Ffynnon, ac ar ben hyn mae defnyddwyr allanol fel aelodau'r Bwrdd (ymddiriedolwyr), staff celfyddydau awdurdodau lleol, ac ymgynghorwyr sy'n gyfrifol am adolygu cynigion am gyllid ynghyd â pherfformiad cyrff sy'n gleientiaid. Ar lefel gorfforaethol, mae defnydd o'r system yn ymwneud ar hyn o bryd â gweithgareddau sy'n wynebu allan yn hytrach nag at ddibenion adolygu perfformiad yn fewnol. Caiff y system ei defnyddio'n bennaf i alluogi rhannu dogfennau'n ddiogel gyda phartneriaid, ymddiriedolwyr a staff o bell drwy gyfleuster y llyfrgell gwybodaeth leol.

Er nad yw Ffynnon yn cwmpasu rheoli perfformiad mewnol, mae enghreifftiau o achosion lle caiff y system ei defnyddio fel teclyn rheoli rhaglenni mewnol. Er enghraifft, mae rhaglen 'Cyrraedd y Nod' CCC sy'n werth £10m, sy'n cynnwys 42 o brosiectau, yn defnyddio Ffynnon fel y fframwaith monitro ar gyfer prosiectau, gan ganiatáu i ddata gael ei dynnu at ddibenion monitro ac adrodd mewnol ac allanol. Mae hyn yn digwydd ochr yn ochr â'r cofnodion papur y mae'n orfodol iddynt eu cadw yn unol â gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae gwaith datblygu ar y gweill ar hyn o bryd i alluogi'r staff i ddefnyddio system Ffynnon i ategu rheoli perfformiad ar lefel gorfforaethol, ac i gefnogi eu gweithgarwch adrodd allanol. Hefyd, mae gwaith peilot ar fin dechrau ar brosiect yn Ne Orllewin Cymru lle caiff data Dangosyddion Perfformiad Allweddol y celfyddydau eu llwytho, drwy gytundeb gwirfoddol, mewn pum awdurdod sy'n cyfranogi, ac mae meddalwedd Ffynnon yn galluogi casglu a rhannu data perfformiad.

*Defnydd o'r cymorth ymgynghori*

Drwy eu contract gyda Coactiva, mae Cyngor y Celfyddydau wedi tynnu ar y cymorth ymgynghori. Yn ogystal â hyfforddiant cychwynnol ar y system, i gyflwyno Ffynnon, cyrchwyd hyfforddiant pellach ar adeiladu fframweithiau wedi'u teilwra a'r dangosfyrddau. Mae cyflwyniad i Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau hefyd wedi'i gyflwyno gan ymgynghorwyr Coactiva.

*Effaith gyffredinol cyfranogi*

Ar hyn o bryd mae CCC yn defnyddio Ffynnon i gefnogi gweithgareddau allanol, fel rhannu dogfennau, ynghyd â rheoli rhaglenni mewnol. Mae staff yn adrodd bod Ffynnon wedi gwneud *"gwelliannau sylweddol i'r ffordd rydym yn dosbarthu ac yn storio papurau ar gyfer penderfyniadau grant a chyfarfodydd Bwrdd"*, a'i bod wedi *"newid arferion gwaith o amgylch rhannu dogfennau a defnyddio adnoddau ar-lein i baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac mewn cyfarfodydd"*. Mae hyn wedi creu arbedion sylweddol o ran staff ac wedi lleihau'n sylweddol y costau o ran postio a chopïo.

Ar hyn o bryd, mae gwaith datblygu ar y gweill i ymestyn defnydd o'r system i alluogi rheoli perfformiad ar lefel gorfforaethol. Mae enghreifftiau o weithgarwch Ffynnon, fel yr ymarfer peilot gyda dangosyddion perfformiad allweddol y celfyddydau, yn dangos bod cryn dipyn o botensial pellach i CCC fel rhanddeiliad o ran y 'daith' o gyrchu a defnyddio Ffynnon.

## <u>Astudiaeth Achos Ffynnon: Priffyrdd Conwy a Sir Ddinbych</u>

*Cefndir*

Ym mis Ionawr 2009 penododd Conwy a Sir Ddinbych Bennaeth Priffyrdd ar y cyd. Yn sail i'r strwythur hwn oedd angen i symud tuag at integreiddio systemau'r ddwy adran Briffyrdd a chreu fframwaith unigol wedi'i symleiddio ar gyfer asesu ac adrodd ar berfformiad. Yn yr enghraifft hon, mae cymorth ymgynghori wedi chwarae rôl allweddol wrth symud tuag at 'weledigaeth' ar y cyd ar gyfer y gwasanaethau. Yna caiff defnydd o'r system ei gyflwyno, unwaith i'r cyd-destun ar gyfer ei defnydd ar draws y gwasanaethau gael ei osod.

*Defnydd o'r system*

Bydd system Ffynnon yn darparu fframwaith cyffredin ar draws y ddwy Adran ar gyfer adrodd. Ar hyn o bryd, mae nifer y defnyddwyr wedi bod yn gyfyngedig, a'r bwriad yw y caiff y system ei chynllunio'n briodol a'i chyflwyno i staff yn y ddau gyngor unwaith i'r ddau wasanaeth gyrraedd sefyllfa lle mae'r blaenoriaethau a rennir a'r gweithgareddau ategu'n eglur. Wrth osod y sylfeini ar gyfer defnyddio'r system yn ehangach, mae tîm canolog o gydlynwyr wedi'i sefydlu; maent wedi derbyn hyfforddiant ar y system ac maent yn defnyddio'r dangosfyrddau ar gyfer coladu data'r gwasanaeth.

*Defnydd o'r cymorth ymgynghori*

Am y bydd y system a rennir yn ategu'r gwaith ar y cyd ar draws y gwasanaethau, mae defnydd o'r cymorth ymgynghori wedi bod yn hollbwysig wrth symud tuag at ymagwedd gydgysylltiedig ar lefel strategol a sefydliadol. Mae ymgynghorwyr Coactiva wedi cyflwyno cyfres o weithdai i gyflawni hyn, o'r pwynt cychwynnol o fynd i'r afael â'r her o dynnu dau wasanaeth unigol at ei gilydd, i weithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig yn erbyn fframwaith cyffredin. I gefnogi hyn, hwylusodd Coactiva weithdy llwyddiannus i holl reolwyr Priffyrdd a Gwasanaethau Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych, gyda'r gorchwyl o weithio tuag at ddatblygu cynlluniau gwasanaethau ar y cyd gyda deilliannau a dangosyddion perfformiad cysylltiedig a rennir.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i esgor ar newid yn y diwylliant, mae'r cymorth ymgynghori mwy ymarferol wedi cynnwys gweithdai mapio prosesau i adnabod systemau cyffredin a phrosesau cyffredin ar draws y ddau wasanaeth. Yn rhan o broses barhaus, mae cryn dipyn o gynnydd eisoes wedi'i wneud, a'r bwriad yw y bydd y gwasanaethau'n parhau i dynnu ar y cymorth ymgynghori i gyflawni'r uchelgais o sefydlu fframwaith a rennir.

*Effaith gyffredinol cyfranogi*

Mae rhaglen Ffynnon yn cefnogi newid diwylliannol a newid i'r system yn effeithiol er mwyn ateb yr anghenion sy'n codi yn sgîl integreiddio'r ddau wasanaeth. Mae'r cymorth ymgynghori wedi bod yn rhan annatod o symud tuag at fframwaith cyffredin ar gyfer cyflwyno ar draws y gwasanaethau, ac yn fwy penodol wrth fapio prosesau sy'n bodoli eisoes,

nodi elfennau cyffredin a gwahaniaethau rhwng y ddau a defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi'r gwaith o lunio fframwaith perfformiad a rennir. O ran ei heffaith, mae'n gymharol gynnar o hyd, ond yn ôl ei defnyddwyr, mae'n *"dod yn fuddiol erbyn hyn i ni (a) thros yr ychydig flynyddoedd nesaf rydym yn disgwyl gweld y manteision"*. Mae cysylltiadau yn gweld Ffynnon yn "ffordd gyson o fesur ac asesu perfformiad" ac yn sail i hyn, yr uchelgais o gydweithio ar draws gwasanaethau drwy gynllunio busnes ar y cyd ac adrodd ar berfformiad ar y cyd. Hyd yn oed yn y camau cynnar hyn, mae'r system wedi cael effaith ar y prosesau data o fewn y gwasanaethau. Dywedodd y staff sy'n defnyddio'r dangosfyrddau fod *"(Ffynnon) wedi gwella'n gallu'n aruthrol. Rydym nawr yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd lawer mwy soffistigedig"*.

3.7 Crynodeb o'r prif bwyntiau

Y pwyntiau allweddol sy'n codi yn sgîl yr adran hon yw:

- Mae graddau a natur y defnydd ar draws y grŵp rhanddeiliaid yn gymysg iawn: mae 22 (58 y cant) yn defnyddio system Ffynnon yn helaeth neu i lefel gymedrol, ac mae'r un gyfran, 22 (58 y cant), yn defnyddio'r cymorth ymgynghori'n helaeth neu i lefel gymedrol;
- Fodd bynnag mae 32 y cant naill ai nad ydynt yn defnyddio'r system neu gwnânt ddefnydd cyfyngedig ohoni heb fwriad i gynyddu eu defnydd;
- Nid oes unrhyw wahaniaethau mewn perthynas â'r math o sefydliad, er enghraifft nid yw awdurdodau lleol yn tueddu i ddefnyddio Ffynnon i raddau helaethach na rhanddeiliaid eraill;
- Mae rhanddeiliaid wedi teilwra elfennau o'r system i gefnogi agweddau penodol ar eu gwaith rheoli perfformiad, fel llwytho data, cefnogi adrodd, rhannu dogfennau o bell;
- Mewn achosion lle mae cyfranogiad yn gyfyngedig, mae ystod o ffactorau sydd wedi effeithio ar hyn, gan gynnwys y ffaith bod systemau eisoes yn eu lle, barn nad Ffynnon yw'r system i ateb eu hanghenion, neu faterion sefydliadol eraill;

- Ar y cyfan mae rhanddeiliaid yn hapus gyda'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar gyfer y rhaglen, er yr hoffai nifer sylweddol weld Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl fwy gweithredol a darparu cyfeiriad strategol.

# 4 Asesiad gwerthusol o'r rhaglen

Yn yr adran hon rydym yn tynnu ynghyd y deilliannau a gyflawnwyd ac effeithiau'r rhain y gellir eu priodoli i system Ffynnon a chymorth ymgynghori Ffynnon; rydym yn cymharu'r rhain â'r deilliannau a'r effeithiau disgwyliedig sydd wedi'u nodi yn y model rhesymeg er mwyn asesu graddau'r cynnydd a wnaed. Yna rydym yn nodi'r buddiannau costau a gyflawnwyd drwy Ffynnon hyd yma er mwyn ystyried ei chost effeithiolrwydd a'i gwerth am arian. Mae hyn yn tynnu ar yr wybodaeth a gyflwynwyd yn adran 3, y cyfweliadau a'r arolygon, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r contractwr am y contract a'i gostau yn adran 2.

Dylid nodi bod diffyg Gwybodaeth Reoli i gefnogi'r astudiaeth o ran nodi effaith Ffynnon. Nid oes unrhyw gofnodion ffurfiol o'r allbwn, fel nifer y defnyddwyr, nifer y sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd, ac ati. Felly nid yw'n bosibl i'r astudiaeth lunio barn ar asesiad meintiol o fewnbwn ac allbwn.

## 4.1 System Ffynnon

Disgwyliwyd i system Ffynnon ddarparu'r platfform i sefydliadau'r sector cyhoeddus:

- Sefydlu system rheoli perfformiad ar draws eu sefydliadau er mwyn monitro perfformio ar lefelau corfforaethol, adrannau a gwasanaethau;
- Darparu'r teclynnau ar gyfer cyflwyno data monitro ac adnabod perfformiad da a gwael yn erbyn targedau;
- Rhannu a chyfnewid data ar draws y sefydliad;
- Rhannu a chyfnewid data a dogfennau gyda sefydliadau eraill;
- Darparu'r teclynnau ar gyfer meincnodi a chydweithio.

O ganlyniad, dylai hyn gefnogi sefydliadau yn eu hymgais i wella ansawdd gwasanaethau a mynd i'r afael â gwasanaeth gwael a gwerth gwael am arian.

Rydym wedi canfod bod y system wedi gwneud y canlynol ers ei chyflwyno yn 2007/8:

- Darparu'r sail ar gyfer rheoli perfformiad ar draws y sefydliad mewn 12 sefydliad lleol ac un sefydliad cenedlaethol yn unig;
- Darparu'r sail ar gyfer adrodd rheoli perfformiad ar lefel gorfforaethol mewn o leiaf 13 o sefydliadau eraill;
- Cael ei defnyddio mewn meysydd gwasanaeth/gweithgareddau gweithredol mewn o leiaf saith sefydliad lleol a thri sefydliad cenedlaethol arall;
- Darparu'r platfform ar gyfer rhannu a chyfnewid data a dogfennau mewn 11 sefydliad lleol a thri sefydliad cenedlaethol;
- Cynyddu'r defnydd yn raddol o flwyddyn i flwyddyn o ran rhannu a chyfnewid data.

Mewn perthynas â deilliannau rydym wedi canfod bod y rheiny sy'n mabwysiadu Ffynnon at ddibenion trefniadau rheoli perfformiad ar draws y sefydliad wedi adrodd, ar y cyfan, ei bod wedi darparu manteision, megis:

- Lleihau'r amser a gymerir i gasglu a choladu data a chynhyrchu adroddiadau. Roedd pymtheg rhanddeiliad yn hyderus bod Ffynnon wedi gwella'u systemau casglu data. Er enghraifft nododd parc cenedlaethol bod Ffynnon wedi "*newid yn llwyr pa mor hwylus y gallwn wneud hyn";*
- Osgoi'r angen am staff ychwanegol i goladu a pharatoi adroddiadau. Roedd amser staff a dreuliwyd yn flaenorol yn casglu a choladu data drwy systemau papur neu Excel yn sylweddol ac mae hyn wedi rhyddhau capasiti staff. "*Mae wedi cynyddu capasiti am y byddai angen mwy o staff arnom hebddi, neu byddai'r aelod staff yn treulio'i amser yn casglu a choladu data*". "*Mae wedi ein galluogi ni i ddod i ben er bod niferoedd ein staff wedi'u haneru*";
- Galluogi archwilio data perfformiad er mwyn gwella'i gywirdeb ac ymddiriedaeth ynddo drwy ddisgwyl i bapurau gwaith a dogfennau cefndir gael eu rhannu; *"cyn Ffynnon bu'n rhaid i ni archwilio DPion er mwyn sicrhau rhyw fath o wirionedd yn y ffigurau a oedd yn cael*

*eu hadrodd ”*. Adroddodd tri sefydliad ar ddeg eu bod yn defnyddio Ffynnon i gefnogi eu gweithgareddau archwilio, yn fewnol i ateb gofynion craffu ac yn allanol at ddibenion archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru neu oherwydd arolygiadau. Dywedwyd bod Ffynnon *“yn ein galluogi i roi ffordd uniongyrchol i archwilwyr gyrchu’r system yn hytrach nag anfon tomenni o bapur”*;

- Galluogi staff i ganolbwyntio ar ystyr y data a chymryd camau yn sgîl hynny. “*Mae’r dangosfyrddau’n ei gwneud lawer yn haws i weld drwy’r niwl*” sy’n golygu y gall *“staff ganolbwyntio ar yr hyn mae’n ei ddweud a’r hyn sy’n dda, sy’n wael ac sy’n ddifater”*. I Sir Benfro, *“mae wedi arwain, mewn rhai adrannau, at weld defnydd mwy o ddata am ei bod yn haws erbyn hyn iddynt gyflwyno a chymharu perfformiad gan ddefnyddio data tueddiadau eu hunain yn ogystal â rhoi perchnogaeth iddynt drosto*”.
- Rhyddhau amser aelodau etholedig ac uwch reolwyr oherwydd nad oes rhaid iddynt lafurio drwy bapur; gallant deilwra’u dangosfyrddau a gweld y penawdau. *“Mae’n ddelfrydol ar gyfer briffio aelodau gweithredol ynghylch ble rydym arni”* a *“denwyd uwch reolwyr gan y graffeg a’r elfennau gweledol”*;
- Canolbwyntio ar ddatblygu a defnyddio dangosyddion lleol i ddwysáu gwaith rheoli perfformiad o fewn y sefydliad ac adeiladu ffydd yn y data ar gyfer monitro perfformiad;
- Safoni prosesau a systemau ar gyfer rheoli perfformiad. *“Dim ond os gwnewch hyn y gallwch ddefnyddio’r system ac mae gennym ymagwedd lawer symlach”*. Mae hyn yn helpu gyda safoni dadansoddi ar draws ffiniau adrannol.

Mae rhai o’r rhanddeiliaid hyn yn cydnabod bod cyfranogi yn rhaglen Ffynnon wedi darparu *“gweddnewid ym maes rheoli perfformiad”* a *“ffocws mwy miniog ar feincnodi a monitro”* er nad yw hon yn farn gyffredin ymysg defnyddwyr oherwydd i’r mwyafrif, fel y byddech yn disgwyl, roedd hyn eisoes yn flaenoriaeth ar lefel gorfforaethol ac roedd systemau yn eu lle cyn i Ffynnon ymddangos. I’r rheini lle mae wedi darparu gweddnewid, mae “*Ffynnon wedi newid y farn am reoli*

*perfformiad fel bod pobl yn gweld bod rheoli perfformiad yn ymwneud â darparu tystiolaeth pam rydych yn gwneud rhywbeth a chael cyllideb ar ei gyfer, yn hytrach na thicio blychau. Mae hwn yn fater o ddiwylliant*." Ac mae wedi darparu system nad oedd yn ei lle *"sef rhan o'r rheswm pam fod amgyffrediadau o berfformiad gwael".*

Yr hyn sy'n anodd i'w weld yw i ba raddau mae system Ffynnon wedi cefnogi gwelliant mewn perfformiad. Gall rhai rhanddeiliaid lleol gyfeirio at ddefnyddioldeb y system o alluogi adnabod perfformiad gwael yn gliriach i reolwyr ac aelodau i gyflymu camau gweithredu oherwydd *"ei bod yn cyrraedd uwch reolwyr ac aelodau'n gyflymach ac mewn modd haws i'w ddeall".* Ni all yr un ohonynt feintioli sut y bu'n rhan allweddol o'u taith i wella er ei bod wedi galluogi gwella lle nad oedd systemau o'r fath yn eu lle ar bob lefel.

Rydym hefyd wedi canfod y canlynol:

- Mae'r rheiny sy'n rhannu ac yn cyfnewid data gyda sefydliadau eraill yn adrodd bod manteision wrth beidio â gorfod ymateb i lu o ymholiadau, atgynhyrchu dogfennau neu ddefnyddio systemau post. Gyda Ffynnon caiff y data ei fewngofnodi unwaith, a'i ddefnyddio sawl gwaith. O'r blaen, byddai timau canolog yn treulio llawer o amser yn cynhyrchu'r un data mewn gwahanol ffurfiau, er mwyn ateb gofynion adrodd gan gynnwys craffu mewnol, ac archwilio allanol;
- Mae manteision tebyg i'r rheiny sy'n rhannu dogfennau;
- Mae derbynwyr data wedi adrodd eu bod wedi derbyn data'n gyflymach (heb orfod gosod systemau a gwneud ceisiadau) a chael gwybodaeth gefndir heb orfod ymweld neu ffonio. Enghraifft dda o hyn yw darparu data a thystiolaeth i SAC i gefnogi archwilio, drwy ganiatâd gan randdeiliaid i SAC gyrchu meysydd data penodedig o fewn eu system Ffynnon, a defnyddio'r llyfrgell i rannu tystiolaeth dogfennaeth allweddol. Mae awdurdod lleol yn disgrifio sut mae

modd gwneud "*trywyddau a chysylltiadau i alluogi archwilwyr i weld data o bell*";

- Mae deg rhanddeiliad wedi cynnal meincnodi nad oedd modd iddynt ei wneud yn flaenorol, gan gynnwys rhannu data meincnodi rhwng sefydliadau tebyg fel y tri Pharc Cenedlaethol, a rhwng meysydd gwasanaeth mewn awdurdodau lleol;
- Mae hyn hefyd yn wir o brosiect darparwyr data addysg ôl-16 AdAS, a fydd yn cefnogi meincnodi a rhannu arfer gorau rhwng darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16.

I lawer o'r rhai a'i mabwysiadodd a'r rhai a'i datblygodd at ddiben defnyddiau newydd, fel y set ddata ysgolion genedlaethol a'r set ddata ôl-16, disgwylir llawer mwy o effaith. Mae defnyddwyr Ffynnon ar daith gyda rhai rhanddeiliaid wedi teithio ymhellach nag eraill yn y broses o ymgysylltu ac integreiddio, ac mae rhai defnyddiau ond wedi'u lansio'n ddiweddar a defnyddiau eraill yn y cyfnod peilot.

O ganlyniad mae'r system wedi

- Darparu modd i rai sefydliadau gyflwyno system rheoli perfformiad effeithiol nad oedd ganddynt o'r blaen gan gynnwys datblygu a defnyddio dangosyddion lleol a monitro ar bob lefel yn y sefydliad;
- Darparu teclyn effeithiol i grŵp o sefydliadau reoli data perfformiad, monitro perfformiad neu ei gyflwyno i reolwyr ac aelodau ar lefel gorfforaethol a/neu o fewn meysydd gwasanaeth penodol;
- Hwyluso cydweithio o fewn rhai sefydliadau a chydweithio rhwng llawer o sefydliadau'n gyffredinol ar lefel gwasanaeth na fyddai'n ymarferol o'r blaen;
- Darparu cyfleoedd i rai sefydliadau arbed ar ddosbarthu data a rheoli data a chostau adrodd;
- Hwyluso rhai sefydliadau i ganolbwyntio ar ansawdd a chyflwyno gwasanaethau nad oedd modd iddynt ei wneud yn flaenorol.

Mae rhai wedi dadlau nad yw cyflymder y defnydd mwy wedi cyd-fynd â'r disgwyliadau a bod cyflymder y mabwysiadu wedi'i lesteirio gan alluoedd technegol y system a gallu staff i'w defnyddio.
Mae'n ymddangos bod yr effeithiau'n fwy pan fydd defnydd helaethach mewn sefydliadau ac i sefydliadau cenedlaethol gyda defnydd helaeth os nad cynhwysfawr gan sefydliadau lleol. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod llawer i'w wneud o hyd i adnabod arbedion effeithlonrwydd yn sgîl rheoli perfformiad yn effeithiol a rhannu data ar y cyd.

4.2 Cymorth ymgynghori Ffynnon

Roedd disgwyl i gymorth ymgynghori Ffynnon:

- Alluogi staff i gaffael y sgiliau i ddefnyddio'r system yn effeithlon;
- Datblygu sgiliau i'w defnyddio'n effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad ac at ddibenion eraill, fel rhannu data a meincnodi;
- Galluogi staff i ddatblygu a defnyddio trefniadau rheoli perfformiad a fyddai'n canolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau a gwell gwerth am arian;
- Goresgyn problemau wrth weithredu'r system nad oeddent yn rhai technegol (y dylai'r ddesg gymorth fod wedi ymdrin â nhw) gan gynnwys symud o systemau eraill.

O ganlyniad dylai hyn gefnogi sefydliadau i ddatblygu eu defnydd o'r system a dylid disgwyl iddi gyflymu'r ffordd maent yn cymhwyso a defnyddio'r system yn effeithiol.

Rydym wedi canfod bod y cymorth ymgynghori wedi gwneud y canlynol ers 2008:

- Darparu hyfforddiant ynghylch sut i ddefnyddio'r system i o leiaf 32 o sefydliadau ar gyfer grwpiau mawr o staff a staff allweddol (gan ddisgwyl y byddai staff allweddol yn hyfforddi defnyddwyr eraill);
- Darparu gwasanaeth ymgynghori un wrth un i o leiaf 22 o sefydliadau i'w cynorthwyo i weithredu'r system, datblygu gweithgarwch yn gysylltiedig â phrosiectau penodol, addasu

prosesau a sefydlu systemau er mwyn defnyddio'r system ar gyfer rheoli perfformiad;

- Darparu/galluogi hyfforddiant mewn rheoli perfformiad ac adolygiadau prosesau fel cyfrifyddu adnoddau i o leiaf 22 o sefydliadau;
- Cefnogi cydweithio rhwng gwasanaethau mewn sefydliadau rhanddeiliaid lleol gwahanol a rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol.

Mewn perthynas â deilliannau rydym wedi canfod:

- Bod gwybodaeth eang am y system yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau er bod rhai staff wedi cael hyfforddiant ymhell cyn ei defnyddio ac mae'n rhaid ategu hyn. Mae rhai staff hefyd wedi'u hyfforddi ond nid ydynt wedi defnyddio'r system lle nad yw'n cael ei defnyddio'n helaeth neu wedi'i defnyddio'n rhannol yn unig ar gyfer cipio a defnyddio data rheoli perfformiad;
- Bod y rhan fwyaf o sefydliadau sy'n ei defnyddio'n helaeth, neu sy'n bwriadu ei defnyddio'n helaeth, yn hyfforddi staff ac yn darparu arweiniad eu hunain, ac i gefnogi hyn maent wedi cyrchu sesiynau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' gan ymgynghorwyr Coactiva;
- Lle mae'n cael ei defnyddio, mae gan ddefnyddwyr ddealltwriaeth sylfaenol dda o'r system y maent yn ei datblygu drwy ei defnyddio er bod rhai wedi adrodd bod anawsterau'n ei deall neu'n ei defnyddio'n effeithiol wedi'u llesteirio wrth ddatblygu eu defnydd o'r system. *"Nid yw'r system yn gweithio cystal ag y dylai ac mae hyn yn rhwystro staff gan olygu eu bod yn datrys problemau yn hytrach na defnyddio'r system"*;
- Mae cymorth ymgynghori un wrth un wedi darparu cymorth mewn llawer o achosion i ddefnyddio'r system i gyflawni gwelliannau mewn perfformiad ac effeithlonrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys y cymorth i sefydlu'r system sydd wedi golygu *"adolygu a symleiddio systemau rheoli perfformiad"* yn ogystal â hyfforddiant mewn mapio

prosesau sydd wedi "nodi'r potensial i wneud arbedion effeithlonrwydd";

- Mae gweithdai ASC a SPRINT, i nifer o randdeiliaid, yn cynrychioli newid i ymagwedd fwy strwythuredig at reoli perfformiad ar lefel sefydliadol. Ar ôl cyrchu hyfforddiant ASC, cyflwynodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ASC ar lefel gorfforaethol tua 15 mis yn ôl, "*mae'n rhan o'r cynllun strategol 2010-2015 yn ogystal â'n cynllun gweithredu blynyddol"*. Adroddodd Abertawe sut mae "*ASC wedi ein helpu yn y cam cychwynnol. Mae mapio sgiliau wedi helpu ein hadrannau i feddwl y tu allan i'r blwch*" er na ellir amcangyfrif y manteision gwirioneddol. I eraill, mae gweithdai ASC a Sprint wedi darparu pwynt cychwyn defnyddiol, ond mae defnyddio'r dysgu a fagwyd drwy'r cymorth ymgynghori yn "*waith sydd ar y gweill"*, oherwydd bod "*yr hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion arbennig ein sefydliad ond nid ydym wedi'i symud yn ei flaen eto am ein bod yn parhau i asesu lle gallwn ei gymhwyso i'n gwaith*".

O ganlyniad mae'r cymorth ymgynghori wedi:

- Helpu llawer o'r defnyddwyr i gaffael gwybodaeth a sgiliau;
- Cefnogi staff i'w fabwysiadu a'i gyflwyno ar gyfer rheoli perfformiad a datblygu defnyddiau eraill iddo, fel rhannu gwybodaeth a chydweithio;
- Cynorthwyo staff sy'n arwain ar waith rheoli perfformiad mewn sefydliadau i adeiladu ar eu trefniadau rheoli perfformiad gan ddefnyddio Ffynnon;
- Galluogi'r rhan fwyaf o'r sefydliadau i osgoi talu am gymorth ymgynghori arall er bod rhai wedi prynu cymorth o ffynonellau eraill i symud gwaith perfformiad corfforaethol ac effeithlonrwydd yn ei flaen ond mae hyn yn tueddu i fod yn gymorth ymgynghori manylach.

Serch hynny, mewn rhai achosion mae wedi gwneud yn iawn am anawsterau technegol wrth ddefnyddio'r system a ffaeleddau technegol yn y system a ddarparwyd, megis mewn perthynas â'r galluedd adrodd.

Nid oes unrhyw dystiolaeth ei bod wedi newid diwylliant sefydliad. Cydnabyddir yn gyffredinol bod hyn yn dod o'r tu fewn mewn sefydliadau gyda'r deilliannau mewn perthynas â'r cymorth ymgynghori'n codi pan fydd sefydliadau wedi penderfynu mabwysiadu Ffynnon.

4.3 Cost effeithiolrwydd

Oherwydd na allwn nodi'n hawdd costau Ffynnon (uniongyrchol ac anuniongyrchol) mewn perthynas â chynnyrch a deilliannau meintiol, dim ond drwy archwilio cost system Ffynnon a'r cymorth ymgynghori yng nghost y contract yn erbyn tystiolaeth o'r buddiannau costau sy'n codi yn sgîl defnyddio system Ffynnon a'r cymorth ymgynghori y gallwn fynd ati'n realistig i asesu gwerth am arian.

Ar lefel grai fras, mae cost flynyddol o ychydig dros £1miliwn ar gyfer system Ffynnon a'r cymorth ymgynghori oddeutu £28,000 fesul sefydliad a fanteisiodd arni[29]. Ar gyfer y mathau o fantais a ddisgrifir uchod ni fyddai'n afresymol amcangyfrif y dylai pob un weld manteision o werth uwch na hyn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd maen nhw wedi'u cyfyngu i rai o'r defnyddwyr ac mae manteision mwy yn debygol o ymddangos ymysg y rhanddeiliaid cenedlaethol.

I gefnogi'r sylw hwn, mae'n amlwg bod rhai rhanddeiliaid wedi adnabod buddiannau costau uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Osgoi costau datblygu fel pennu a chomisiynu system eu hunain, oherwydd na fu'n rhaid talu costau prynu system a hyfforddi staff i ddefnyddio system. Mae'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr yn cydnabod bod eu costau o gael hyd i system wedi'u lleihau o ganlyniad er y

[29] Ar sail 38 o sefydliadau posibl a allai fanteisio ar gontract Llywodraeth Cymru; mae'r gweddill yn talu ar wahân

byddent yn disgwyl cymorth ôl-werthu tebyg gan system arall ag y cânt drwy Ffynnon;

- Osgoi costau cyflwyno fel rheoli system a thalu am ei diweddaru, trwyddedau ychwanegol a llwytho fersiynau newydd. Yn wir, un o'r prif resymau a roddodd rhanddeiliaid dros ei defnyddio yw'r ffaith bod trwyddedau defnyddwyr diderfyn a'r platfform a ddefnyddir 'am ddim';
- Arbed costau cyflwyno, fel safio amser staff i gynhyrchu data, *"ni allem gynhyrchu'r adroddiadau perfformiad a gyflwynwn nawr oni bai bod gennym aelod ychwanegol o staff"*; costau postio ac argraffu, *"gallwn wneud llwythi o ddogfennau ar gael i'w hadolygu heb dreulio unrhyw amser yn argraffu a threfnu dosbarthu ar draws Cymru"* ac *"mae wedi arbed llawer o amser ac arian i ni ac wedi gwneud y broses yn rhydd o bapur"*; amser teithio *"gallwn weld dogfennau ar-lein fel nad oes rhaid i ni dreulio oriau ar y ffordd neu'n mynd ar drywydd copïau o gofnodion caled"*.

Mae rhai hefyd wedi nodi buddiannau costau anuniongyrchol mewn perthynas â'r gallu i adnabod perfformiad gwael yn gyflymach; *"mae nid yn unig yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â phroblem lle nad yw gwasanaeth yn ateb disgwyliadau'r cyhoedd ond gall olygu nad ydym yn nofio yn erbyn y llanw pan fydd gwasanaeth yn derbyn llawer o gwynion."* At hynny, mewn un awdurdod lleol, mae staff yn y ganolfan gorfforaethol yn gallu bod yn rhagweithiol mewn perthynas â darparu gwybodaeth i gefnogi'r data yn sgîl gwella cyflymder a chywirdeb wrth gyrchu data. Maent yn adolygu dulliau adrodd ar feysydd perfformiad, ac yn *"ceisio rhagweld cwestiynau gan aelodau drwy nodi ble nad yw'r perfformiad wedi ateb lefelau gofynnol a rhagdybio ymholiadau drwy ganfod y rhesymau dros hyn gan ddefnyddio'r sylwebaeth"*.

Yn anffodus ni all braidd neb o'r rhanddeiliaid ddyfynnu costau gwirioneddol i'r buddiannau hyn.

O ganlyniad, gellid bod wedi gwario'r rhan fwyaf o'r gwariant ar Ffynnon gan sefydliadau a gyfranogodd petaent wedi prynu system eu hunain a byddent wedi cyflawni rhai o'r buddiannau costau gyda systemau amgen. Mae'n anodd amcangyfrif i ba raddau mae systemau amgen wedi costio mwy neu lai am mai ychydig a oedd â systemau eisoes neu a oedd wedi archwilio'r achos busnes dros gael hyd i system amgen ochr yn ochr â Ffynnon.

Mae'r ychydig randdeiliaid a wnaeth hyn a'r rhai a oedd â rhywfaint o wybodaeth o gostau systemau yn nodi'r canlynol:

- Mae'r arbedion prynu unigol yn gymharol fach. Rydym yn gwybod bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn talu £8,400 y flwyddyn a £2,775 am dri diwrnod o gymorth ymgynghori y mae'n eu tynnu. Felly i dynnu cymhariaeth syml, mae CCC yn talu £11,175 y flwyddyn. Nid yw hyn yn wahanol iawn i'r ffigur o ryw £10k a dalwyd gan un awdurdod rhanddeiliad am eu system feddalwedd oddi ar y silff. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw unrhyw gymhariaeth rhwng Ffynnon a systemau eraill yn ystyried yr arbediad o ran amser staff drwy'r ffaith bod Llywodraeth Cymru'n rheoli'r contract, h.y. amser a dreuliwyd a'r arian a fyddai wedi'i wario ar brosesau caffael a rheoli contractau, a'r cyflymder uwch. Hefyd, er bod diweddariadau i'r system yn fynych ond heb eu cynnwys yn y systemau a brynwyd bob tro, caiff y datblygiadau o fewn system Ffynnon, fel galluoedd mapio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, eu cyflwyno ar draws y grŵp rhanddeiliaid heb unrhyw gost ychwanegol, ac ni chodir costau am ddefnyddwyr ychwanegol;
- Mae mabwysiadu Ffynnon yn golygu costau datblygu mewnol er mwyn gallu defnyddio'r system yn effeithiol, hyd yn oed gyda hyfforddiant am ddim a rhywfaint o gymorth ymgynghori. *"Mae am ddim ond mae'n rhaid i chi ymrwymo amser staff i arwain ar ei defnydd; dim ond pan oedd rhywun gyda ni yn y swydd y gallen ni*

*ei wneud"*. Mae hyn yn mynnu buddsoddiad a dyraniad pendant o amser ac adnoddau;

- Mae hyblygrwydd y contract o ran y trwyddedau ychwanegol a'r diweddariadau yn ystod y contract yn cymharu'n dda gyda'r costau cyflwyno arferol sydd ynghlwm â systemau a brynir. *"Ni chewch hyn gyda'r rhan fwyaf o systemau eraill oddi ar y silff oherwydd nad oes gennym bŵer prynu"*;
- Er y gallent ddefnyddio system wahanol, nid yw'r un o'r rhain yn galluogi'r galluedd rhannu yn yr un ffordd â Ffynnon sy'n darparu cyfran sylweddol o'r buddiannau costau.

Yn yr un modd, mewn costau cyfle mae llawer o'r arbedion, nid ar y llinell waelod.

Ar y cyfan, mae'r buddiannau costau i randdeiliad lleol yn fwy pan wneir defnydd mwy ac i rai o'r rhanddeiliaid cenedlaethol, dim ond os bydd pob un neu'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid lleol yn defnyddio'r system y bydd y buddiannau costau'n cronni. *"Oni bai bod yr holl randdeiliaid lleol yn defnyddio'r system, cyfyngedig fydd y fantais effeithlonrwydd yn sgîl rhannu a chyfnewid data"*. Ni chaiff buddiannau costau i du'r rhanddeiliaid cenedlaethol eu hystyried gan randdeiliaid lleol wrth iddynt asesu a fyddant yn mabwysiadu'r system.

Roedd un rhanddeiliad sydd wedi contractio'n uniongyrchol â Coactiva ac sydd felly'n talu taliad cynnal a chadw blynyddol, wedi mynd drwy broses dendro gystadleuol cyn penderfynu ar Ffynnon. Roedd y sefydliad wedi cynnal dadansoddiad buddiannau cyn contractio, ond cafodd anhawster yn nodi ffigur arian parod i'w briodoli i fuddiannau'r system. Roedd rhanddeiliad arall sy'n talu am raglen Ffynnon yn hyderus y byddent *"wedi gorfod talu llawer iawn mwy gyda llawer llai o hyblygrwydd*" petaent wedi gweithredu'n *'unigol'* a phrynu eu system eu hunain yn lle Ffynnon.

Fodd bynnag, mae un awdurdod lleol a brynodd system arall am gost o oddeutu £10,000 y flwyddyn, yn fodlon bod ei ddefnydd o *“system y profwyd ei gwerth”* oddi ar y silff yn fwy effeithlon. Iddyn nhw, roedd natur ddatblygiadol Ffynnon ar y pryd yn anfantais yn hytrach nag yn gyfle oherwydd bod “*Ffynnon wedi’i llunio gan bobl nad oeddent mewn gwirionedd yn gwybod beth oeddent am ei gael”.*

4.4 Crynodeb o’r pwyntiau allweddol

O gymharu â’r hyn a ddisgwyliwyd, mae system Ffynnon wedi darparu platfform ar gyfer systemau rheoli perfformiad, monitro perfformiad, rhannu a chyfnewid data ar draws a rhwng sefydliadau a theclynnau ar gyfer meincnodi a chydweithio. Er nad yw’n cael ei defnyddio ar draws y bwrdd ac mae’n bell o gyrraedd ei photensial, gwelwyd cynnydd yn y defnydd ohoni yn arbennig ym maes rhannu a chyfnewid data. Lle caiff ei defnyddio, mae rhanddeiliaid yn adrodd y canlynol, yn ôl y disgwyl:

- Mae’r system rheoli perfformiad yn darparu buddiannau i ategu trefniadau rheoli perfformiad effeithiol, ond mae hyn yn arbennig o wir lle caiff ei defnyddio’n helaeth;
- Mae rhannu a chyfnewid data’n darparu effeithlonrwydd ac arbedion.

O ganlyniad, mae’r system wedi:

- Darparu’r modd i rai sefydliadau gyflwyno system rheoli perfformiad effeithiol nad oedd ganddynt o’r blaen gan gynnwys datblygu a defnyddio dangosyddion lleol a monitro ar bob lefel yn y sefydliad;
- Darparu teclyn effeithiol i grŵp mwy o sefydliadau reoli data perfformiad, monitro perfformiad neu ei gyflwyno i reolwyr ac aelodau ar y lefel gorfforaethol a/neu o fewn meysydd gwasanaeth penodol;

- Hwyluso cydweithio o fewn rhai sefydliadau a chydweithio rhwng llawer o sefydliadau'n gyffredinol ar lefel gwasanaeth na fyddai'n ymarferol o'r blaen;
- Darparu cyfleoedd i rai sefydliadau a rhannau o Lywodraeth Cymru arbed ar ddosbarthu data a chostau rheoli data ac adrodd;
- Hwyluso rhai sefydliadau i ganolbwyntio ar ansawdd a chyflwyno gwasanaethau nad oedd modd iddynt ei wneud yn flaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr o'r farn o hyd bod ffordd bell i fynd i adnabod arbedion effeithlonrwydd yn sgîl rheoli perfformiad effeithiol a rhannu data ar y cyd.

O gymharu â'r hyn a ddisgwyliwyd, mae cymorth ymgynghori Ffynnon wedi darparu hyfforddiant sydd wedi galluogi defnydd o'r system, wedi darparu help i'w defnyddio'n effeithiol ac wedi galluogi defnyddiau newydd gan randdeiliaid yn arbennig mewn perthynas â rhannu a chyfnewid data. Mae wedi cael effaith lai amlwg hyd yma ar ymagweddau at reoli perfformiad ac effeithlonrwydd ac mae rhywfaint o'r hyfforddiant heb fod mor effeithiol oherwydd nad yw staff wedi defnyddio'r system yn dilyn hynny.

O ganlyniad mae'r cymorth ymgynghori wedi:

- Helpu llawer o'r defnyddwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau;
- Cefnogi staff i'w mabwysiadu a'i chyflwyno ar gyfer rheoli perfformiad a datblygu defnyddiau eraill ar ei chyfer, fel rhannu gwybodaeth a chydweithio;
- Cynorthwyo staff sy'n arwain ar waith rheoli perfformiad i gynyddu eu trefniadau rheoli perfformiad gan ddefnyddio Ffynnon;
- Cymryd lle cymorth ymgynghori y byddai rhanddeiliaid fel arall wedi gorfod ei brynu i mewn.

Fodd bynnag, ar adegau mae wedi gwneud yn iawn am anawsterau technegol wrth ddefnyddio'r system a ffaeleddau technegol yn y system a ddarparwyd.

Nid yw'n hawdd pennu cost effeithiolrwydd y system er y gallwn nodi'r canlynol:

- Mae defnyddwyr yn cael buddiannau costau drwy osgoi rhai costau datblygu a chyflwyno ar gyfer system rheoli perfformiad a chael rhai arbedion ac effeithlonrwydd yn sgîl eu defnyddio;
- Mae rhai defnyddwyr yn cydnabod bod y model prynu wedi darparu gwerth cymharol dda am arian;
- Mae defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio'n cydnabod bod mabwysiadu'r system yn mynnu i ddefnyddwyr fuddsoddi eu hunain yn y costau datblygu ac mae hyn yn mynnu capasiti yn ogystal â chyfle;
- Gallai fod mwy o gost effeithiolrwydd petai defnydd helaethach ymysg rhanddeiliaid lleol. Oherwydd bod y rhain yn debygol o fod yn fuddiannau costau mwy i randdeiliaid cenedlaethol, nid yw'r rhain yn fuddiannau y mae rhanddeiliaid lleol yn eu hystyried.

# 5 Safbwyntiau ar ddyfodol Ffynnon

Yn gyntaf, mae'r adran hon yn cyflwyno safbwyntiau rhanddeiliaid am ddyfodol rhaglen Ffynnon, yna aiff ymlaen i ystyried dyfodol Ffynnon mewn perthynas â safbwyntiau partneriaid strategol. Mae hyn yn tynnu ar farn rhanddeiliaid yn sgîl y cyfweliadau, yr e-arolwg a'r grwpiau ffocws.

Er mwyn nodi opsiynau at y dyfodol, gofynnwyd yn gyntaf i randdeiliaid roi eu barn beth fyddai'r sefyllfa yn absenoldeb Ffynnon. Yna gofynnwyd iddynt am eu barn ar ddull cyflwyno'r rhaglen yn y dyfodol. At hynny, gofynnwyd iddynt awgrymu beth fyddai'r effaith bosibl ar eu sefydliad pe na bai contract Ffynnon (neu ddarpariaeth system debyg) yn cael ei adnewyddu ar ôl mis Rhagfyr 2012. Yna gofynnwyd i randdeiliaid ystyried dewis opsiynau ar gyfer trefniadau cyllido a sut, os o gwbl, yr hoffent i'r rhaglen gael ei datblygu neu ei newid, petai rhaglen Ffynnon, yn ei ffurf bresennol, yn parhau i gael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru.

## 5.1 Barn rhanddeiliaid - trefniadau yn absenoldeb Ffynnon

Mae'r ffaith nad yw'n orfodol defnyddio Ffynnon wedi golygu bod rhanddeiliaid yn defnyddio'r system a'r cymorth ymgynghori mewn amrywiol ffyrdd. Gofynnwyd i randdeiliaid awgrymu beth fyddai'r sefyllfa i'w sefydliad nhw pe na bai rhaglen Ffynnon wedi bod ar gael iddynt. Roedd pedwar categori bras i ymatebion y rhanddeiliaid lleol i'r cyfweliad, ac amlinellir y rhain isod:

- Dywedodd saith o'r awdurdodau lleol *na fyddai eu sefyllfa'n wahanol iawn* i'w trefniadau presennol; yn bennaf, roedd y rhain yn awdurdodau heb unrhyw ymgysylltiad neu ymgysylltiad cyfyngedig â Ffynnon. Felly, byddent yn parhau i ddefnyddio'u system bresennol ar gyfer rheoli perfformiad. Nododd un awdurdod a oedd yn gwneud defnydd cymedrol o system Ffynnon nad oedd y rhaglen, er y bu'n *'wych mewn theori',* wedi eu galluogi i wneud mwy nag y gallent ei wneud o'r blaen mewn perthynas â rheoli perfformiad;

- Dywedodd chwe awdurdod lleol a phob un o'r tri awdurdod tân ac achub ei bod yn debygol y byddent yn *"talu am system rheoli perfformiad arall".* I rai mae'n eglur y byddai wedi bod yn rhaid iddynt brynu system rheoli perfformiad amgen pe na bai Ffynnon ar gael iddynt. I rai mae ymgysylltu â Ffynnon wedi golygu y gellid llunio achos busnes dros fuddsoddi mewn meddalwedd rheoli perfformiad. Mae'r rhain yn tueddu i gredu y byddai bod heb Ffynnon yn gam yn ôl i'w trefniadau rheoli perfformiad;
- Byddai saith awdurdod lleol a'r parciau cenedlaethol yn defnyddio'u trefniadau rheoli perfformiad *papur neu Microsoft Excel* blaenorol. Mae'r farn yn gymysg am y canlyniadau ond yn gyffredinol mae cydnabyddiaeth na fyddai'r rhain yn cynnwys y galluedd ychwanegol a geir gyda Ffynnon fel y gallu i greu dangosfyrddau ac y byddai colli Ffynnon yn gam yn ôl i system berfformiad a ddisgrifiwyd yn "*anhrefn o'i chymharu â'n defnydd presennol o system Ffynnon"* gan un ac yn *"ddychweliad i'r Oesoedd Tywyll"* gan un arall;
- Roedd dau awdurdod lleol yn ansicr a fyddent wedi aros gyda'u system flaenorol a oedd wedi'i seilio ar Excel neu wedi prynu meddalwedd penodol am y tro cyntaf, fodd bynnag roedd un yn amau a fyddai'n gallu dod o hyd i system arall a allai gynnig yr un galluedd â Ffynnon.

Roedd ystod debyg o safbwyntiau ymysg rhanddeiliaid cenedlaethol mewn perthynas â'u systemau rheoli perfformiad ond yn gyffredinol teimlwyd na fyddent yn gallu gwneud trefniadau amgen ar gyfer rhannu data a gwybodaeth a chydweithio gyda rhanddeiliaid lleol hebddi.

## 5.2 Dewis opsiynau cyllido ymysg rhanddeiliaid at y dyfodol

O ystyried na wnaed penderfyniad eto ynghylch cyllido rhaglen Ffynnon yn y dyfodol, gofynnwyd i randdeiliaid awgrymu eu dewis opsiynau at y dyfodol. Rhoddir manylion y rhain isod.

### 5.2.1 Rhanddeiliaid lleol

Yng nghyd-destun toriadau ehangach yn y sector cyhoeddus, mae wedi dod yn fwyfwy anodd i randdeiliaid lleol wneud achos busnes dros gyllido unrhyw beth nad yw'n hanfodol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau oni bai ei fod yn cyfrannu at effeithlonrwydd.

Dau randdeiliad lleol yn unig a ddywedodd y byddent yn talu am Ffynnon tra bod chwe rhanddeiliad lleol y cyfwelwyd â nhw (sy'n gwneud defnydd cymedrol i helaeth o system Ffynnon a defnydd cymedrol o'r cymorth ymgynghori) a thua chwarter o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi awgrymu y *gallent o bosibl* dalu tuag at Ffynnon. Roedd dau o'r rhain o'r farn y byddai eu parodrwydd i dalu am y rhaglen yn dibynnu ar y gost o gadw mewn cysylltiad â'r rhaglen; petai Ffynnon yn rhatach na'r opsiynau amgen byddent yn fwy tebygol o fuddsoddi yn y rhaglen. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain hefyd yn pryderu'n fwy am y system na'r cymorth ymgynghori.

Mae cost a gwerth ymgysylltiad parhaus yn ffactor mawr a fyddai'n dylanwadu ar allu a pharodrwydd i dalu - gydag awgrym y byddai sefydliad yn chwilio am opsiwn amgen rhatach os byddai pris system Ffynnon yn rhy uchel. Fodd bynnag, cydnabu rhai o'r rhanddeiliaid lleol hyn y byddai cael system rheoli perfformiad newydd yn mynnu costau hyfforddiant ychwanegol a chostau staff ar gyfer prynu a gweithredu system newydd. Oherwydd y byddai bwlch sylweddol, *"byddai'n gwneud mwy o synnwyr, os yn bosibl, i barhau i fuddsoddi yn rhaglen Ffynnon"*.

Dywedodd gweddill y rhanddeiliaid lleol a ymatebodd y cwestiwn hwn na fyddent yn talu i barhau â rhaglen Ffynnon (17)[30]. I bum rhanddeiliad lleol roedd hyn oherwydd nad oedd ganddynt unrhyw ymgysylltiad â Ffynnon neu ymgysylltiad cyfyngedig ac ni fyddent yn talu am wasanaeth nad oeddent yn ei ddefnyddio. Roedd y gweddill yn gwneud defnydd cymedrol neu gynyddol o system Ffynnon a'r cymorth ymgynghori a dywedwyd naill ai nad oedd yn debygol y byddai'r arian ganddynt neu y byddent yn amharod i dalu i'r rhaglen barhau er bod rhai hefyd yn cydnabod y byddai'n rhaid iddynt werthuso opsiynau amgen ac y byddent yn colli

[30] Ac oddeutu 40 y cant o'r ymatebwyr i'r e-arolwg.

buddiannau o ran yr hyn y gallent ei wneud gyda'r data a'u gwaith mewn partneriaeth.

Pwysleisiodd tri o'r rhanddeiliaid lleol hyn eu bod am i Lywodraeth Cymru barhau i gyllido'r rhaglen oherwydd yr amser a'r adnoddau roeddent wedi'u buddsoddi yn system Ffynnon hyd yma a'u hanallu i dalu am y rhaglen o'u cyllidebau. I un byddent *"fwy na thebyg yn debygol o ddefnyddio system fewnol 'dros dro'"*; i rywun arall "*byddai'n drychineb petai (Ffynnon) yn diflannu, am ei bod wedi'i llunio o ddim gan awdurdodau a'i datblygu yn ôl y gofynion drwy fuddsoddi'n drwm mewn amser yn yr awdurdodau lleol*".

### 5.2.2 Rhanddeiliaid cenedlaethol

Nid oedd yr holl randdeiliaid y cyfwelwyd â nhw yn rhan o gontract gwreiddiol Ffynnon ac felly mae rhai eisoes yn talu taliad cynnal a chadw blynyddol i ddefnyddio'r system a chael y cymorth ymgynghori felly nid yw'r cwestiwn a fydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r cyllid yn y dyfodol yn uniongyrchol berthnasol iddynt.

I'r rhanddeiliaid cenedlaethol eraill, ystyriwyd bod yr amseru a'r strwythurau sy'n pennu trefniadau cyllidebau'n ffactor cyfrannol mawr mewn perthynas â'r gallu a'r parodrwydd i dalu am raglen Ffynnon yn y dyfodol. Fel y nododd un rhanddeiliad, *"caiff ein cyllidebau eu cytuno'n flynyddol felly ni allwn ymrwymo hyd nes bod gennym syniad o ffigur (oni bai ei fod yn ffigur bach) a beth fydd ein cyllideb"*. Teimlwyd hefyd y byddai eu parodrwydd i dalu i ddefnyddio'r system yn dibynnu ar y gallu i bersonoli'r system a chyflwyno'r gwelliannau gofynnol i'r system.

## 5.3 Dewis opsiynau rhanddeiliaid ar gyfer rhaglen at y dyfodol

Gan symud ymlaen, gofynnwyd i randdeiliaid awgrymu gwelliannau roeddent yn teimlo y byddai'n helpu i sicrhau bod rhaglen Ffynnon yn parhau i ateb anghenion rhanddeiliaid. Nodwyd nifer o welliannau mewn perthynas â rheolaeth strategol ac ymgynghori, ond datblygiadau i'r system oedd y prif ffocws. Nodir y rhain isod.

### 5.3.1 Rheoli'r contract a materion llywodraethu

Roedd rhanddeiliaid o'r farn y gellid gwneud gwelliannau o fewn y rhaglen i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cadw cyfeiriad strategol y rhaglen tuag at ei hamcanion. Awgrymodd pum rhanddeiliad fod y rhaglen yn cael ei llywio gormod gan y contractwr, Coactiva, tra bod llawer o aelodau RhGC yn aneglur pam oedd rhai datblygiadau wedi'u blaenoriaethu uwchben gwella galluedd. Drwy gael arweiniad cliriach ar reoli'r contract a diffinio amcanion strategol y rhaglen, roedd rhanddeiliaid o'r farn y byddai'r materion pwysicaf ynghylch galluedd y system wedi'u trafod yn fwy effeithiol ac y byddai Ffynnon wedi'i halinio'n well i agenda'r llywodraeth. Ystyriwyd bod gwell ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch datblygiadau a gwelliannau yn ffordd o wella ymgysylltiad a sicrhau bod ymwybyddiaeth pam oedd datblygiadau'n digwydd. Awgrymwyd ailsefydlu Grŵp Defnyddwyr Cenedlaethol fel ffordd o gyflawni hyn.

### 5.3.2 Newidiadau i'r cymorth ymgynghori

Ar y cyfan roedd rhanddeiliaid yn hapus gyda'r cymorth ymgynghori a dderbyniwyd gan Coactiva gyda'r cymorth yn cael ei ddisgrifio gan randdeiliaid fel '*rhagweithiol', 'hyblyg, 'cynorthwyol'* ac *'wedi cyrraedd disgwyliadau'*. Ni chodwyd unrhyw bryderon cyffredin; dim ond rhai sylwadau unigol ynghylch cymysgu pobl â gwahanol anghenion mewn sesiynau hyfforddi ac ansawdd y cwrs hyfforddi ASC, er enghraifft.

Fodd bynnag, holodd rhai rhanddeiliaid a ddylid symud cydbwysedd a ffocws y cymorth ymgynghori er mwyn cael mwy o effaith ar y galw ac ar ddefnydd effeithiol o nodweddion Ffynnon. Roedd eithaf tipyn o'r rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol o'r farn y byddai mwy o gydweithio a defnydd o'r system yn cael eu gwireddu petai arfer da'n cael ei gyfathrebu i raddau helaethach. Roedd eraill am weld *"mwy o broffil i Ffynnon a fyddai'n dangos ei photensial i randdeiliaid drwy hysbysebu a marchnata'r rhaglen yn fwy"* a *"mwy o ymwybyddiaeth o'i rôl mewn cydweithio a rhannu data*".

### 5.3.3 Datblygu'r system

Roedd gan lawer o randdeiliaid anawsterau o ran adrodd a thynnu data i mewn o systemau eraill a nodwyd y rhain yn ddiffygion mawr yn y system yr oedd angen gweithredu arnynt. Roedd llawer o'r farn bod y rhain yn faterion sylfaenol y dylid bod wedi mynd i'r afael â nhw'n gynharach fel y byddai'r system yn well am gefnogi rheoli perfformiad. Ystyriwyd bod yr elfen adrodd yn arbennig o bwysig oherwydd mai dyma'r prif declyn ar gyfer atebolrwydd a dyma yw'r "*agwedd ar Ffynnon sy'n cael ei gweld o'r tu allan*".

Nododd rhai rhanddeiliaid fod llywio Ffynnon yn anhawster, a oedd yn ei gwneud yn llai cyfeillgar i'r defnyddiwr nag y dylai fod. I rai, y goeden lywio oedd y brif broblem; roedd un awdurdod wedi datblygu sgrin flaen a oedd yn hawdd i'w llywio ar gyfer eu defnyddwyr er mwyn goresgyn yr anhawster hwn, tra bod eraill o'r farn y gellid gwella dulliau llywio'r dangosfwrdd.

Ymhlith gwelliannau mwy penodol i'r system a awgrymwyd gan rai roedd y canlynol:

- Y gallu i gynnwys data ariannol, i ddangos mewnbwn;
- Cynnwys a diweddaru setiau data cenedlaethol a boblogwyd yn flaenorol yn awtomatig;
- Lleihau dyblygu drwy alluogi adrodd unwaith yn unig;
- Llwytho data'n awtomatig o systemau rheoli perfformiad eraill; ac
- Ymwybyddiaeth well yn y system o'r edeifion sy'n cysylltu data.

Roedd barn gymysg ynghylch ymatebolrwydd Coactiva i awgrymiadau i broblemau'r system. Er bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn hapus gydag ymateb Coactiva a'r cymorth technegol a dderbyniwyd, roedd o leiaf pum rhanddeiliad o'r farn nad oedd cyflymder yr ymateb i awgrymiadau i ddatblygu'r system bob amser fel y dylai fod ac nad oedd Coactiva bob amser yn gwrando ar yr hyn roedd rhanddeiliaid am ei gael o'r system.

Roedd ymdeimlad ar hyn o bryd os bydd rhanddeiliad yn awgrymu datblygiad sylweddol i Coactiva nad yw'r mater bob amser yn cael ei ystyried yn llawn *"hyd nes bod digon o randdeiliaid yn cysylltu i adrodd yr*

*un mater”.* Oherwydd bod rhanddeiliaid wedi cyrraedd mannau gwahanol gyda’u systemau a’u prosesau rheoli perfformiad, os yw un rhanddeiliad yn bellach drwy’r broses gallai fod angen iddo aros o bosibl hyd nes i randdeiliaid eraill gyrraedd yr un cam datblygu cyn i ddefnyddwyr eraill ei ystyried yn rheidrwydd. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o randdeiliaid yn cydnabod nad yw Coactiva’n gallu gweithredu ar bob cais a bod y camau y gofynnwyd amdanynt fwyaf yn flaenoriaeth.

I wella’r broses mewn perthynas â gwelliannau i’r system, awgrymwyd y dylid rhannu unrhyw argymhellion a gyflwynwyd i Coactiva ar gyfer gwella’r system i holl randdeiliaid eraill y rhaglen, ni waeth faint o gynnydd a wnaed ganddynt ar y system, fel y gallent ystyried a allai fod o gymorth iddynt yn y dyfodol ac felly cyflymu’r broses ddatblygu, os yn briodol.

Roedd rhai rhanddeiliaid o’r farn bod angen i’r system allu sicrhau bod y dull mewngofnodi data’n fwy unffurf ar draws holl awdurdodau lleol Cymru o ystyried y posibilrwydd y byddai mwy o wasanaethau’n cael eu rhannu a meysydd gwasanaeth yn cael eu huno, a gallai’r system hwyluso cydberchnogaeth rhai camau neu risgiau a bennir rhwng sefydliadau.

5.4 Safbwyntiau strategol ar ddyfodol Ffynnon

Mae rhanddeiliaid cenedlaethol o’r farn bod gan Ffynnon fwy o botensial i gyflawni effeithlonrwydd a chyfrannu at strategaeth Llywodraeth Cymru i weld gwelliant yn y sector cyhoeddus.

O fewn cyd-destun polisi llywodraeth leol a diwygio a gwella gwasanaethau cyhoeddus, mae’n bwysig archwilio’r potensial i Ffynnon gefnogi Llywodraeth Cymru a’i phartneriaid cenedlaethol i gyflawni ei nodau strategol a sefydliadol, a gwireddu ei dyheadau polisi. Yn erbyn cefndir o lywodraeth Lafur sydd wedi’i sefydlu’n ddiweddar ac adolygiad o amcanion strategol, mae Llywodraeth Cymru’n canolbwyntio ar hyn o bryd ar yr angen i gyflawni’r dyheadau a nodwyd, er enghraifft, yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, a’r Ddeddf Llywodraeth Leol a rhoi mwy o ffocws ar atebolrwydd drwy ddatblygu Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru sydd yn y camau sefydlu terfynol ac a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2011.

Ymhlith yr ystyriaethau allweddol at y dyfodol y mae rhanddeiliaid cenedlaethol wedi tynnu sylw atynt mae'r canlynol:

- Symleiddio prosesau adrodd a chraffu: Amlygodd adolygiad Beecham y baich adrodd a strwythurau cysylltiedig i gyfnewid data rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae enghreifftiau o achosion lle mae Ffynnon yn cefnogi trosglwyddo data rhwng awdurdodau lleol a Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn galluogi archwiliadau'n dangos sut gellir defnyddio'r system ynghyd â'r potensial i hyn ddatblygu ymhellach gyda chyrff eraill;
- Atgyfnerthu'r berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol: ystyrir bod parhau'r daith tuag at lwyfan Cymru gyfan yn ddymunol gan lawer oherwydd ei bod yn darparu mwy o gysylltiadau rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol fel y dangosir gan y Pecyn Data Ysgolion. Credir bod llawer mwy o botensial pellach i ddenu mwy o randdeiliaid lleol, fel cyrff iechyd a'r heddlu, a rhannau o'r Llywodraeth. Byddai hyn hefyd yn cynyddu'r arbedion maint;
- Cefnogi gwella llywodraeth leol: mae'r sefydliadau sy'n cefnogi awdurdodau lleol i wella'n credu bod gan Ffynnon rôl fwy o bosibl fel "galluogwr" drwy sbarduno awdurdodau lleol i adolygu a diwygio'u prosesau, a chynhyrchu ffocws sefydliadol ar wella perfformiad. Er bod rhywfaint o welliant wedi'i weld yng nghyrff rhai rhanddeiliaid lleol ynghyd â ffocws cliriach ar reoli perfformiad, nid yw hyn wedi'i wireddu ar draws y bwrdd eto.

Mae adborth gan randdeiliaid wedi nodi'n amlwg angen am arweinyddiaeth a chydlyniant strategol ar gyfer Ffynnon naill ai gan Lywodraeth Cymru neu WLGA, ac i gyflawni enillion yn y dyfodol yn sgîl y rhaglen hon, dyma fydd y man cychwyn hollbwysig i wneud cynnydd.

## 5.5 Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Yn absenoldeb Ffynnon, byddai tua thraean o'r rhanddeiliaid lleol wedi prynu system arall i mewn a byddai traean arall wedi aros gyda system y mae rhai yn cydnabod na fyddai mor effeithiol;

- Fodd bynnag, un o bob wyth rhanddeiliad lleol yn unig a fyddai'n neu a fyddai o bosibl yn talu am Ffynnon;
- Mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid lleol yn dymuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i dalu am Ffynnon; a nodant y byddai rhoi terfyn ar ei chefnogaeth ariannol i'r system yn achosi bwlch yn eu gwaith gwella ynghyd â chryn gostau;
- Yn ogystal â rôl gyllido, roedd rhanddeiliaid am weld mwy o ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru o ran darparu arweinyddiaeth strategol i raglen Ffynnon;
- Awgrymodd rhanddeiliaid rai gwelliannau allweddol i system Ffynnon. Roedd y rhain yn amrywio o 'fanion' technegol, i faterion mwy sylweddol fel gwella'r galluedd llywio, adrodd a rhannu;
- Awgrymodd rhanddeiliaid rai newidiadau i ffocws y cymorth ymgynghori i ddarparu'r gallu i rannu arfer da i gynyddu'r galw a'r defnydd effeithiol o Ffynnon;
- Mae rhanddeiliaid cenedlaethol yn cydnabod rhesymau ac anghenion strategol dros raglen Ffynnon y mae ganddynt y potensial i esgor ar effeithlonrwydd drwy wneud defnydd ar y cyd o'r system rhwng rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol ar raddfa fwy na'r hyn a gyflawnir ar hyn o bryd.

# 6 Crynodeb o'r gwerthusiad, opsiynau ac argymhellion at y dyfodol

Mae'r adran hon yn tynnu ynghyd yr wybodaeth a gasglwyd drwy gydol yr astudiaeth hon er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd ar gyfer y gwerthusiad. Mae'r adran hon hefyd yn nodi rhai negeseuon allweddol mewn perthynas â rhaglen Ffynnon, yn ogystal â chyflwyno opsiynau at y dyfodol ac argymhellion cysylltiedig.

## 6.1 Crynodeb o'r gwerthusiad

Mae adran 5 yn nodi barn rhanddeiliaid a phartneriaid strategol ar ddyfodol rhaglen feddalwedd a chymorth ymgynghori ar draws Cymru gyfan. Mae'r gwerthusiad yn dangos bod awydd pendant ar draws y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus i system feddalwedd barhau i gefnogi eu gweithgareddau rheoli perfformiad, hwyluso casglu data a monitro a galluogi adrodd.

### 6.1.1 Cryfderau'r rhaglen bresennol

Nodir y canlynol fel cryfderau allweddol y rhaglen bresennol mewn perthynas â'r cwestiynau allweddol.

Gweithredu a rheoli

- Mae'r rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid bwriadedig ac eraill yn defnyddio'r system ac mae defnydd ohoni'n cynyddu;
- Mae nodweddion ehangach y system yn cael eu defnyddio;
- Mae tua thraean o'r rhanddeiliaid lleol wedi ei defnyddio ac maent yn ei defnyddio i ddatblygu eu trefniadau rheoli perfformiad;
- Mae'r cymorth ymgynghori wedi cefnogi defnydd a chynyddu'r defnydd gan gynnwys defnyddio dulliau cydweithio a rhannu data i dynnu partneriaethau at ei gilydd;
- Yn gyffredinol mae adborth cadarnhaol ymysg defnyddwyr am y cymorth ymgynghori;

- Caiff y gwaith o ddatblygu'r system ei reoli gydag ymgysylltiad gweithgar gan randdeiliaid ac mae'r trefniadau llywodraethu'n cynnwys defnyddwyr wrth ddyrannu adnoddau;
- Mae defnydd am ddim i randdeiliaid lleol wedi bod yn gymhelliant ynghyd â chontract nad yw wedi esgor ar unrhyw gostau cyflwyno parhaus i ddefnyddwyr.

Perfformiad y system

- Mae'r sawl sy'n gwneud defnydd helaeth a defnydd cynyddol yn fodlon ar y system ar y cyfan a'r gwerth ychwanegol mae'n ei roi ar gyfer eu gweithgareddau rheoli perfformiad;
- Hyblygrwydd y system, gan alluogi defnyddwyr i'w theilwra at eu hanghenion eu hunain;
- Y cyfleuster i gofnodi data unwaith a'i ddefnyddio sawl gwaith i symleiddio prosesau adrodd – gwerthfawrogir hyn yn fawr;
- Mae'r defnyddwyr helaeth wedi nodi effeithiau a buddiannau cadarnhaol ar gyfer eu trefniadau rheoli perfformiad; ar y cyfan mae wedi atgyfnerthu ffocws ar reoli perfformiad a sbarduno adolygu a gwella trefniadau sy'n bodoli eisoes;
- Mae rhanddeiliaid cenedlaethol wedi nodi effeithiau cadarnhaol yn sgîl rhannu data a chydweithio;
- Mae rhanddeiliaid cenedlaethol yn cydnabod mwy o fuddiannau posibl drwy gefnogaeth y system ar gyfer y FfGP.

Costau a deilliannau

- Mae costau'r system yn cymharu'n dda ag opsiynau eraill ac mae hyn yn arbennig o wir o'i chymharu â newid ar ôl buddsoddi yn Ffynnon;
- Ni fyddai angen i'r ôl-gostau o'u cymharu â chost y system fod yn uchel ym mhob rhanddeiliad.

6.1.2 Heriau'r rhaglen bresennol

Mae'r canlynol wedi'u nodi fel yr heriau neu'r meysydd i'w gwella yn y rhaglen bresennol mewn perthynas â'r cwestiynau allweddol:

Gweithredu a rheoli

- Nid yw'n cael ei defnyddio'n helaeth eto;
- Mae rhai rhanddeiliaid nad ydynt yn debygol o'i defnyddio a gallai hyn effeithio ar ei heffaith bosibl;
- Mae'r amgyffrediad o alluedd y system yn rhwystr;
- Mae cyfle a chapasiti mewn rhai rhanddeiliaid lleol wedi arafu graddau'r mabwysiadu a'i defnydd effeithiol;
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch arweinyddiaeth, rhannu arfer da a chyflymder a blaenoriaeth gwelliannau galluedd;
- Nid oes digon o wybodaeth reoli ar gael am y gwaith ymgynghori.

Perfformiad systemau

- Mae problemau gweithredol wedi cyfyngu defnydd;
- Ni fu'n hawdd nodi effeithiau ar linell waelod rhanddeiliaid;
- Byddai angen i randdeiliaid fuddsoddi ymhellach i gyflawni'r buddiannau posibl a ddisgwyliwyd drwy rannu data ar draws y sector cyhoeddus.

Costau a deilliannau

- Costau a buddiannau lleol y mae rhanddeiliaid lleol yn eu hystyried yn eu cyfranogiad yn Ffynnon; gallai'r buddiannau i randdeiliaid cenedlaethol fod yn fwy;
- Un ffactor yn unig wrth arwain at wella yw'r system ac mae gofyn i ddefnyddwyr fuddsoddi eu hunain os ydynt am ei gweithredu'n effeithiol ac esgor ar fuddiannau (fel gydag unrhyw system TG arall).

## 6.2 Opsiynau at y dyfodol

Un o nodau cyffredinol y gwerthusiad oedd cefnogi partneriaid strategol i wneud penderfyniad cyn i gontract presennol Ffynnon ddod i ben ym mis

Rhagfyr 2012. Nodwn yr opsiynau isod at y dyfodol, ac amlygwn y tybiaethau sy'n sail i'r rhain.

*Y penderfyniad a ddylid caffael*

Y cwestiwn cyntaf i bartneriaid strategol Ffynnon ei ateb yw a ddylid bwrw ymlaen i gaffael rhaglen ar hyd llinellau contract Ffynnon ai peidio.

Mae tystiolaeth yr astudiaeth yn dangos bod Ffynnon wedi darparu rhai buddiannau i'r defnyddwyr sy'n gwneud defnydd helaeth neu gymedrol o'r rhaglen. Mae pum ffactor o blaid bwrw ymlaen.

Yn gyntaf, mae'r potensial i wireddu mwy o fuddiannau ar ôl *"mynd drwy'r boen o osod Ffynnon a dechrau gweld y manteision"* mewn rhanddeiliaid lleol a rhanddeiliaid cenedlaethol yn dechrau gweld cost effeithiolrwydd Ffynnon.

Yn ail, byddai buddiannau'n cael eu colli os na fydd yn parhau oherwydd na fydd llawer yn gallu ei disodli'n hawdd os o gwbl ar gyfer eu gwaith rheoli perfformiad ac mae'n bosibl y byddai'n rhaid iddynt *"gymryd rhai camau yn ôl ar eu taith"*.

Yn drydydd mae'r costau a gâi eu gwastraffu pe na bai'r system ar gael a byddai angen dod o hyd i opsiynau amgen a buddsoddi ynddynt.

Yn bedwerydd mae cost enw da o ystyried eu bod wedi'u hannog i ddefnyddio'r system gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol eraill.

Yn bumed mae rhesymau polisi cenedlaethol o hyd dros gefnogi rhanddeiliaid lleol i wella'u perfformiad a gweithio ar y cyd.

*Pwy fydd yn cyllido ac yn rheoli'r contract?*

Mae angen i reolaeth y contract ddilyn trywydd penderfyniadau ynghylch cyllid. Mae tri opsiwn bras ar gyfer contractio os penderfynir parhau â theclyn rheoli perfformiad/rhannu data ar gyfer rhanddeiliaid y sector cyhoeddus yng Nghymru: contract Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus (yn debyg i'r trefniant presennol); contract llywodraeth leol ar y cyd ar gyfer rhanddeiliaid lleol y gallai rhanddeiliaid cenedlaethol brynu i

mewn iddo; contract Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanddeiliaid cenedlaethol y gallai rhanddeiliaid lleol brynu i mewn iddo.

Mae'n ymddangos mai'r canlynol yw'r materion allweddol sy'n sail i gwestiynau ynghylch cyllid a siâp unrhyw gontract yn y dyfodol:

- Cwmpas a graddau'r buddiolwyr;
- Pa agweddau ar y system sy'n darparu buddiannau i ddefnyddwyr a graddau cymharol y rhain;
- P'un a yw'r buddiannau ar y cyd yn fwy na'r buddiannau i ddefnyddwyr unigol.

Ar yr adeg hon mae'n ymddangos:

- Bod y system yn darparu buddiannau i bob defnyddiwr ond nad yw'r rhanddeiliaid lleol nad ydynt yn defnyddio'r system yn gweld unrhyw fuddiannau uniongyrchol;
- Gall rhanddeiliaid cenedlaethol a rhannau o Lywodraeth Cymru gael buddiannau uniongyrchol yn sgîl rhannu'r data ond nid yn sgîl y teclynnau rheoli perfformiad;
- Gallai'r buddiannau hyn fod yn sylweddol yn y tymor canolig ond maent yn dibynnu ar randdeiliaid lleol sy'n defnyddio'r system;
- Byddai llai o randdeiliaid lleol yn prynu i mewn i'r system petai gofyn iddynt bwyso a mesur y costau a'r buddiannau o'u hochr nhw;
- Byddai datrysiad Cymru gyfan yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer trefniadau sefydliadol a phartneriaethau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Mae dosbarthiad cymharol y buddiannau'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru barhau i arwain ymagwedd gydweithredol ac ystyried un cwestiwn yn unig, sef a ddylai rhanddeiliaid cenedlaethol a/neu leol wneud cyfraniad tuag at gyfran o gyfanswm costau'r system neu'r cymorth ymgynghori. O ystyried arbedion maint y contract presennol mae'n bosibl na fydd angen gwneud hyn er y gallai pennu cost y gellir rhoi cyfrif amdani ar gyfer pob defnyddiwr wneud iddynt ddangos gwerth y system iddynt.

Mae rhanddeiliaid lleol yn fwy tebygol o ystyried ei bod yn rhesymol cyfrannu at gostau cymorth ymgynghori nag at gost y system mewn rhai amgylchiadau.

*Pa olwg fydd ar y datrysiad?*

Gan dybio y bydd yr ymarfer caffael yn mynd yn ei flaen, y cwestiwn nesaf yw a ddylai adlewyrchu rhaglen bresennol Ffynnon neu a ddylid gwneud newidiadau i siâp y contract. Mae tri phrif opsiwn wedi'u nodi:

a) Parhau â'r sefyllfa bresennol: datblygiad a chefnogaeth ar gyfer y system feddalwedd a chymorth ymgynghori i alluogi'r system i gael ei gweithredu a'i defnyddio'n effeithiol a chyfuno hyn mewn contract unigol;

b) Ymestyn y contract: i ddarparu cyfraddau cymorth ymgynghori a datblygu yn ôl y galw ar gyfer defnyddiau newydd o'r system ar gyfer Llywodraeth Cymru ac unrhyw bartneriaid eraill;

c) Contractio elfennau'r rhaglen ar wahân: mae rhywfaint o'r cymorth ymgynghori os oes ei angen nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â Ffynnon.

Bydd yn bwysig cynnal rhai o fuddiannau elfennau'r trefniadau contractio presennol a lleiafu unrhyw broblemau wrth drosglwyddo i lwyfan arall. Mae'n ymddangos mai dyma yw'r buddiannau allweddol:

- Gwelliannau a diweddariadau i bob defnyddiwr yn ystod oes y contract;
- Nifer diderfyn o drwyddedau defnyddwyr o fewn y sefydliadau rhanddeiliaid enwebedig;
- Adnoddau ymgynghori hyblyg.

Os yw'r cymorth ymgynghori'n cefnogi datblygu system Ffynnon byddai'n ymarferol cadw contract unigol. Ar sail y dystiolaeth mae'n ymddangos bod mantais disgwyl i'r cymorth ymgynghori hyrwyddo a rhannu arfer da a symud i ffwrdd o roi hyfforddiant mewn teclynnau rheoli perfformiad yn gyffredinol nad yw wedi creu llawer o effaith amlwg.

## 6.3 Argymhellion

Argymhellir y canlynol:

- Dylid caffael system ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru sy’n adeiladu ar gyflawniadau Ffynnon ac sy’n helpu i wireddu’r buddiannau sydd ar y gweill;
- Os na all Llywodraeth Cymru gyllido’r system, dylid ond disgwyl i ddefnyddwyr gyfrannu i lefel sy’n adlewyrchu eu cyfran o’r buddiannau a chostau’r cymorth ymgynghori y byddent yn elwa’n uniongyrchol wrtho.

Os am gefnogi’r system yn y tymor canolig, yna argymhellir y canlynol ar gyfer y byrdymor:

- Dylai Llywodraeth Cymru gymryd rôl arwain gliriach o ran cyfathrebu am y contract, monitro perfformiad a chydlynu’r cymorth ymgynghori;
- Byddai disgwyl i’r contractwr ganolbwyntio ar ddatrys materion gweithredol y system a sicrhau nad yw’r rhain yn cael eu hystyried yn llai o flaenoriaeth na datblygiadau mwy;
- Dylid gwneud mwy i hyrwyddo cyflwyno a defnyddio’r system yn effeithiol, o bosibl gyda chanllawiau arfer da ynghylch sut gall Ffynnon gefnogi rheoli perfformiad neu ganllawiau ‘sut i…’ ar gyfer agweddau ar ddefnyddio’r system;
- Dylai’r contractwr ddatblygu a gweithredu arolwg blynyddol i ddefnyddwyr i alluogi rhanddeiliaid i roi adborth am eu profiadau a gwneud awgrymiadau at y dyfodol. Gallai hyn fod yn arolwg SNAP sylfaenol ar-lein i gipio adborth defnyddwyr mewn ffordd fwy strwythuredig;
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system i gipio cynnyrch sylfaenol ac annog defnyddwyr i gipio cynnyrch yn fwy systemataidd. Fel man cychwyn dylai fod disgwyl i’r contractwr gofnodi nifer y defnyddwyr, nifer y sesiynau hyfforddi a gyflwynir a nifer y cyfranogwyr.

## ATODIADAU

A. Tabl trosolwg o ddefnydd rhanddeiliaid o'r system a'r cymorth ymgynghori

B. Cyfeiriadau

C. Canllaw i Bynciau Cyfweliadau Rhanddeiliaid

Ch. Templed yr E-arolwg

D. Nodyn canllaw grŵp ffocws

Dd. Modelau Logic

# ATODIAD A - TROSOLWG O GYFRANOGIAD YN Y RHAGLEN

| Rhanddeiliad | Disgrifiad o'i ddefnydd o'r system | Disgrifiad o'i ddefnydd o'r cymorth ymgynghori |
|---|---|---|
| *Awdurdodau Lleol* | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Helaeth – gan adeiladu ar y defnydd cychwynnol mae'r system yn cael ei chyflwyno ar lefel gorfforaethol | Defnydd helaeth - ASC, gweithdai SPRINT, hyfforddiant a deunyddiau ar y system, hyfforddiant GIS |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cyfyngedig – wedi peilota'r cynllun mewn un gyfarwyddiaeth ond heb ei mabwysiadu. Yn hytrach defnyddir Microsoft Share Point | Dim defnydd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Helaeth - system wedi'i gwreiddio ar draws y sefydliad | Cyfyngedig – Rhywfaint bach, cymorth cychwynnol ar y system a rhywfaint o hyfforddiant ASC |
| Cyngor Sir Caerdydd | Cyfyngedig – defnyddir System Gwybodaeth Caerdydd (CIS) | Cyfyngedig – Cymorth yn y lle cyntaf wrth ystyried Ffynnon fel system ar gyfer y Cyngor |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Cyfyngedig - defnyddiwyd Corvu yn flaenorol, bellach yn defnyddio system data gwybodaeth rheoli prosiectau (PIMS) ochr yn ochr â systemau a drafodir â llaw ar Excel i'w hategu | Helaeth – defnydd helaeth o'r cymorth ymgynghori ar lefel gorfforaethol – gweithdai system LEAN, ASC, gweithdai cynllunio corfforaethol |
| Cyngor Sir Ceredigion | Cymedrol/Ar gynnydd – gweithredwyd y system tua 12 mis nôl, ac mae ei defnydd yn cynyddu ar draws y Cyngor | Helaeth – Cyrchwyd rhai elfennau e.e. Hyfforddi'r Hyfforddwr, un neu ddwy o raglenni hyfforddi, hyfforddiant E-ffurflenni a rhywfaint o gymorth technegol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Cymedrol/Ar gynnydd – Defnyddir y system yn y ganolfan gorfforaethol, gyda chynnydd yn y defnydd mewn adrannau. Mae'r system yn cefnogi gweithgarwch archwilio | Cymedrol – Cyrchwyd gweithdai SPRINT |
| Cyngor Sir Ddinbych | Helaeth – Defnyddir Ffynnon fel system graidd i gasglu data a choladir data'n ganolog | Helaeth - hyfforddiant cychwynnol, gweithdy ar gyfer datblygu gwasanaethau'r Priffyrdd ar y Cyd â Chonwy, mapio prosesau |
| Cyngor Sir y Fflint | Cymedrol – Defnyddir yn ganolog yn nid yn eang ar draws yr awdurdod, gwnaed penderfyniad i gwtogi ar y lefel fwriadedig o weithredu ar lefel gorfforaethol | Cymedrol – Gweithdai SPRINT yn bennaf, ond nid yn helaeth |
| Cyngor Gwynedd | Helaeth – mae'r system wedi'i gwreiddio ar draws yr awdurdod | Dim defnydd |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cymedrol – Pocedi o ddefnydd. Camau cynnar o ran defnyddio'r system at ddibenion rheoli perfformiad. | Cymedrol – Hyfforddiant cychwynnol; cymorth ymgynghori cychwynnol mewn perthynas â system cynllunio a monitro busnes ar gyfer y gwasanaeth tai |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Cymedrol/Ar gynnydd – Defnyddir y system yn ganolog gan y tîm corfforaethol; rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad. | Cymedrol/Ar gynnydd – Hyfforddiant cychwynnol; gweithdai SPRINT, trafodaethau'n parhau ar gyfer hyfforddiant ASC |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Fynwy | Cyfyngedig / Ar gynnydd – wedi peilota'r system i gychwyn ond arweiniodd ailstrwythuro mewnol at ddefnydd mympwyol; fe'i defnyddiwyd yn fwy diweddar ar gyfer Cytundebau Canlyniadau, a chaiff ei defnyddio ar gyfer gwaith mewn partneriaeth. Adrannau'n defnyddio systemau eraill e.e. SWIFT | Cyfyngedig/Ar gynnydd – Hyfforddiant cychwynnol; ymgysylltiad diweddar gydag ymgynghorwyr i ddatblygu defnydd o Ffynnon ar gyfer gwaith mewn partneriaeth |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Cyfyngedig - 2 adran yn ei defnyddio'n gorfforaethol ond mae defnydd corfforaethol wedi gostwng oherwydd anghydnawsedd rhwng Ffynnon a'r fframwaith perfformiad corfforaethol | Cymedrol – Rhywfaint o ddefnydd, cymorth ar y system i gychwyn, gweithdai ASC |
| Cyngor Sir Casnewydd | Ddim yn ei defnyddio | Ddim yn ei defnyddio |
| Cyngor Sir Penfro | Cymedrol – Defnyddir ar draws yr Awdurdod ond mae graddau'r defnydd yn amrywio fesul adran; mae'r system yn cefnogi adrodd i Lywodraeth Cymru | Cymedrol – Hyfforddiant cychwynnol; mapio prosesau yn yr adrannau Tai a Chynllunio; hyfforddiant SPRINT |
| Cyngor Sir Powys | Cymedrol – fe'i defnyddir ar draws yr Awdurdod ond i lefelau amrywiol; mae'r holl DPion yn y system ond mae adrannau'n penderfynu sut caiff eu data ei ddefnyddio. Defnyddiwyd PB View yn flaenorol | Cyfyngedig – hyfforddiant cychwynnol yn unig |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Cymedrol – defnyddir ar draws yr holl dimau ar gyfer coladu DPion, llai o ddefnydd ar gyfer galluedd dadansoddi. Rhywfaint o ddefnydd adrannol ar gyfer rheoli prosiectau | Cymedrol - Hyfforddiant cychwynnol; hyfforddiant ASC; gweithdai SPRINT |
| Abertawe (Cyngor Dinas a Sir) | Cymedrol/Ar gynnydd – Mae cyflwyno'r system yn raddol wedi arwain at ddefnydd amrywiol ar draws adrannau | Helaeth – Hyfforddiant cychwynnol; Sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr; hyfforddiant SPRINT a hyfforddiant ASC |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | Cymedrol – Defnyddir ar lefel gorfforaethol ar gyfer archwilio allanol / adrodd ar Gytundebau Canlyniadau | Cymedrol - Hyfforddiant cychwynnol ar gyfer cydlynwyr perfformiad a gweinyddwyr; hyfforddiant ASC |
| Cyngor Bro Morgannwg | Helaeth – Mae Ffynnon wedi'i gwreiddio ar draws yr awdurdod. Dyma un o'r rhanddeiliaid pennaf o ran y defnydd a wnaiff o'r system. | Helaeth – gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol ar y system, hyfforddiant dangosfwrdd, sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr. Fodd bynnag, gwneir hyfforddiant perfformiad strategol a chynllunio busnes yn fewnol |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cymedrol – Defnyddir yn helaeth ar draws yr awdurdod ond i raddau cyfyngedig – defnyddir ar gyfer dangosyddion cenedlaethol / lleol a gwybodaeth gorfforaethol. Annhebygol o gael ei chyflwyno'n ehangach. | Cymedrol – Hyfforddiant cychwynnol mewn Hyfforddi'r Hyfforddwr; mapio prosesau ar gyfer amrywiol adrannau |
| *Rhanddeiliaid eraill* | | |
| Set Ddata Graidd Cymru Gyfan | Helaeth – defnyddir gan holl ysgolion Cymru; unig ffynhonnell data craidd ar gyfer Llywodraeth Cymru | Helaeth – cymorth ar gyfer datblygiad SDdGCG, canllawiau hyfforddi a chwestiynau a ofynnir yn aml. |

| | | |
|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Ar gynnydd / Helaeth – defnyddir y system i rannu data ar draws Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, un rhan o bump o'r staff yn ei defnyddio | Cymedrol - hyfforddiant cychwynnol a gosod; hyfforddiant ASC |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | Cyfyngedig – defnyddir fel adnodd i rannu dogfennau'n bennaf | Cyfyngedig - hyfforddiant cychwynnol yn unig |
| Cymdeithas Tai Clwyd | Dim defnydd | Dim defnydd |
| Estyn | Dim defnydd | Dim defnydd |
| Uned Ddata Llywodraeth Leol | Dim defnydd | Dim defnydd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Helaeth – ymunwyd â'r system yn ddiweddar, ac fe'i defnyddir erbyn hyn ar draws yr holl adrannau ar gyfer gwaith mewn partneriaeth. Defnyddiwyd CORVU yn flaenorol | Helaeth – llawer o sesiynau hyfforddi dros gyfnod o 2 fis; hyfforddiant ASC |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Dim defnydd - defnyddir AFON | Dim defnydd |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cymedrol/Ar gynnydd – ymgysylltiad cynnar, Strategaeth Gorfforaethol i'w monitro drwy Ffynnon | Helaeth - hyfforddiant cychwynnol; hyfforddiant wedi'i dargedu'n benodol; sesiynau ar y cyd â pharciau cenedlaethol eraill |
| Grŵp Tai Pennaf | Cyfyngedig/Ar gynnydd – ymgysylltiad cychwynnol fel cynllun peilot. Bwriad i gyflwyno'r system o fis Rhagfyr 2011 | Cymedrol - hyfforddiant cychwynnol; hyfforddiant ASC |
| Parc Cenedlaethol Eryri | Helaeth – yn arbennig yn y Gwasanaethau Corfforaethol a Chynllunio. | Helaeth - hyfforddiant cychwynnol; cymorth parhaus ar gyfer gweithredu; hyfforddiant ASC |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | Dim defnydd – defnyddir Vision ac OWLE | Cyfyngedig – Hyfforddiant ASC |
| Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | Cyfyngedig/ar gynnydd – yn y tîm busnes yn unig i gychwyn ond erbyn hyn codir ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad | Cymedrol – ambell sesiwn ASC sydd wedi mynd i lefel rheolwyr erbyn hyn |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyfyngedig / ar gynnydd – defnyddir yn bennaf ar gyfer rhannu dogfennau, ond mae defnydd ar gynnydd ar draws y sefydliad | Cyfyngedig – hyfforddiant cychwynnol ar y system; adeiladu fframweithiau / dangosfyrddau |
| Cyngor Gofal Cymru | Cyfyngedig – dim ond yn ddiweddar y prynwyd y system, mae'n rhan o brosiect ehangach ar Reoli Perfformiad mae'r sefydliad yn ei redeg dros 18 mis | Cyfyngedig - hyfforddiant cychwynnol yn unig |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Cymedrol – defnyddir ar gyfer archwilio o bell, a dim ond os bydd yr holl ALlau yn ymgysylltu y caiff ei defnyddio'n helaeth | Dim defnydd |

| | | |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | **Nid yw Llywodraeth Cymru'n gydnaws â'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn** | |

## ATODIAD B - CYFEIRIADAU


- Coactiva, 2010, Adroddiad Cynnydd Bwrdd Rhaglen Ffynnon
- Coactiva, 2010, Adroddiad Diwedd Blwyddyn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ffynnon 2010/2011
- Coactiva, 2011, Cynllun Rhaglen Ffynnon 2011/12
- Local Government Leadership Centre, 2011, "Local, Regional, National: what services are best delivered where?"
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005, *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n canolbwyntio ar y Dinesydd yng Nghymru*
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005, Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, Arweiniad i Awdurdodau Lleol, Cylchlythyr 28/2005
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Datrysiad Meddalwedd Rheoli Perfformiad i Gymru Gyfan, Gwahoddiad i Dendro
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, *Creu'r Cysylltiadau* – *Cyflawni ar draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007, *Rhannu Cyfrifoldeb: Cyfraniad Llywodraeth Leol i Wella Bywydau Pobl*
- Llywodraeth Cymru, 2011,
- *Pasiwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Mawrth 2011 a chafodd ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi mewn Cyngor ar 10 Mai 2011*

## ATODIAD C - CANLLAW I BYNCIAU CYFWELIADAU RHANDDEILIAID

# Gwerthusiad o Ffynnon

GHK Consulting Ltd ar ran Llywodraeth Cymru

Canllaw i Bynciau Cyfweliadau Rhanddeiliaid

G H K

30, St Pauls Square
Birmingham
B31 QZ
T +44 (0) 121 2338900
Ff +44 (0) 121 2120308
jane.sanderson@ghkint.com
www.ghkint.com

**Gwerthusiad o Ffynnon – Canllaw i Bynciau Cyfweliadau Rhanddeiliaid**

Nod y canllaw pynciau hwn yw strwythuro'r cyfweliadau â rhanddeiliaid. Bydd y cyfweliadau'n lled-strwythuredig o ran eu natur, am fod ehangder ac amrywiaeth y defnydd o raglen Ffynnon (o ran y system a'r cymorth ymgynghori) yn golygu bod yn rhaid i ni ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd. Bydd yn rhaid i'r cyfwelydd lunio barn ynghylch addasrwydd rhai cwestiynau, a theilwra'r cyfweliad yn unol â hynny. Gallai hyn ddibynnu ar:

- Rôl a chefndir y cyfwelai;
- Hyd y cyfranogiad, a graddau a natur y defnydd o elfennau o raglen Ffynnon;
- Y sefydliad mae'r rhanddeiliad yn ei gynrychioli, ei swyddogaeth, ei bartneriaid, ei flaenoriaethau a'i fframwaith gweithredol, polisi a deddfwriaethol;
- Math o gyfranogiad y cyfwelai, er enghraifft, a ydynt wedi mynychu hyfforddiant neu wedi cyrchu cymorth ymgynghori wedi'i deilwra.

Cyhyd â phosibl, caiff yr wybodaeth hon ei chasglu a'i hadolygu gan y cyfwelydd cyn y cyfweliad.

Bydd y cyfwelydd yn casglu unrhyw dystiolaeth ddogfennol ac enghreifftiau i gefnogi datganiadau a barn a fynegir. Yn arbennig, dylai cyfwelyddion ofyn am gynlluniau gweithredu, arolygon mewnol ar y defnydd o Ffynnon, neu ddogfennaeth gysylltiedig arall. Lle y bo'n bosibl dylid cael copïau neu ddolenni i'r we ar gyfer y rhain.

## ADRAN 1 – GWYBODAETH GEFNDIR

Enw'r cyfwelai: ……………………………………………………………….

Sefydliad y cyfwelai …………………………………………………….

Dyddiad y cyfweliad: ………………………………………………………………………

Cyfwelydd GHK/LIC: ……………………………………………………………………….

**ADRAN 2 – DEFNYDDIO FFYNNON**

Yn yr adran hon rydym am ganfod sut ac i ba raddau y defnyddir Ffynnon yn y sefydliad. Gallai hyn fod ar lefel tîm/adran/sefydliad. Rydym am wybod sut mae'r rhanddeiliad yn defnyddio'r ddwy brif elfen, h.y. system Ffynnon (gan gynnwys rhannu data) a chymorth ymgynghori Ffynnon.

**2.1 Defnydd staff a'u hymwybyddiaeth o system Ffynnon** (h.y. y meddalwedd, nid cymorth ymgynghori Coactiva)

- Ers pryd mae eich sefydliad yn gysylltiedig â rhaglen Ffynnon?
- Hyd eithaf eich gwybodaeth, pa ganran yn fras o'r staff sy'n ddefnyddwyr cofrestredig ar gyfer y system?
- A fyddech yn dweud bod Ffynnon wedi'i gwreiddio'n eang ar draws y sefydliad/adran?
- Beth yw'r rhesymau dros hyn? (h.y. beth fu'r ffactorau cefnogi neu'r rhwystrau rhag gwreiddio Ffynnon)
- Pa mor bwysig yw'r system i'ch dulliau coladu ac adrodd data'n fewnol ac yn allanol?
- A yw system Ffynnon wedi cael effaith ar eich prosesau data ac adrodd (e.e. symleiddio neu gynyddu'r baich adrodd?)
- A yw eich defnydd o'r system wedi newid dros amser? Os ydy, sut?

**2.2 Defnyddio system Ffynnon i gefnogi rheoli perfformiad** (h.y. y meddalwedd, nid cymorth ymgynghori Coactiva)

- Beth yw'r prif ddefnyddiau ar gyfer y system mewn perthynas â rheoli perfformiad drwy:
    - Caniatáu llwytho data?
    - Storio data mewn lleoliad canolog?
    - Galluogi defnyddwyr niferus i gyrchu'r data, er mwyn ei weld a'i drin a'i drafod yn ôl yr angen?
    - Hwyluso dadansoddi data i asesu cynnydd tuag at dargedau penodedig gan ddefnyddio dangosyddion allweddol?
    - Cefnogi prosesau adrodd e.e. i'r Llywodraeth?
    - Defnyddiau eraill?
- A ydych yn defnyddio galluedd y system i rannu data? Os ydych, gyda phwy rydych yn ei ddefnyddio, a beth fu effaith hyn, os bu effaith o gwbl?
- Disgrifiwch unrhyw ffyrdd eraill o ddefnyddio'r meddalwedd:
- A ydych yn defnyddio system Ffynnon ochr yn ochr â systemau eraill i gefnogi rheoli perfformiad? Os ydych, pa rai, a sut mae'r ddwy'n gysylltiedig?

**2.3 Defnyddio'r system i gefnogi cydweithio**

- A ydych yn gysylltiedig ag unrhyw rai o'r prosiectau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol? Er enghraifft, cydweithio ar Fudd-daliadau Tai (17 Awdurdod Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru) neu ddatblygiadau system fel mapio GIS.
- Os ydych, disgrifiwch y prosiect ac esboniwch eich cyfranogiad.
- A yw eich cyfranogiad gyda'r prosiect wedi bod o fantais i'ch sefydliad? Os ydy, sut?

## 2.3 DEFNYDDIO CYMORTH YMGYNGHORI COACTIVA

- Ochr yn ochr â system feddalwedd Ffynnon, a ydych wedi cyrchu'r cymorth ymgynghori a ddarperir gan ymgynghorwyr Coactiva?

- Os nad ydych, a oes rheswm dros hyn?

- Os ydych, pa fathau o gymorth a gawsoch, a oedd hyn yn:

  - Hyfforddiant cychwynnol i gyflwyno'r system a sut i ddefnyddio hyn

  - Hyfforddiant a chymorth mwy penodol e.e. gweithdy mapio prosesau

  - Cefnogi agwedd arbennig ar eich sefydliad i wella rheoli perfformiad, e.e. Hyfforddiant Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau

  - Arall (disgrifiwch)

- Pryd cyrchwyd y cymorth? A yw eich defnydd o'r cymorth wedi newid dros amser?

- A oedd y cymorth a gawsoch o gymorth, ac a ymatebodd i'ch anghenion? Os naddo, sut gellid bod wedi ei wella?

- A ydych wedi prynu unrhyw fathau eraill o gymorth busnes i mewn i'ch sefydliad? Pa fath o gymorth a phwy a'i ddarparodd? Beth oedd eich barn am y cymorth a gawsoch?

**ADRAN 3 – YMWYBYDDIAETH GYCHWYNNOL AC YMGYSYLLTIAD Â FFYNNON**

Yn yr adran hon rydym am archwilio sut y clywsant am Ffynnon yn y lle cyntaf, beth oedd eu disgwyliadau, a'u barn am eu hymgysylltiad cychwynnol â'r rhaglen. Mae'n bosibl bod rhai cyfweleion wedi ymuno â Ffynnon ar ôl iddi gael ei gwreiddio yn eu sefydliad felly mae'n bosibl na fyddant yn gallu ymateb.

## 3.1 – YMWYBYDDIAETH GYCHWYNNOL O FFYNNON

- Cyn i chi ddechrau defnyddio Ffynnon, beth oedd y trefniadau a oedd yn eu lle i gefnogi rheoli perfformiad? (*Noder: mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd hyn wedi newid; mae'n bosibl mai defnydd minimol a wnânt o Ffynnon)*
- O edrych yn ôl, sut clywsoch am Ffynnon yn y lle cyntaf?
- Beth oedd eich argraff gyntaf am Ffynnon? A oedd gennych unrhyw ddisgwyliadau arbennig o'r rhaglen ar sail yr hyn roeddech yn ei wybod?
- Beth oedd y ffactorau a effeithiodd ar y penderfyniad i ddefnyddio Ffynnon (neu i beidio â'i defnyddio, yn dibynnu ar y sefydliad)? A oedd y canlynol yn bwysig:
    - Y ffaith ei bod yn system Cymru gyfan, gan gefnogi rhannu data a chydweithio
    - Y ffaith ei bod yn adnodd am ddim/buddiannau costau i'r sefydliad
    - Argaeledd adnodd ymgynghori atodol i gefnogi defnydd o'r system
    - Ffactorau eraill (disgrifiwch)
- A ydych wedi cael profiad blaenorol o unrhyw system rheoli perfformiad debyg i Ffynnon? Os do, pa rai, a sut roeddent yn cymharu â Ffynnon?
- Sut bu i chi ymgysylltu yn y lle cyntaf â Ffynnon? E.e. a oedd hyn drwy ymgynghorwyr Coactiva?
- A oedd y broses yn syml? Sut gellid bod wedi'i gwella?
- I ba raddau mae Ffynnon wedi dylanwadu ar ymagwedd eich sefydliad at reoli perfformiad? (Uchel/cymedrol/isel?) A oes unrhyw ddylanwadau neu sbardunau eraill sydd wedi effeithio ar eich sefydliad?

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTIAD PARHAUS Â RHAGLEN FFYNNON**

Yn yr adran hon rydym am ddysgu am y cyfwelai a'i ymgysylltiad sefydliadol â Ffynnon, ac archwilio sut mae ei ddefnydd o'r system a'r cymorth wedi newid dros amser.

## 4.1 – YMGYSYLLTIAD Â FFYNNON

- A ydych yn ymgysylltu â Ffynnon drwy unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:
  - Mynychu cyfarfodydd e.e. Grwpiau Defnyddwyr Rhanbarthol, Rhwydwaith Gwella Cymru (RhGC)
  - Cyrchu eitemau newyddion ar wefan Coactiva mewn perthynas â Ffynnon
  - Dogfennau fel Cynllun Cenedlaethol y Rhaglen a'r Adroddiad Cynnydd
  - Eraill? Disgrifiwch.
- A allech awgrymu unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i'r dulliau cyfathrebu sy'n ategu Ffynnon? Er enghraifft, sianeli eraill neu ffurfiau eraill ar gyfer darparu newyddion a diweddariadau.
- A ydych yn fodlon ar strwythurau rheoli Ffynnon? (Gweler y Diagram ar ddiwedd y canllaw)
- Sut gellid gwella strwythurau rheoli?
- A ydych wedi defnyddio llinell gymorth Coactiva? At ba ddiben oedd hyn ac a ddatryswyd eich mater?

**ADRAN 5 – EFFAITH RHAGLEN FFYNNON**

Yn yr adran hon rydym am gasglu'r effeithiau sydd wedi deillio o raglen Ffynnon, ar gyfer yr unigolyn neu'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

## 5.1 EFFAITH AR YR UNIGOLYN

- I ba raddau mae eich cysylltiad â rhaglen Ffynnon yn gyffredinol wedi cael effaith ar eich gwaith a'ch gallu i gyflawni eich rôl? A yw'r effaith wedi bod yn gadarnhaol/negyddol/niwtral?

- Ym mha ffyrdd mae rhaglen Ffynnon wedi newid y ffordd rydych yn cyflawni eich rôl, yn benodol eich cysylltiad â:

  - System Ffynnon gan gynnwys y cyfleuster i rannu data

  - Cymorth ymgynghori Coactiva ar Ffynnon

- A ydych wedi cymhwyso sgiliau a gwybodaeth a gafaelwyd drwy Ffynnon i'ch rôl?

- A yw eich defnydd o Ffynnon wedi newid dros y cyfnod y buoch yn defnyddio'r system? Os ydy, sut?

- Beth yw eich barn am y datblygiadau i Ffynnon dros amser e.e. cyfleuster mapio GIS, cynnwys data ychwanegol?

- A oes teclynnau neu ddatblygiadau i'r system yr hoffech eu gweld yn rhaglen Ffynnon?

## 5.2 EFFAITH AR Y SEFYDLIAD

- Sut mae rhaglen Ffynnon yn gyffredinol wedi cael effaith ar eich sefydliad a'r ffordd mae'n ymdrin â rheoli perfformiad? A yw'r effaith wedi bod yn gadarnhaol/negyddol/niwtral?

- Ym mha ffyrdd mae rhaglen Ffynnon wedi newid y ffordd mae eich sefydliad yn asesu ac yn adrodd ar gynnydd, yn benodol drwy gysylltiad â:

  - System Ffynnon gan gynnwys y cyfleuster rhannu data

  - Cymorth ymgynghori Coactiva ar Ffynnon

- Yn y **byrdymor**, a hyd eithaf eich gwybodaeth, a yw staff o fewn y sefydliad wedi cymhwyso sgiliau a gwybodaeth a gaffaelwyd drwy Ffynnon i'w rôl?

- A yw dysgu a gafwyd drwy system Ffynnon wedi'i ledaenu ar draws eich sefydliad?

- Yn y **tymor canolig/hwy** a yw eich defnydd o Ffynnon wedi newid strwythurau sy'n bodoli eisoes ar gyfer casglu, coladu, dadansoddi neu gyflwyno data? Os ydy, ym mha ffyrdd?

- A yw Ffynnon wedi cael effaith ar allu o fewn eich sefydliad i gasglu, coladu a lledaenu data? Esboniwch.

- A yw diwylliant y sefydliad wedi newid, er enghraifft symudiadau tuag at fwy o gydweithio neu fwy o ffocws ar reoli perfformiad?

- A yw eich ymgysylltiad â Ffynnon wedi cael effaith ar lefelau rhannu data, trefniadau gweithio mewn partneriaeth neu gydweithio â sefydliadau eraill?

- A ydych o'r farn bod ymgysylltu â Ffynnon wedi gwella dealltwriaeth o'r blaenoriaethau mewn perthynas â gwybodaeth, a manteision cydweithio?

- A yw eich defnydd o Ffynnon wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd drwy wella systemau? Os ydy, rhowch enghreifftiau ac unrhyw ddogfennau i ategu hyn.

- A yw eich defnydd o system Ffynnon wedi arwain at arbedion gwirioneddol (neu ydych yn rhagweld potensial i wneud arbedion) i'ch sefydliad fel hyfforddiant i staff gan ddefnyddio systemau a theclynnau, neu ddefnyddio system i gefnogi rheoli perfformiad a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy ymagwedd gaffael fel consortiwm? (rhowch dystiolaeth lle y bo'n bosibl)

**ADRAN 6 – DYFODOL RHAGLEN FFYNNON**

Yn yr adran hon rydym am archwilio barn cyfweleion ar fantais Ffynnon i'w sefydliad, a chanfod eu barn am gyllido a chyflwyno Ffynnon ar ôl 2012.

**6.1 DYFODOL FFYNNON**

- Yn fras, beth yw'ch barn (cadarnhaol, negyddol, niwtral) o raglen Ffynnon yn gyffredinol mewn perthynas â'r canlynol:
  - Rhaglen gyfan ar gyfer cefnogi rheoli perfformiad? (h.y. system a chymorth ymgynghori gyda'i gilydd)
  - System ar gyfer coladu, storio, dadansoddi a rhannu data?
  - Adnodd cymorth ymgynghori i reoli newid sefydliadol/rheoli perfformiad
- Yn gyffredinol, sut mae Ffynnon o fudd i'ch sefydliad?
- A fyddech yn argymell Ffynnon i sefydliadau eraill, i gefnogi eu hymagwedd at reoli perfformiad?
- Pe na bai Ffynnon wedi'i datblygu, beth fyddai sefyllfa eich sefydliad yn eich tyb chi?
- Daw cyfnod cyllido contract Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Ffynnon i ben yn 2012. Yn dilyn hyn, a fyddai eich sefydliad yn ystyried cyfrannu tuag at y gost o barhau â rhaglen Ffynnon?
- A oes unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau pellach y byddech yn eu hawgrymu i sicrhau bod Ffynnon yn ateb anghenion cyfnewidiol y sefydliadau rhanddeiliaid?

T

- A oes unrhyw bwyntiau terfynol yr hoffech eu hychwanegu?

## ATODIAD Ch – TEMPLED YR E-AROLWG

| |
|---|
| **TESTUN AR GYFER AROLWG AR-LEIN AR GYFER AELODAU RHWYDWAITH GWELLA CYMRU (RhGC / WIN)** |
| **Gwerthusiad Ffynnon – Arolwg i Aelodau WIN** |
| Mae GHK Consulting Ltd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i werthuso rhaglen Ffynnon. |
| Nod y gwerthusiad yw asesu effaith, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rhaglen drwy ganolbwyntio ar: weithrediad Ffynnon a graddau ei defnydd a'i chwmpas, defnyddioldeb y system mewn gwahanol gyd-destunau ar draws Cymru, p'un a yw'n darparu gwerth ychwanegol i systemau eraill ac effaith a photensial y rhaglen. At hynny, bydd yr astudiaeth yn asesu a yw gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad i Ffynnon ac a oes elfennau ohoni y gellid eu gwella. |
| Mae'r arolwg hwn wedi'i lunio i gasglu barn Aelodau WIN ar system Ffynnon ac mae'n cynnwys cwestiynau amlddewis yn bennaf. Fodd bynnag, mae modd cyflwyno manylion pellach mewn blychau testun agored. Er mwyn llywio drwy'r arolwg, cliciwch ar y botymau ar waelod y sgrin. Dylai'r arolwg gymryd rhyw 10 munud i'w gwblhau. |
| Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y gwerthusiad, neu am yr arolwg hwn, dylech gysylltu â rheolwr yr astudiaeth, Jane Sanderson, drwy ffonio 0121 233 8900, neu ebostio jane.sanderson@ghkint.com. Os cewch unrhyw anawsterau technegol gyda'r arolwg, cysylltwch â Sophie Bragg (sophie.bragg@ghkint.com). |
| **ADRAN 1 – GWYBODAETH GEFNDIR** |
| Enw |
| Teitl swydd |
| Sefydliad |
| Disgrifiwch yn fras eich rôl yn eich sefydliad, a chyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â gweithgarwch rheoli perfformiad |
| **ADRAN 2: DEFNYDDIO SYSTEM FFYNNON** |
| Ers faint o amser yn fras mae eich sefydliad yn ymwneud â rhaglen Ffynnon? |
| Llai na 6 mis |
| Rhwng 6 mis a blwyddyn |
| Rhwng 1 a 2 flynedd |
| Dros 2 flynedd |
| Ddim yn gwybod |
| Ym mha ffyrdd mae eich sefydliad wedi ymwneud â Ffynnon? |

| |
|---|
| Defnyddio meddalwedd System Ffynnon |
| Defnyddio cyfleuster rhannu data Ffynnon |
| Defnyddio cymorth ymgynghori Ffynnon |
| ✓ |
| X |
| Ddim yn gwybod |
| Tua faint o’r staff yn eich sefydliad sy’n defnyddio’r system? Darparwch ffigur a chanran os gwelwch yn dda. |
| Beth oedd natur y gefnogaeth gawsoch drwy Coactiva? |
| Hyfforddiant ar y system ar gyfer staff er mwyn cefnogi gweithredu |
| Hyfforddiant wedi’i deilwra megis gweithdai mapio prosesau SPRINT |
| Cefnogaeth rheoli perfformiad wedi’i theilwra fel gwasanaeth ymgynghori ar Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau |
| **ADRAN 3: BARN AM RAGLEN FFYNNON** |
| I ba raddau rydych yn cytuno, neu’n anghytuno, gyda’r datganiadau canlynol mewn perthynas â rhaglen Ffynnon? |
| Mae rhaglen Ffynnon yn cefnogi rhanddeiliaid i wella’u systemau rheoli perfformiad |
| Mae Ffynnon wedi cefnogi fy sefydliad i wella’i systemau ar gyfer casglu, coladu, dadansoddi a lledaenu data |
| Mae Ffynnon wedi cefnogi fy sefydliad wrth fonitro’i gynnydd trefniadaethol tuag at dargedau |
| Mae Ffynnon wedi cefnogi fy sefydliad wrth ateb gofynion adrodd, e.e. i Lywodraeth ganolog |
| Mae Ffynnon wedi helpu i gynyddu gwybodaeth a chapasiti aelodau staff mewn perthynas â monitro a gwella perfformiad o fewn fy sefydliad |
| Cytuno’n gryf |
| Cytuno |
| Anghytuno |
| Anghytuno’n gryf |

| |
|---|
| Ddim yn gwybod |
| Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'ch atebion i Gwestiwn 6, dylech eu nodi yma: |
| A yw Ffynnon wedi cefnogi eich sefydliad i sefydlu cysylltiadau newydd neu atgyfnerthu trefniadau gweithio ar y cyd sy'n bodoli eisoes gyda sefydliadau partner? |
| Ym mha ffyrdd mae eich sefydliad wedi sefydlu cysylltiadau newydd neu atgyfnerthu trefniadau gweithio ar y cyd sy'n bodoli eisoes drwy Ffynnon? |
| A ydych yn fodlon ar y trefniadau rheoli ar gyfer Ffynnon, h.y. Tîm Prosiect canolog gyda mewnbwn gan y Grwpiau Defnyddwyr a WIN? |
| A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu gwneud i'r strwythur rheoli? |
| Darparwch fanylion isod am y newidiadau y byddech yn eu gwneud i'r strwythur rheoli |
| **ADRAN 4: EFFAITH RHAGLEN FFYNNON** |
| I ba raddau rydych yn cytuno, neu'n anghytuno, gyda'r datganiadau canlynol mewn perthynas ag effaith rhaglen Ffynnon? |
| Mae Ffynnon wedi cefnogi fy sefydliad i wella'i ymagweddau rheoli perfformiad |
| Mae system ac adnodd ymgynghori Ffynnon wedi helpu i ddatblygu capasiti a chynyddu sgiliau staff o fewn fy sefydliad |
| Mae Ffynnon wedi cefnogi gweithio ar y cyd ar gyfer fy sefydliad |
| Mae Ffynnon wedi cefnogi gweithio ar y cyd o fewn yr ardal leol ac ar draws ffiniau trefniadaethol |
| Os hoffech ddarparu unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â'ch atebion i Gwestiwn 10, dylech eu nodi yma: |
| A yw Ffynnon wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd ar gyfer eich sefydliad? |
| Dylech ddarparu manylion isod am yr arbedion effeithlonrwydd a wireddwyd gan eich sefydliad |
| A fu unrhyw gostau'n gysylltiedig ag ymgysylltiad eich sefydliad â Ffynnon? – gallai'r rhain fod yn ariannol, mewn da neu gostau adnoddau |

| |
|---|
| Dylech ddarparu manylion isod am y costau fu’n gysylltiedig ag ymgysylltu â Ffynnon |
| A fyddech yn argymell rhaglen Ffynnon i sefydliadau tebyg i’ch sefydliad chi? |
| Bydd cyfnod contract Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido Ffynnon yn dod i ben yn 2012. Wedi hyn, a fyddai eich sefydliad yn ystyried cyfrannu tuag at y gost o barhau â rhaglen Ffynnon? |
| A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu hawgrymu i sicrhau bod Ffynnon yn ateb anghenion y rhanddeiliaid? |
| Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach am Ffynnon, dylech eu nodi isod: |
| Diolch i chi am roi o’ch amser i gwblhau’r arolwg – dylech glicio ar y botwm ‘submit’ isod i anfon eich ymatebion i GHK. |

## ATODIAD D – NODYN CANLLAW GRŴP FFOCWS

# Gwerthusiad o Ffynnon

## Canllaw Grŵp Ffocws – Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Ffynnon De Cymru, Aberaeron, 30ain Mehefin 2011.

**Cyflwyniadau** – hwyluswyr i gyflwyno'u hunain (JS/CG) a diolch i'r cyfranogwyr am gytuno i gymryd rhan. Gofyn i bob mynychwr gyflwyno'i hun, ynghyd â'i rôl a pha mor gyfarwydd ydyw â Ffynnon.

**Cefndir** – esbonio ein bod yn awyddus, yn rhan o fethodoleg y gwerthusiad, i gasglu adborth yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr, er mwyn nodi'r defnydd o Ffynnon a'i heffeithiau.

Caiff y trafodaethau hyn eu strwythuro'n unol â chwestiynau penodedig ond byddem hefyd yn annog pobl i gyfrannu unrhyw bwyntiau sy'n bwysig yn eu tyb nhw; gwelir gwerth y grwpiau ffocws hyn drwy'r trafodaethau sy'n datblygu rhwng y bobl sy'n cymryd rhan, felly po fwyaf y cyfraniadau, y gorau y bydd.

Heddiw hoffwn drafod y prif feysydd canlynol, ond mae'n bosibl iawn y bydd pwyntiau eraill i'w trafod yn codi:

- Y ffactorau sy'n effeithio ar y defnydd o Ffynnon
- Effeithiau Ffynnon
- Pwyntiau i'w hystyried at y dyfodol

**1) Hwyluswyr a rhwystrau i weithredu a defnyddio Ffynnon**

Gwyddom fod lefelau defnydd o system Ffynnon a'r cymorth ymgynghori'n amrywio'n fawr. Hoffem glywed yn gyntaf beth sy'n effeithio ar raddau defnydd rhanddeiliaid.

- Ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n defnyddio Ffynnon yn helaeth, beth fu'r hwyluswyr a/neu'r ffactorau llwyddiant wrth ddefnyddio'r system a'r cymorth ymgynghori (*procio: 'cynnig' y rhaglen, ansawdd y system, cymorth gan Coactiva, y ffaith ei fod yn adnodd am ddim*)

- Ar gyfer y rheiny nad ydynt yn defnyddio system Ffynnon ryw lawer ar draws eu sefydliad, beth yw'r rhesymau dros hyn? (*procio: systemau yn eu lle eisoes, nid yw Ffynnon yn ateb ein hanghenion - ymchwilio)*

- A oes unrhyw beth a fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o Ffynnon (y system a'r cymorth ymgynghori)?

- Sut mae Ffynnon yn cymharu â systemau eraill yn eich profiad chi? (*Mae'n bosibl nad systemau meddalwedd 'oddi ar y silff' yw'r rhain, gallent fod yn drefniadau a ddatblygwyd yn fewnol, e.e. gan ddefnyddio ffeiliau Excel i gasglu a dadansoddi data)*

**2) <u>Ymchwilio i effeithiau Ffynnon</u>**

Fel y crybwyllwyd, mae'r astudiaeth yn ceisio canfod beth yw effaith Ffynnon ar sefydliadau rhanddeiliaid. Hoffwn ddysgu sut mae rhannau allweddol o Ffynnon wedi cael effaith ar eich sefydliadau:

- System feddalwedd Ffynnon – a yw hyn wedi cael effaith ar gasglu/coladu/dadansoddi ac adrodd data? Sut?

- Y cymorth ymgynghori? (gallai hyn fod yn hyfforddiant ar y system, neu ymwneud yn fwy â rheoli perfformiad e.e. gweithdai Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau). A yw hyn wedi cynyddu gwybodaeth a gallu o fewn eich sefydliad?

- Rhan yr amgylchedd cydweithio yn y system? A yw hyn wedi annog cydweithio? Os ydy, sut? Os nad ydy, a ydych o'r farn bod ganddi'r potensial i wneud hyn? Esboniwch.

- A yw Ffynnon wedi cefnogi eich sefydliad i adolygu ei ymagwedd at reoli perfformiad? Os ydy, sut?

- A yw eich defnydd o Ffynnon wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd fel treulio llai o amser yn coladu data i gefnogi adrodd?

**3) Dyfodol Ffynnon**

- Yn gyffredinol, a yw Ffynnon wedi bod o fantais i'ch sefydliad?

- Beth yw eich barn o raglen Ffynnon ar y cyfan? A oes unrhyw newidiadau neu welliannau y gallech eu hawgrymu?

- Fel y gwyddoch, daw cyfnod cyllido'r contract i ben ddiwedd 2012. Beth yw eich barn am yr opsiynau ar gyfer Ffynnon yn y dyfodol? Dylech ystyried opsiynau cyllido fel parhad i gyllid Llywodraeth Cymru, cyfraniadau sefydliadol gan randdeiliaid.

- A oes unrhyw bwyntiau olaf yr hoffech eu gwneud i lywio'r gwerthusiad?

Diolch a diweddglo.

## ATODIAD Dd – MODELAU LOGIC (ar gyfer rhaglen, system a chymorth ymgynghori Ffynnon)

:

Cyd-destun Model Logic Gwerthuso Rhaglen Ffynnon: sefydlwyd y system i gefnogi 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ynghyd â sefydliadau partneriaid rhanddeiliaid strategol, i ymateb i yrwyr polisi o amgylch: yr angen i wella rheoli perfformiad, gweithio'n fwy cydweithredol, gwreiddio diwylliant yn y pen draw o gydweithio ar draws tirwedd y sector cyhoeddus, a gwireddu manteision gwell dulliau o goladu, dadansoddi a lledaenu data er mwyn cyflawni blaenoriaethau cyffredin, arbedion effeithlonrwydd a gwella prosesau adrodd.

**Mewnbwn:**

- Gwariant LlC ar gontractio Ffynnon
- Cefnogaeth mewn da e.e. drwy fwrdd rhaglen (cynt)
- mewnbwn cymorth ymgynghori Coactiva 3xCALl ac 1x0.75 – Mewnbwn datblygu Ffynnon Cymorth rhanddeiliaid drwy'r grŵp defnyddwyr/ Bwrdd Rhaglen RhGC, Tîm y Prosiect

**Grŵp Targed:**

–sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru (yn arbennig y rheiny nad oeddent yn canolbwyntio ar reoli perfformiad, a'r rheiny nad oeddent yn ymgysylltu â phartneriaid strategol a gweithredol i gyflawni cydweithio)

**Gweithgareddau:**

-Meddalwedd system Ffynnon i gefnogi gweithgareddau coladu, dadansoddi ac adrodd ar ddata'r sefydliadau
-Amgylchedd Ffynnon yn hwyluso rhannu data gwybodaeth o fewn sefydliadau, ac ar draws ffiniau sefydliadol e.e. cefnogi ymyrraeth mewn ardaloedd lleol, ynghyd ag adrodd i swyddfeydd canolog ar lefel genedlaethol
-Cymorth ymgynghori o dan ddwy brif haen: cymorth system fel hyfforddiant a gwreiddio'r system, ac arbenigedd rheoli perfformiad wedi'i deilwra i anghenion y rhanddeiliad
-Llywio datblygiad y rhaglen gyda mewnbwn gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid

**Rhesymeg:**

-Defnyddir y system feddalwedd yn wirfoddol, gan ganiatáu i sefydliadau ei defnyddio fel y mynnant
-Mae'r amgylchedd rhannu data'n annog gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol, cronni data, helpu i nodi arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd i gydweithio
-Cynnig arbenigedd cymorth busnes, yn y lle cyntaf i wreiddio a sbarduno defnydd o'r system
- annog ffocws ar gyd-destun rheoli perfformiad ehangach

**Allbwn:**

-Nifer y defnyddwyr/ amlder a nifer yr ymweliadau â'r system
-Niferoedd y sesiynau hyfforddiant ar y system a gyflwynwyd
-Nifer y sesiynau/ pecynnau cymorth busnes a gyflwynwyd
-Nifer y gweithgareddau prosiectau a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd
-Sefydliadau a dargedwyd yn meddu ar drwyddedau
-Defnydd o declynnau rheoli perfformiad

**Deillianna u byrdymor**

-Gwybodaeth unigolion wedi'i gwella mewn perthynas â: defnydd o'r system, coladu, dadansoddi a lledaenu data
-staff wedi caffael y dull o drosglwyddo data
-Ymwybyddiaeth ehangach ar draws sefydliadau o bwysigrwydd rheoli perfformiad effeithiol a'r angen am ddata i ategu hyn
-Camau tuag at rannu data, dymchwel rhwystrau a'r traddodiad o 'weithio mewn seilos'
-Gwell dulliau o goladu data, dadansoddi ansawdd ac adrodd yn well

**Deilliannqu tymor canolig i hir**

Cymhwyso dysgu i systemau:
- rhannu data i raddau helaethach ac yn fwy effeithiol
- systemau'n cefnogi trosglwyddo a dadansoddi data

Newidiadau i'r systemau, cynyddu defnydd:
– nid yw diwylliant sefydliadau yn rhwystr bellach
-Arbedion effeithlonrwydd yn y sefydliad ac ar draws y sector e.e. drwy gaffael ar y cyd
- Rheoli perfformiad ar sail adroddiadau systemau data

Cyd-destun Model Logic system Ffynnon: mae'r system yn cynnwys y galluedd i gasglu, coladu, cymharu, dadansoddi, cyflwyno a rhannu data. Datblygwyd y system i wella rheoli perfformiad, cefnogi rhanddeiliaid i weithio'n fwy cydweithredol, gwreiddio diwylliant yn y pen draw o gydweithio ar draws tirwedd y sector cyhoeddus, a gwireddu manteision gwell dulliau o goladu, dadansoddi a lledaenu data er mwyn cyflawni blaenoriaethau cyffredin, arbedion effeithlonrwydd a gwella prosesau adrodd

***Mewnbwn:***

-Amser ac adnodd datblygu Coactiva
-Mewnbwn defnyddwyr i lywio datblygiad y system
-Adnodd desg gymorth Coactiva i gefnogi defnyddwyr

***Grŵp Targed:***

-sefydliadau yn y sector cyhoeddus a oedd yn dymuno sbarduno gwell ymagwedd weithio at reoli perfformiad, ac angen system i gefnogi hyn
-sefydliadau yn y sector cyhoeddus a allai ddefnyddio system Ffynnon o bosibl ochr yn ochr â'u systemau presennol i wella rheoli perfformiad ac adrodd

***Gweithgareddau:***

-Cwmpasu angen sefydliadol a nodi ble a sut gallai'r system gefnogi'r rhanddeiliad orau
-poblogi'r system â data: dangosyddion lefel genedlaethol a data lefel leol
-trin a thrafod y data i ddadansoddi cynnydd tuag at dargedau, asesu tueddiadau mewn mesurau perfformiad, cymharu perfformiad, ac ati.
-sbarduno rhannu data ar draws adrannau i gefnogi cydweithio

***Rhesymeg:***

-mae'r system yn cynnig teclyn cynhwysfawr i randdeiliaid lwytho, storio, coladu, gweld, dadansoddi, cyflwyno ac adrodd data
-mae galluedd y system yn caniatáu i'r data yn y system gael ei rannu ag eraill y mae ganddynt ganiatâd

***Allbwn:***

-defnydd o'r system gan randdeiliaid, ac unigolion priodol ar draws sefydliadau
-trefniadau rhannu data yn eu lle i gefnogi cydweithio yn yr ardal neu o amgylch gweithgarwch

***Deilliannu - byrdymor***

-Staff yn caffael gwybodaeth am sut mae'r system yn gweithio, a sut gallant ei defnyddio er budd eu sefydliad
-Rhannu'r wybodaeth a gaffaelwyd, rhwng aelodau staff
-Staff yn cymhwyso'r wybodaeth a gaffaelwyd yn eu rôl
-Staff yn datblygu sgiliau i ddadansoddi a chyflwyno data i gefnogi adrodd cynnydd
-trefniadau rhannu data'n galluogi staff ar draws sefydliadau i gyfnewid data, gan hwyluso dadansoddi cymharol a chydweithio

***Deilliannau tymor canolig i hir***

Mae gwneud cynnydd tuag at ddangosyddion cenedlaethol a mesurau lleol yn ffocws canolog ar gyfer y sefydliad
-mae'r system yn newid i gefnogi adrodd a choladu data a gweithgarwch dadansoddi
-perthnasau cydweithredol ar draws adrannau a sefydliadau'n cael eu datblygu / eu hatgyfnerthu drwy'r system

**Cyd-destun Model Logic system Ffynnon**: tyfodd y cymorth ymgynghori fel modd o gefnogi sefydliadau i weithredu, gwreiddio a thrin a thrafod system Ffynnon a'i galluedd. Mae'r cymorth ymgynghori yn adnodd am ddim, a gall fod ar ffurf hyfforddiant safonol i ddefnyddwyr y system, i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i asesu a gwella rheoli perfformiad a phrosesau cysylltiedig. Nod y cymorth yn y pen draw yw cefnogi a gwreiddio diwylliant o gydweithio ar draws tirwedd y sector cyhoeddus, a gwireddu manteision gwell dulliau o goladu, dadansoddi a lledaenu data er mwyn cyflawni blaenoriaethau cyffredin, arbedion effeithlonrwydd a gwella prosesau adrodd.

### Mewnbwn:

- Nifer o ddiwrnodau ymgynghorydd Coactiva/ mewnbwn amser ac adnoddau gan Coactiva (3xCALl ac 1x0.75)
- Nifer o sesiynau hyfforddi neu gymorth ymgynghori wedi'i deilwra wedi'u cyflwyno

### Grŵp Targed:

-sefydliadau yn y sector cyhoeddus a oedd yn dymuno 'ymuno' â Ffynnon
- rhanddeiliaid rhaglen Ffynnon angen cymorth a hyfforddiant i gael y budd mwyaf o'u defnydd o'r system
- rhanddeiliaid a oedd yn dymuno ffocysu ar weithgarwch rheoli perfformiad ehangach, gan fynnu cymorth wedi'i deilwra

### Gweithgareddau:

Cyfuniad o gymorth gweithredu'r system a chymorth ymgynghori:
-Gweithredu'r system gan gynnwys symud o system flaenorol, a mynychu hyfforddiant i staff ar ddefnyddio'r system
-cymorth ymgynghori SPRINT, wedi'i deilwra i gefnogi gwella prosesau drwy fapio a dadansoddi prosesau
-Cymorth ymgynghori Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau ar gyflawni deilliannau
-Ceisiadau 'ad hoc' gan randdeiliaid am gymorth ymgynghorwyr, i gynorthwyo gweithredu, neu roi cyngor ar ddatblygiadau ar wella systemau rheoli perfformiad

### Rhesymeg:

-Sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu'n gywir, a bod staff rhanddeiliaid yn cael eu hyfforddi i'w defnyddio
-Sicrhau bod y system yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial cyhyd â phosibl er budd y sefydliad
-Ymateb i gynllunio sefydliadol ac anghenion cynnal gweithgarwch newid
-Ymateb i ymholiadau/ problemau 'ad hoc'

### Allbwn:

-Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi
-Darparwyd adroddiadau 'astudiaethau achos' ar y cymorth a ddarparwyd, a ysgrifennwyd gan ymgynghorwyr Coactiva
-Teclynnau mapio a dadansoddi prosesau

### Deilliannau byrdymor

-Darparu'r wybodaeth a'r sgiliau i fynychwyr hyfforddiant i ddefnyddio'r system, i gyrchu, poblogi, trin a thrafod a rhannu data fel sy'n ofynnol
-Bydd cymorth ymgynghori fel mapio prosesau wedi cael effaith ar systemau data sy'n bodoli eisoes i'w gwneud yn fwy syml ac effeithlon
-Unigolion yn trosglwyddo'r wybodaeth a enillwyd yn eu hyfforddiant i'w cydweithwyr

### Deilliannau tymor canolig i hir

- Mae cymorth rheoli perfformiad wedi'i deilwra'n galluogi gwell defnydd o ddata ar gyfer asesu cynnydd yn erbyn targedau ac yn cefnogi gweithgarwch adrodd
-cefnogi diwylliant o gydweithio rhwng adrannau ac ar draws sefydliadau
-mae systemau mwy effeithlon ac ymagweddau cydweithio'n arwain at arbedion effeithlonrwydd